# Gweithio i Wella

## Canllawiau ar ymdrin â phryderon am y GIG o 1 Ebrill 2011

### Fersiwn 4 – Mai 2023

© Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47576, ISBN digidol 978-1-80535-978-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## MYNEGAI

**CRYNODEB GWEITHREDOL** .......... **6**

**ADRAN 1 – CYFLWYNIAD** .......... **7**

**Gweithio i Wella** .......... 7

**Rheoliadau'r GIG (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011** .......... 9

**Pryderon sy'n cael sylw adeg darparu'r gwasanaeth ("datrys yn gynnar")** .......... 11

**ADRAN 2 – TREFNIADAU SEFYDLIADOL** .......... **12**

**Goruchwyliaeth Strategol** .......... 12

**Swyddog Cyfrifol** .......... 12

**Uwch-reolwr Ymchwiliadau** .......... 13

**Y Tîm Pryderon** .......... 13

**Yr Holl Staff** .......... 14

**ADRAN 3 – HYFFORDDIANT A DATBLYGU SEFYDLIADOL** .......... **14**

**ADRAN 4 – GOFYNION AC EGWYDDORION CYFFREDINOL** .......... **16**

**Egwyddorion sy'n berthnasol wrth drin pryderon** .......... 16

**Darparu gwybodaeth yn eang ac mewn ffyrdd hygyrch** .......... 20

**Cydraddoldeb ac amrywiaeth** .......... 20

**Y Gymraeg** .......... 21

**Defnyddio Dehonglwyr/Cyfieithwyr ar y Pryd a chymorth cyfathrebu** .......... 22

**Cael gafael ar Gyngor a Chymorth** .......... 23

**Diogelu** .......... 23

**ADRAN 5 – MYNEGI PRYDER** .......... **23**

**Sut gellir mynegi pryder** .......... 26

**Pwy sy'n gallu mynegi pryder** .......... 28

**Pryderon a fynegir gan gynrychiolydd** .......... 28

**Pryderon a fynegir gan neu ynghylch plant a phobl ifanc** .......... 29

**Pryderon a fynegir gan garcharorion** .......... 29

**Pryderon a fynegir gan y staff** ..... 29

**Beth mae pobl yn gallu ei fynegi fel pryder o dan y trefniadau hyn** ..... 30

**Beth nad yw pobl yn gallu ei fynegi fel pryder o dan y trefniadau hyn** ..... 30

**Terfynau amser ar gyfer hysbysu am bryder** ..... 32

**Tynnu pryderon yn ôl** ..... 33

**ADRAN 6 – TRIN AC YMCHWILIO I BRYDERON ..... 33**

**Pryderon sy'n ymwneud â mwy nag un Corff Cyfrifol** ..... 34

**Pryderon a fynegwyd wrth fwrdd iechyd lleol ynghylch gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwr gofal sylfaenol** ..... 35

**Pryderon a fynegwyd wrth Fwrdd Iechyd Lleol gan glaf neu ei gynrychiolydd ynghylch gwasanaethau a ddarperir gan ymarferydd gofal sylfaenol** ..... 35

**Cais gan ddarparwr iechyd sylfaenol i fwrdd iechyd lleol gynnal ymchwiliad** ..... 37

**Ymchwilio i bryderon yn unol â'r Rheoliadau** ..... 38

**Cydnabod Pryderon** ..... 39

**Dyletswydd i fod yn agored** ..... 41

**Cael mynediad at Gofnodion Meddygol a Chaniatâd** ..... 42

**Ymchwiliadau** ..... 46

**Sefydlu'r Ymchwiliad a'r Asesiad Dechreuol o Bryder** ..... 47

**Cyfathrebu â'r person neu'r cynrychiolydd sydd wedi mynegi'r pryder** ..... 48

**Cefnogaeth i staff sy'n ymwneud â phryderon** ..... 48

**Cael cyngor clinigol annibynnol neu gyngor arall** ..... 49

**Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod** ..... 51

**Delio â phobl sy'n gwneud ceisiadau afresymol** ..... 52

**Pan fydd angen rhoi ystyriaeth ychwanegol i bryder** ..... 52

**Dyletswydd corff GIG Cymru i ystyried a oes atebolrwydd cymwys mewn camwedd** ..... 53

**Ymateb i bryder** ..... 54

**Ymateb terfynol o dan Reoliad 24** ..... 55

**Ymatebion terfynol sy'n cymryd mwy na 30 diwrnod gwaith** ..... 56

**Ymateb interim o dan Reoliad 26** ..... 56

**Adroddiad Interim** ..... 56

**Ymatebion interim sy'n cymryd mwy na 30 diwrnod gwaith** ..... 57

**ADRAN 7 – IAWN ........................................................................ 57**

**Atebolrwydd Cymwys mewn Camwedd** ........................................................ 58

**Pan nad yw Iawn yn berthnasol** ........................................................ 60

**Atal cyfnod y cyfyngiad dros dro** ........................................................ 61

**Cyngor cyfreithiol** ........................................................ 62

**Ymchwiliad Iawn** ........................................................ 63

**Cyfarwyddyd i gynghorwyr arbenigol annibynnol** ........................................................ 64

**Iawn – Ariannol** ........................................................ 65

**Tariff** ........................................................ 65

**Iawn – Rhoi hysbysiad o'r penderfyniad** ........................................................ 66

**Iawn – Adroddiad yr Ymchwiliad** ........................................................ 67

**Adroddiadau ymchwiliad sy'n cymryd mwy na'r terfyn amser o 12 mis** ........................ 67

**ADRAN 8 – TALU DIGOLLEDIAD ARIANNOL ........................................ 68**

**Rhan 1: Crynodeb** ........................................................ 68

**Rhan 2: Amodau Awdurdod Dirprwyedig** ........................................................ 70

**Cyffredinol** ........................................................ 71

**Datganiadau polisi** ........................................................ 71

**Cyfrifoldeb ar lefel bwrdd** ........................................................ 71

**Arbenigwyr hawliadau digolledu** ........................................................ 71

**Cyngor cyfreithiol cymwys** ........................................................ 72

**Cynnwys staff rheng flaen** ........................................................ 72

**Y weithdrefn ar gyfer trin hawliadau digolledu** ........................................................ 72

**Cronfa ddata hawliadau digolledu** ........................................................ 73

**Terfynau dirprwyedig** ........................................................ 74

**Hawliadau digolledu sy'n "niwsans"** ........................................................ 74

**Adroddiadau i'r Bwrdd** ........................................................ 74

**Taliadau newydd, dadleuol neu ôl-weithredol** ........................................................ 75

**Cyfrifoldebau Adrodd** ........................................................ 75

**ADRAN 9 – ADRODD AR DDIGWYDDIADAU DIFRIFOL AC YMCHWILIO IDDYNT ........................................................................ 76**

**Cyflwyniad** ........ 76

**Diffiniad o ddigwyddiad difrifol** ........ 76

**Digwyddiadau “Byth”** ........ 78

**Trefniadau rhoi gwybod am ddigwyddiadau difrifol** ........ 78

**Trefniadau adrodd Dim syrpréis** ........ 80

**Ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol a diweddariadau** ........ 80

**Dysgu o ddigwyddiadau difrifol** ........ 81

**Trefniadau Monitro** ........ 81

**Adroddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** ........ 81

**Adroddiad Atodlen 5 y Crwner** ........ 82

**ADRAN 10 – TREFNIADAU TRAWSFFINIOL AR GYFER YSTYRIED IAWN82**

**Atebolrwydd Cymwys yn Lloegr** ........ 83

**Adroddiad Interim** ........ 85

**Adroddiad yr Ymchwiliad** ........ 86

**Cyngor Cyfreithiol a Meddygol** ........ 87

**Rhoi hysbysiad o’r penderfyniad** ........ 87

**Atebolrwydd cymwys yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon** ........ 88

**ADRAN 11 – DYSGU O BRYDERON ........ 90**

**ADRAN 12 – MONITRO’R BROSES YMDRIN Â PHRYDERON ........ 91**

**Casglu data ar gyfer pryderon y defnyddir Rheoliadau’r GIG (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 i ymdrin â nhw** ........ 91

**ADRAN 13 – ADRODDIAD BLYNYDDOL ........ 93**

**ADRANNAU 14 – GWYBODAETH DDEFNYDDIOL ........ 94**

**Camau i’w cymryd pan fydd Corff Cyfrifol yn cael cais am fynediad at gofnodion iechyd**94

**Camau i’w cymryd pan hysbysir pryder sy’n nodi premiwm yswiriant neu gytundeb ffi amodol** ........ 94

**ADRAN 15 – GEIRFA ........ 95**

**ADRAN 16 – CYFEIRIADAU DEFNYDDIOL ........ 100**

**ATODIAD A – TEMPLED COFNODI PRYDER A HYSBYSWYD AR LAFAR SYDD WEDI CAEL EI "DDATRYS YN GYNNAR" .................................... 116**

**ATODIAD B – SWYDD-DDISGRIFIAD UWCH-REOLWR YMCHWILIADAU118**

**ATODIAD D – CYSYLLTIADAU EIRIOLAETH .......................................... 124**

**ATODIAD E – TEMPLED COFNODI PRYDERON A HYSBYSWYD AR LAFAR Y DYLID DEFNYDDIO'R RHEOLIADAU I DDELIO Â NHW .......................... 125**

**ATODIAD F – TEMPLED I'W DDEFNYDDIO PAN FYDD MWY NAG UN CORFF CYFRIFOL ........................................................................................... 129**

**ATODIAD G – TEMPLED O LYTHYRAU CYDNABOD .............................. 134**

**ATODIAD H – PAPUR AR GANIATÂD .................................................... 139**

**ATODIAD I – GRADDIO PRYDERON ....................................................... 142**

**ATODIAD J – TEMPLED LLYTHYR CYFARWYDDYD I GYNGHORYDD ARBENIGOL ........................................................................................... 145**

**ATODIAD K – TELERAU AC AMODAU CYFFREDINOL AR GYFER CYNGHORWYR ARBENIGOL ANNIBYNNOL Y DYLAI CYRFF CYFRIFOL YNG NGHYMRU EU DEFNYDDIO ........................................................................ 149**

**ATODIAD L – DELIO Â PHOBL SY'N GWNEUD CEISIADAU AFRESYMOL153**

**ATODIAD M – TEMPLED YMATEB TERFYNOL O DAN REOLIAD 24..... 156**

**ATODIAD N – TEMPLED YMATEB INTERIM O DAN REOLIAD 26.......... 157**

**ATODIAD O – FFRAMWAITH FFIOEDD CYFREITHIOL ........................... 159**

**ATODIAD P – RHESTR WIRIO'R YMCHWILIAD ...................................... 162**

**ATODIAD Q – TEMPLED ADRODDIAD YR YMCHWILIAD IAWN ............ 164**

**ATODIAD R – RHESTR WIRIO AR GYFER AD-DALIAD AR ÔL TALU DIGOLLEDIAD ARIANNOL SY'N FWY NA £25,000 .................................. 165**

**ATODIAD S – RHESTR WIRIO PAN NAD YW CYFANSWM Y GWARIANT YN FWY NA £25,000 ........................................................................................ 170**

**ATODIAD T – RHESTR WIRIO PAN FYDD CYFANSWM Y GWARIANT YN FWY NA £25,000 ..... 173**

**ATODIAD U – FFURFLEN RHOI GWYBOD AM DDIGWYDDIAD DIFRIFOL IR(ME)R ..... 175**

**ATODIAD V – FFURFLEN RHOI GWYBOD AM DDIGWYDDIAD DIFRIFOL 178**

**ATODIAD W – FFURFLEN MATER SENSITIF / DIM SYRPRÉIS ..... 181**

**ATODIAD X – CRYNODEB TERFYNU AR GYFER DIGWYDDIADAU DIFRIFOL ..... 183**

**ATODIAD Y – TEMPLED ADRODDIAD BLYNYDDOL ..... 185**

**ATODIAD X – LLYTHYR TEMPLED YNGHYLCH: CAIS GAN GYFREITHIWR AM FYNEDIAD AT GOFNODION IECHYD ..... 186**

## Crynodeb Gweithredol

Lluniwyd y canllawiau hyn ar gyfer y GIG yng Nghymru er mwyn i gyrff cyfrifol allu delio'n effeithiol â phryderon yn unol â'r gofynion a nodwyd yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau").

Sylwer bod pob cyfeiriad at rifau rheoliadau yn ymwneud â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2011, ar wahân i Ran 7 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2012.

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i'r holl Fyrddau Iechyd yng Nghymru, Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru[1], darparwyr annibynnol yng Nghymru sy'n darparu gofal a ariennir gan y GIG ac ymarferwyr gofal sylfaenol yng Nghymru. Nid yw elfennau Iawn y Rheoliadau a'r canllawiau sy'n ymwneud â'r agweddau hynny yn berthnasol i ymarferwyr gofal sylfaenol nac i ddarparwyr annibynnol.

Bydd y canllawiau'n helpu staff i ddehongli'r Rheoliadau, ac yn rhoi cyngor ymarferol ar ddefnyddio'r arferion gorau yn ystod gwahanol gamau'r broses o drin ac ymchwilio i bryder.

Mae'r term "pryder" yn cael ei ddefnyddio drwy'r ddogfen gyfan, a dylid cymryd ei fod yn golygu unrhyw gŵyn, hawliad neu ddigwyddiad diogelwch cleifion a gofnodwyd (ynghylch triniaeth neu wasanaethau'r GIG) y dylid defnyddio'r trefniadau hyn i ddelio ag ef. Mae hefyd yn cynnwys pryderon a allai hefyd sbarduno'r weithdrefn gonestrwydd fel y nodwyd yn Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd 2023.

Mae'r trefniadau hyn yn cynrychioli newid mawr yn niwylliant y GIG yng Nghymru o ran y ffordd y mae'n delio â phethau sy'n mynd o'i le, gan gyflwyno un dull cyson o raddio ac ymchwilio i bryderon, yn ogystal â bod yn fwy agored a chynnwys y person sydd wedi mynegi'r pryder. Mae'r cysyniad o Iawn yn rhan o'r trefniadau, wrth i ddyletswydd gael ei rhoi ar gyrff GIG Cymru (Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG) i ystyried, pan fydd pryder a hysbyswyd yn cynnwys honiad bod, neu y gallai fod, niwed wedi cael ei achosi, a yw wedi achosi niwed i glaf yn sgil torri'r ddyletswydd gofal ac, os felly, a yw'r trefniadau Iawn sydd wedi

[1] Gan eithrio Awdurdodau Iechyd Arbennig trawsffiniol fel Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG

cael eu nodi yn Rhan 6 o’r Rheoliadau a’u hegluro yn Adran 7 y canllawiau yn berthnasol.

Yn olaf, bydd y trefniadau’n rhan bwysig o'r broses o wella diogelwch a phrofiad cleifion, gyda gofyniad penodol i ddangos sut mae gwasanaethau wedi gwella o ganlyniad i bryderon sydd wedi cael eu hysbysu ac wedi cael sylw o dan y trefniadau.

Bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddaru’n rheolaidd wrth i’r trefniadau newydd ymwreiddio. Bydd y fersiwn ddiweddaraf ar gael bob amser yn:

*Cwynion a phryderon am GIG Cymru: Gweithio i Wella. https://www.llyw.cymru/cwynion-phryderon-am-gig-cymru-gweithio-i-wella*

## Adran 1 – Cyflwyniad

### Gweithio i Wella

1.1 Sefydlwyd *Gweithio i Wella* i adolygu’r prosesau presennol ar gyfer mynegi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu oddi wrthynt. Mae pryderon yn golygu materion a nodwyd yn sgil digwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, mewn perthynas â chyrff GIG Cymru, hawliadau ynghylch gwasanaethau a ddarparwyd gan Gorff Cyfrifol yng Nghymru. Y nod yw darparu un broses sy’n fwy integredig a chefnogol i bobl fynegi pryderon, a bod y broses honno:

- Ar gael yn haws i bobl;
- Yn ennyn ymddiriedaeth pobl y bydd yn sicrhau canlyniad teg;
- Yn cydnabod anghenion unigol y person (iaith, cymorth, ac ati);
- Yn trin pobl a staff yn deg;
- Yn gwneud y defnydd gorau o amser ac adnoddau;
- Yn gofalu bod ymchwiliadau’n taro’r nodyn cywir o ran y lefel briodol o fanylder ar gyfer y mater dan sylw;
- Yn gallu dangos bod gwersi wedi cael eu dysgu.

1.2 Mae angen i’r rheini sy’n mynegi’r pryder wybod bod rhywun yn gwrando arnynt a bod eu pryder yn cael ei gymryd o ddifrif. Os yw pobl yn teimlo nad yw staff yn bod yn onest neu os yw’n ymddangos eu bod yn cuddio’r gwir, mae hyn yn aml yn gallu bod yn waeth na’r mater gwreiddiol. Yn yr achosion hyn, mae pobl yn

fwy tebygol o droi at gamau cyfreithiol i gael gwybodaeth ac esboniadau, pan na ddylai fod angen gwneud hynny mewn gwirionedd.

1.3 Gall y ffordd yr ymdrinnir â phryder yn y lle cyntaf gael effaith ar bopeth sy'n digwydd wedyn, felly mae'n bosibl mai bod yn agored a dangos cydymdeimlad a gwrando yw'r unig beth sydd ei angen yn aml i fodloni'r sawl sy'n mynegi pryder.

1.4 Mae egwyddorion *Bod yn Agored* yn rhan ganolog o'r trefniadau Gweithio i Wella, yn ogystal â threfniadau'r Ddyletswydd Gonestrwydd sy'n mynd law yn llaw â'r trefniadau Gweithio i Wella, gyda'r naill a'r llall yn cefnogi gwelliannau i'r ffordd o ddelio â phryderon.

1.5 Mae manteision y dull gweithredu a fabwysiadwyd yn y trefniadau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Mae dysgu o bryderon yn arwain at ofal o well ansawdd a safon;
- Llai o achosion o faterion tebyg yn codi eto;
- Gwella diogelwch cleifion;
- Gwell profiad i bobl sy'n dymuno mynegi pryder;
- Llai o bryderon yn cael eu huwchgyfeirio;
- Cyngor arbenigol â gwell ffocws;
- Gostyngiad posibl yng nghost ffioedd cyfreithiol a
- Mwy o hyder ymysg y cyhoedd yn y gwasanaethau a ddarperir gan y GIG.

I gael rhagor o wybodaeth am Weithio i Wella, y prosiect a'r egwyddorion sy'n sail iddo, ewch i:

Safle Mewnrwyd - Gweithio i Wella
Rhyngrwyd - Gweithio i Wella

1.6 Ers 1 Ebrill 2011, ni ddylid defnyddio gweithdrefn gwynion flaenorol y GIG a nodwyd yng Nghyfarwyddiadau 2003 i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ac yng nghanllawiau *"Cwynion yn y GIG – canllawiau ar ymdrin â chwynion yng Nghymru," Ebrill 2003*.

## Rheoliadau'r GIG (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011

1.7 Mae'r Rheoliadau'n sail i'r trefniadau newydd ar gyfer delio â phryderon, a dylid eu darllen ar y cyd â'r canllawiau hyn. Gallwch weld y Rheoliadau yn y fan yma. Cofiwch:

- Daeth Rhannau 1 i 6 ac 8 i 10 o'r Rheoliadau i rym ar 1 Ebrill 2011.
- Daeth Rhan 7 o'r Rheoliadau, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer defnyddio Iawn mewn cyd-destun trawsffiniol, i rym ar 1 Ebrill 2012.
- Gellir defnyddio'r trefniadau newydd i ddelio â materion a oedd wedi codi cyn 1 Ebrill 2011 ond nad ydynt erioed wedi cael eu hysbysu i un o gyrff y GIG, ar yr amod nad ydynt wedi'u heithrio am unrhyw reswm (ee, oherwydd bod gormod o amser wedi mynd heibio).

1.8 Mae Rheoliad 2 yn nodi'r amrywiol ddiffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau. O fis Ebrill 2023 ymlaen mae'r Rheoliadau ac, felly, y Canllawiau hefyd yn berthnasol i Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru.[2] Fodd bynnag, yn achos Addysg a Gwella Iechyd Cymru ("AaGIC"), sy'n Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn unig, dim ond i ddarpariaeth gofal iechyd y corff hwnnw y mae'r Rheoliadau'n berthnasol.

1.9 Byddem yn annog cyrff cyfrifol i ddarllen y diffiniadau hyn yn ofalus, a hoffem dynnu'ch sylw at y diffiniadau canlynol yn arbennig, gan fod hyn yn bwysig er mwyn deall ble a phryd y mae'r trefniadau'n berthnasol:

Diffinnir *"Corff Cyfrifol"* fel corff GIG Cymru, darparwr gofal sylfaenol neu ddarparwr annibynnol;

Diffinnir *"Corff GIG Cymru"* fel bwrdd iechyd lleol neu ymddiriedolaeth GIG sy'n rheoli ysbyty neu sefydliad neu gyfleuster arall sydd wedi'i leoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, ac Awdurdod Iechyd Arbennig (ond nid yw'n cynnwys unrhyw Awdurdod Iechyd Arbennig trawsffiniol);

Diffinnir *"darparwr gofal sylfaenol"* yn llawn yn y Rheoliadau, ac yn ei hanfod mae'n cynnwys ymarferwyr cyffredinol; deintyddion; pobl

[2] Gan eithrio Awdurdodau Iechyd Arbennig trawsffiniol fel Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG

sy’n darparu gwasanaethau offthalmig a fferyllwyr sy’n darparu gwasanaethau o dan drefniadau gyda byrddau iechyd lleol.

Mae *“darparwr annibynnol”* yn golygu person neu gorff (a) sy'n darparu gofal iechyd yng Nghymru o dan drefniadau â chorff GIG Cymru, a (b) nad yw’n gorff GIG nac yn ddarparwr gofal sylfaenol.

1.10 Mae'r holl Reoliadau'n berthnasol i Gyrff Cyfrifol ac eithrio Rhannau 6 a 7 sy'n ymwneud ag Iawn, sydd ond yn berthnasol i gyrff GIG Cymru. Mae rhai Rheoliadau o fewn Rhan 7 hefyd yn gosod rhwymedigaethau ar gyrff GIG Lloegr.

1.11 Mae’r Rheoliadau’n cefnogi’r broses o ddelio â phryderon ac ymchwilio iddyn nhw drwy sicrhau’r canlynol:

- Bod dull cyffredin o ymchwilio i bryderon sy’n gymesur â’r mater a godwyd;
- Bod y person sy’n mynegi’r pryder yn cael cefnogaeth briodol, er enghraifft, drwy gael mynediad at gefnogaeth ar ffurf eiriolaeth ar bob cam o’r broses, gan Llais (Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru) a gwasanaethau eirioli mwy arbenigol pan fydd angen;
- Bod pobl yn cael cydnabyddiaeth ac ymateb prydlon i’w pryder;
- Proses agored a gonest ar gyfer ymdrin â phryderon;
- Bod pryderon yn cael eu hymchwilio’n gyson, yn drylwyr ac yn briodol;
- Bod pobl yn cael ymateb manwl, gan gynnwys eglurder ynghylch y camau nesaf a'r camau i fynd i’r afael â’u pryder;
- Bod cyrff cyfrifol, wrth ymdrin â phryderon, yn ystyried sut byddan nhw’n ymchwilio ac yn ymateb i bryderon ac, yn achos cyrff GIG Cymru, yn ystyried, yn unol â Rheoliad 23(i) o'r Rheoliadau, y tebygolrwydd y bydd atebolrwydd cymwys yn codi a'r posibilrwydd y bydd y trefniadau Iawn yn cael eu defnyddio;
- Bod pobl yn cael eu hysbysu’n briodol ynghylch unrhyw gynnig o Iawn a wneir neu, os penderfynir ar ôl ymchwilio nad oes atebolrwydd cymwys, y gwrthodwyd gwneud cynnig;
- Bod trefniadau ar waith ar gyfer Iawn pan fydd gofal yn cael ei ddarparu gan gyrff y GIG yn Lloegr, yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon ar ran cyrff GIG Cymru;
- Bod cyrff GIG Cymru yn darparu cyngor cyfreithiol arbenigol am ddim i bobl pan ystyrir bod, neu y gallai fod, atebolrwydd cymwys y gallai fod Iawn ar gael ar ei gyfer – hynny yw, mewn

achosion lle amcangyfrifir y byddai'r iawndal cyffredinol a'r iawndal arbennig y gellid eu dyfarnu yn £25,000 neu'n llai gyda'i gilydd;

- Bod cyrff cyfrifol yn dangos eu bod wedi dysgu a gwneud gwelliannau o ganlyniad i'r broses;
- Os bydd person yn dal yn anfodlon â chanlyniad yr ymchwiliad i bryder, y gall gyfeirio'r achos at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## Pryderon sy'n cael sylw adeg darparu'r gwasanaeth ("datrys yn gynnar")

1.12 Ni fydd y trefniadau newydd yn cael eu defnyddio i ddelio â rhai pryderon. Mae'r pryderon hyn yn cael eu rhestru ym mharagraff 5.13 isod, a'u nodi yn Rheoliad 14. Mae hyn yn cynnwys unrhyw bryderon sydd wedi cael eu datrys mewn ffordd sy'n bodloni'r person a hysbysodd y pryder erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf, (dim ond pryderon a hysbyswyd ar lafar oedd yn arfer cael eu cynnwys yn hyn o beth). Rydym yn cyfeirio at y pryderon hyn fel rhai sydd wedi cael eu "datrys yn gynnar". Mewn llawer o achosion, mae'r mathau hyn o bryderon yn ymwneud â materion y mae'n gymharol hawdd mynd i'r afael â nhw, a rhaid i'r person sydd wedi mynegi'r pryder fod yn fodlon ar y camau y cytunwyd i'w cymryd yn syth er mwyn datrys y pryder a fynegwyd. Mae'n bwysig bod y staff yn gwneud yn siŵr bod y person yn fodlon, oherwydd os nad yw'n fodlon, dylid ei gynghori i fynegi pryder yn ffurfiol o dan y trefniadau a nodwyd yn y Rheoliadau a'r canllawiau hyn.

1.13 Pan fydd pryder wedi cael ei "ddatrys yn gynnar" mewn ffordd foddhaol, fel sy'n digwydd yn aml yn awr, mae'r mecanweithiau ar gyfer casglu'r wybodaeth hon yn amrywio rhwng sefydliadau ar hyn o bryd. Bydd angen rhoi trefniadau syml ar waith mewn sefydliadau er mwyn i staff gweithredol allu mynd ati'n rhwydd i gofnodi gwybodaeth yn brydlon. Mae templed a awgrymir ar gyfer cofnodi pryder sydd wedi cael ei "ddatrys yn gynnar" mewn ffordd foddhaol wedi'i atodi yn Atodiad A. Dylai fod gan sefydliadau drefniadau lleol ar waith i sicrhau bod modd defnyddio themâu a gwersi o'r broses hon i hwyluso dysgu ar y cyd.

1.14 Gellir cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y Rheoliadau neu unrhyw fater yn y canllawiau hyn at y Tîm Polisi Gweithio i Wella yn Llywodraeth Cymru yn qualityandnursing@llyw.cymru.

## Adran 2 – Trefniadau sefydliadol

2.1 Mae'n ofynnol bod gan gyrff cyfrifol drefniadau sefydliadol ar waith sy'n bodloni gofynion y Rheoliadau. Mae gofyn bod gan gyrff cyfrifol strwythur ar waith sy'n adlewyrchu dull integredig o ymdrin â phryderon, o dan arweiniad Uwch-reolwr Ymchwiliadau, sy'n adrodd wrth Swyddog Cyfrifol (sydd, yn unol â Rheoliad 7, yn gorfod bod yn swyddog neu'n gyfarwyddwr gweithredol; prif swyddog gweithredol; unig berchennog neu bartner, gan ddibynnu ar natur y Corff Cyfrifol).

### Goruchwyliaeth Strategol

2.2 O fewn cyrff cyfrifol, rhaid dewis unigolyn i fod yn gyfrifol am gadw golwg ar sut mae trefniadau'r sefydliad yn gweithio ar lefel leol a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r broses o ddelio â phryderon fel y nodwyd yn y Rheoliadau. Yn achos bwrdd iechyd lleol neu ymddiriedolaeth GIG, aelod annibynnol o'r bwrdd fydd yr unigolyn yma. Yn achos cyrff cyfrifol eraill, gellir penodi person cyfatebol arall ar gyfer y rôl hon, fel y bo'n briodol.

### Swyddog Cyfrifol

2.3 Rhaid i bob Corff Cyfrifol benodi unigolyn i fod yn Swyddog Cyfrifol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o reoli'r trefniadau hyn o ddydd i ddydd, a sicrhau eu bod yn gweithio mewn ffordd integredig. Yn achos bwrdd iechyd lleol neu ymddiriedolaeth GIG, swyddog/cyfarwyddwr gweithredol fydd yr unigolyn yma. Yn achos cyrff cyfrifol eraill, gallai'r unigolyn yma fod yn brif swyddog gweithredol neu'n unig berchennog ar sefydliad, yn bartner neu'n berson sy'n gyfrifol am reoli'r sefydliad hwnnw.

2.4 Mae'r Swyddog Cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau ar waith:

- i ymdrin â phryderon yn unol â'r Rheoliadau;

- (yn achos corff GIG Cymru) i'w gwneud yn bosibl i ystyried atebolrwydd cymwys;
- i ddarparu ar gyfer delio â digwyddiadau, cwynion a hawliadau o dan un trefniant llywodraethu.

2.5 Gellir dirprwyo cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifol i berson awdurdodedig arall at ddibenion gweithredol; ond, y Swyddog Cyfrifol sy'n dal yn atebol mewn unrhyw sefyllfa.

## Uwch-reolwr Ymchwiliadau

2.6 Yr Uwch-reolwr Ymchwiliadau[3] fydd yn gyfrifol am drin ac ystyried pryderon yn unol â'r Rheoliadau (mae'n bosibl y bydd gan y rôl hon deitl gwahanol yn eich sefydliad chi, neu y bydd mwy nag un person yn gwneud y rôl). Yn ogystal â thrin ac ystyried pryderon o dan y Rheoliadau, fel rhan o'i rôl bydd rhaid i'r Uwch-reolwr Ymchwiliadau ymgymryd â swyddogaethau eraill sy'n ymwneud ag ymdrin â phryderon a chydweithredu â chyrff cyfrifol neu bobl eraill, er enghraifft darparwyr gofal sylfaenol, i hwyluso'r gwaith o drin ac ymchwilio i bryderon. Bydd staff ychwanegol, sydd wedi cael eu hyfforddi'n briodol fel rhan o'r trefniadau integredig, yn cynorthwyo deiliad y rôl.

2.7 Mae'n bosibl dirprwyo cyfrifoldebau'r Uwch-reolwr Ymchwiliadau i berson awdurdodedig i weithredu ar ei ran. Mae'r rôl yn gallu cael ei chyflawni hefyd gan swyddog cyfatebol mewn Corff Cyfrifol arall fel y mae'r Corff Cyfrifol a'r sefydliad arall wedi cytuno – ee, darparwr annibynnol neu ddarparwr gofal sylfaenol.

2.8 Mae templed o swydd-ddisgrifiad yr Uwch-reolwr Ymchwiliadau wedi'i atodi yn Atodiad B.

## Y Tîm Pryderon

2.9 Ar lefel leol o fewn sefydliadau'r GIG, mae'n bosibl cyfeirio at y bobl sy'n ymwneud â'r gwaith o ddelio â phryderon – fel y disgrifir yn 2.6 uchod – fel y 'tîm pryderon' canolog, er, gall sefydliadau ddewis defnyddio enw gwahanol. Bydd y tîm hwn o bobl yn gweithio gydag amrywiaeth o reolwyr a staff gweinyddol eraill ar draws y sefydliad. Bydd yr aelodau staff hyn yn cynorthwyo gydag

[3] Uwch-reolwr Ymchwiliadau yw'r term a ddefnyddir yn y Rheoliadau ond, yn ymarferol, gallai fod yn Uwch swyddog neu'n Rheolwr Ymchwiliadau

ymchwiliadau yn ôl yr angen, o dan gyfarwyddyd cyffredinol y tîm pryderon.

## Yr Holl Staff

2.10 Dylai'r Uwch-reolwr Ymchwiliadau sicrhau bod staff ar draws y sefydliad yn gwybod gyda phwy y dylent gysylltu yn y tîm pryderon, gan y byddant yn gyswllt defnyddiol i gael cymorth neu gyngor wrth ymdrin â phryderon – yn enwedig y pryderon hynny sy'n cael eu mynegi ar y ward neu mewn clinigau, ac ati.

2.11 Hefyd, gall unrhyw aelod o staff fynegi pryder yn unol â'r Rheoliadau, a dylid gofalu eu bod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau lleol eu sefydliad er mwyn iddyn nhw wybod beth i'w wneud.

# Adran 3 – Hyfforddiant a Datblygu Sefydliadol

3.1 Rhaid i staff ar bob lefel o fewn cyrff cyfrifol ac ar draws pob maes gwaith dderbyn hyfforddiant priodol i'w galluogi i gydymffurfio â'r Rheoliadau. Bydd hyn yn gofyn am lefelau staffio a sgiliau sy'n addas ar gyfer cynnal ynghyd â goruchwylio ymchwiliadau cadarn a phriodol, yn ogystal â gallu (yn achos cyrff GIG Cymru) ystyried materion fel atebolrwydd a setlo hawliadau mewn achosion priodol lle mae'r trefniadau Iawn yn cael eu defnyddio. Dylid darparu hyfforddiant yn dilyn dadansoddiad o anghenion hyfforddi lleol ac yn unol â strategaethau hyfforddi. Bydd angen i lefel yr hyfforddiant sydd ei hangen ar staff unigol gael ei threfnu yn ôl eu rolau a'u cyfrifoldebau penodol. Rhaid i anghenion hyfforddiant gloywi staff gael eu pennu ar lefel leol a'u seilio ar ddadansoddiad o anghenion hyfforddi lleol.

3.2 Rhagwelir y bydd hyfforddiant ar gyfer y trefniadau newydd yn cael ei ddarparu'n lleol a thrwy ddetholiad o adnoddau hyfforddi cenedlaethol, pan fydd hynny'n berthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyflwyniadau *PowerPoint*;
- straeon digidol;
- defnyddio fideos hyfforddi a

- dulliau e-ddysgu ac ystafell ddosbarth.

3.3. Bydd y cymysgedd o ddulliau hyfforddi'n cael ei benderfynu'n lleol, er, mae llawer o'r deunyddiau a fydd yn sail i sesiynau lleol wedi cael eu darparu ar sail Cymru gyfan, naill ai drwy hyfforddiant e-ddysgu Gweithio i Wella ar learning@NHS.Wales.uk neu wefan Diogelwch Cleifion Cymru.

3.4. Mae'r hyfforddiant hwn yn gallu bod yn rhan o raglenni hyfforddi a datblygu presennol y sefydliad, gan gynnwys cynefino, ac yn gysylltiedig â Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau'r GIG.

3.5. Mae enghreifftiau o hyfforddiant sy'n berthnasol i'r trefniadau Gweithio i Wella yn cynnwys:

- Gofal i Gwsmeriaid;
- Cyfathrebu;
- Hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd;
- Rheoli Cofnodion;
- Hyfforddiant Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA)-Dadansoddiad o Wraidd y Broblem – (sy'n cynnwys adnoddau ar gyfer ymchwiliadau cymesur yn ogystal ag ymchwiliad cynhwysfawr);
- Sut mae dysgu gwersi o bryderon (Diogelwch Cleifion Cymru);
- Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion – Bod yn Agored;
- 1000 o Fywydau a Mwy – Bod yn Agored;
- Ymwybyddiaeth/hyfforddiant cyfreithiol – Cyflwyniad y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg;
- Hyfforddiant e-ddysgu Gweithio i Wella (Gofynnwch i'ch Uwch-reolwr Ymchwiliadau am yr allwedd gofrestru);
- Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed;
- Ymwybyddiaeth synhwyraidd – Dolenni i RNIB neu Action Hearing Loss;
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth.

3.6 Yn unol â Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023, bydd staff hefyd yn cael hyfforddiant perthnasol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ofynion y ddyletswydd gonestrwydd ac yn gallu eu rhoi ar waith. Mae'r hyfforddiant wedi'i raddio: gan amrywio o hyfforddiant sylfaenol i'r holl staff i hyfforddiant manylach i staff sy'n delio â phryderon. Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion hyfforddiant ar gael yn y canllawiau statudol ar gyfer y ddyletswydd gonestrwydd.

3.7 I gael rhagor o wybodaeth am hyfforddiant, cysylltwch ag arweinydd hyfforddiant a datblygiad eich sefydliad.

## Adran 4 – Gofynion ac Egwyddorion Cyffredinol

### Egwyddorion sy'n berthnasol wrth drin pryderon

4.1 Mae Rheoliad 3 yn ymdrin â'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer trin ac ymchwilio i bryderon. Ni chaiff cyrff cyfrifol ddatgelu data personol i bobl nad ydynt yn destun y data (oni bai fod y person dan sylw'n gynrychiolydd i destun y data). Mae gan "testun y data" a "data personol" yr un ystyr ag yn Neddf Diogelu Data 2018 (edrychwch ar adran 3 o'r Ddeddf honno).

4.2 Rhaid i unrhyw drefniadau lleol sy'n cael eu sefydlu o dan y Rheoliadau sicrhau bod yr egwyddorion canlynol yn cael eu defnyddio wrth ddelio â phryderon ac ymchwilio iddynt. Mae'r rhan fwyaf o'r elfennau hyn yn cael sylw manylach yn nes ymlaen yn y canllawiau.

*Dylai person allu hysbysu ei bryder drwy un pwynt cyswllt*

4.3 Mae hyn yn golygu, sut bynnag y bydd pryder yn cael ei hysbysu, y bydd yn cael ei gyfeirio i'r un lle i gael sylw cychwynnol. Dylai'r Corff Cyfrifol ddarparu un cyfeiriad post, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost, rhif ffacs a rhif gwasanaeth testun at ddibenion cyswllt, a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt.

*Dylid ymdrin â phryder person yn effeithlon ac yn agored*

4.4 Mae hyn yn golygu na ddylai pobl orfod mynd ar ôl sefydliadau i gael atebion, nac aros am gyfnodau hir heb gyswllt. Mae hefyd yn gosod gofyniad ar gyrff cyfrifol i fod yn agored ac yn rhagweithiol yn y ffordd maen nhw'n gweithredu.

*Dylid ymchwilio'n briodol ac yn addas i bryder person*

4.5 Mae'r gofyniad cyffredinol hwn yn golygu y dylai cyrff cyfrifol fabwysiadu dull rhesymegol a phriodol i ymchwilio i bryderon, gan gofio na fydd angen ymchwilio ar yr un lefel i bob mater. Fodd bynnag, rhaid cofio hefyd fod rhywbeth sy'n ymddangos yn fater pitw neu ddibwys i un person yn gallu bod yn bwysig iawn i rywun

arall.  Mae angen bod yn ymwybodol o hynny wrth drin y pryder, a delio â hynny'n briodol.

*Dylid cadarnhau yn nyddiau cynnar y broses beth yw disgwyliadau'r person, a pha ran y bydd yn ei chwarae yn y broses*

4.6 Mae'r ffordd y mae pobl yn cael eu trin ar y dechrau yn gallu gosod y naws ar gyfer yr ymchwiliad cyfan.  Mae'n bwysig hefyd nad yw pobl yn datblygu disgwyliadau afresymol ynghylch yr hyn y gallai'r broses ei gyflawni.  Mae'n hanfodol felly bod rhai o'r materion hyn yn cael sylw yn y camau cynnar ar ôl i unrhyw bryder ddod i law.

*Dylai person gael ei drin â pharch a chwrteisi*

4.7 Dylai pobl sy'n mynegi pryderon gael eu trin â pharch fel mater o drefn.  Mae adroddiadau diweddar, fel y rheini a gyhoeddwyd gan Gymdeithas y Cleifion a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, wedi tynnu sylw at achosion lle mai materion yn ymwneud ag urddas sydd wedi peri fwyaf o bryder (edrychwch hefyd ar baragraff 4.32 isod ar Ddiogelu).  Mae teuluoedd sy'n poeni am eu hanwyliaid mewn sefyllfaoedd o'r fath yn gallu bod yn ofidus iawn, sy'n ddealladwy, ac mae pethau'n gallu gwaethygu'n gyflym.  Yn y sefyllfaoedd hyn, yn enwedig mewn lleoliad clinigol, mae'n gallu bod yn anodd cadw rheolaeth ar y sefyllfa, a gallai'r staff naill ai ymateb yn ddig neu wrthod trafod y mater.  Mae angen osgoi hyn ar bob cyfrif, a gellir gofyn am gymorth gan y tîm pryderon os bydd angen.

4.8 Er na ddylai staff y GIG orfod derbyn na goddef ymddygiad afresymol, dylid bob amser ceisio deall pam mae rhywun yn ymddwyn mewn ffordd benodol – er enghraifft, oherwydd eu bod wedi cael profedigaeth a/neu maen nhw'n ddig am yr hyn sydd wedi digwydd.

*Dylai person gael cyngor ar y cymorth sydd ar gael i fwrw ymlaen â'i bryder, a ble byddai'n gallu cael cymorth*

4.9 Dylid dweud wrth bobl sy'n mynegi pryderon bod gwasanaethau eirioli ar gael drwy Llais (Corff Llais y Dinesydd) yng Nghymru. Gall eiriolwyr Llais roi cefnogaeth ac arweiniad i bobl sy'n mynegi pryderon, a gallant hefyd eu cyfeirio at wasanaethau eirioli mwy arbenigol os bydd angen.

4.10 Ar gyfer aelodau o staff sy'n mynegi pryderon neu sy'n destun pryderon, bydd angen i sefydliadau ystyried pa lefel o gefnogaeth fydd ei hangen arnynt o bosibl. Efallai y bydd staff yn teimlo'n bryderus am eu bod wedi mynegi pryder, ac efallai y bydd angen sicrwydd a chefnogaeth arnynt wrth i'r ymchwiliad fynd rhagddo. Mae hyn hefyd yn wir am staff y bu cwyn yn eu cylch neu a fu'n rhan o ddigwyddiad. Dylid delio â hyn yn glir ar y dechrau, gan gynnwys rheolwr llinell y person yn y broses.

4.11 Pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno mewn perthynas â'r pryder, dylai cleifion (neu eu cynrychiolydd) gael manylion unrhyw wasanaethau neu gymorth a allai, ym marn resymol y corff cyfrifol, fod o gymorth iddyn nhw, gan ystyried eu hanghenion. I gael rhagor o wybodaeth am y ddyletswydd gonestrwydd, edrychwch ar y canllawiau statudol.

*Dylai fod gan berson gyswllt penodol drwy gydol y broses o ddelio â'r pryder, a dylai wybod sut i gysylltu â'r cyswllt*

4.12 Dyma un o'r ffyrdd y mae corff GIG Cymru yn gallu cael ei ystyried yn fwy agos-atoch, a dylai leihau anniddigrwydd pobl ynghylch cael eu pasio o'r naill berson i'r llall. Dylai hyn hefyd annog dull o weithredu ar sail "llwyth achosion" ar gyfer ymchwiliadau o fewn sefydliadau. Dylai'r cyswllt fod yn rhywun y gellir cael gafael arno'n hawdd, a dylid gwneud trefniadau wrth gefn os na fydd y cyswllt yn y swyddfa.

4.13 Pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno mewn perthynas â'r pryder, dylai cleifion (neu eu cynrychiolydd) gael enw a manylion cyswllt y person a enwebwyd i fod yn bwynt cyswllt ar gyfer y weithdrefn gonestrwydd. I gael rhagor o wybodaeth am y ddyletswydd gonestrwydd, edrychwch ar y canllawiau statudol.

*Os bydd ymchwiliad yn datgelu bod atebolrwydd cymwys yn bodoli, rhaid i'r corff GIG Cymru ystyried defnyddio'r trefniadau Iawn*

4.14 Mae hyn yn cael sylw manylach yn Adran 7 sy'n sôn am Iawn. Fodd bynnag, mae'r gofyniad cyffredinol hwn yn darparu y dylai cyrff GIG Cymru, wrth ymchwilio i bryderon a hysbyswyd yn unol â'r Rheoliadau, fod yn rhagweithiol wrth ystyried a oes niwed wedi cael ei achosi drwy fai'r sefydliad. Yn benodol, os yw'r pryder a fynegwyd yn wreiddiol yn honni bod niwed wedi cael ei

achosi, neu y gallai niwed fod wedi cael ei achosi, mae gan y corff GIG Cymru ddyletswydd i ystyried a oes atebolrwydd cymwys yn bodoli ac a yw'r trefniadau Iawn a nodwyd yn Rhan 6 o'r Rheoliadau yn berthnasol. Mae hyn yn cael sylw yn Rheoliad 23(1)(i) yn benodol.

*Dylai person gael ymateb prydlon a phriodol i'w bryder, a chael gwybod y diweddaraf os oes oedi*

4.15 Yn y rhan fwyaf o achosion, dylid cydnabod pryderon o fewn 5 diwrnod gwaith ac ymateb iddyn nhw o fewn 30 diwrnod gwaith 'sy'n cychwyn gyda'r diwrnod y cafwyd yr hysbysiad o bryder'. Pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol, mae'r 'diwrnod y cafwyd yr hysbysiad o bryder' yn cyfateb i'r diwrnod y daeth y Corff GIG i wybod am y tro cyntaf bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol.

4.16 Mae Cyrff Cyfrifol yn gallu cael mwy na 30 diwrnod gwaith i ymateb os bydd angen. Fodd bynnag, mewn unrhyw achos lle mae oedi'n bosibl, rhaid rhoi esboniad i'r person sy'n mynegi'r pryder, yn unol â'r Rheoliadau.

*Dylai person gael gwybod beth yw canlyniad yr ymchwiliad*

4.17 Rhaid i unrhyw un sy'n mynegi pryder o dan y trefniadau hyn gael ymateb priodol sy'n egluro beth gafodd ei ymchwilio a chanfyddiadau'r ymchwiliad hwnnw.

4.18 Yn yr un modd, pan fydd y weithdrefn gonestrwydd yn berthnasol, dylid rhoi gwybod i'r claf (neu ei gynrychiolydd) am ganlyniad yr ymchwiliadau hynny.

*Dylai person gael sicrwydd bod camau priodol wedi cael eu cymryd o ganlyniad i fynegi'r pryder, a bod gwersi wedi cael eu dysgu*

4.19 Yr hyn sy'n ysgogi llawer o bobl i fynegi pryder yn y lle cyntaf yw'r angen i wybod bod gwersi wedi cael eu dysgu ac na fydd pobl eraill yn cael yr un profiad. Felly, mae'n allweddol bod gwybodaeth am hynny'n cael ei nodi'n glir yn yr ymateb. Mae ymadroddion amwys fel "gallwch fod yn dawel eich meddwl bod gwersi wedi cael eu dysgu" yn annerbyniol. Dylai'r camau fod yn arwyddocaol a chael eu mynegi mewn iaith syml er mwyn i bobl allu deall beth sy'n cael ei wneud.

*Dylid delio â phryder person ac ymchwilio iddo yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru*

4.20 Mae hyn yn sicrhau dull cyson o ddelio â phryderon ledled Cymru, er mwyn i bobl wybod nad ydynt yn cael eu trin yn wahanol gan ddibynnu ar ble maen nhw'n byw.

## Darparu gwybodaeth yn eang ac mewn ffyrdd hygyrch

4.21 O dan y trefniadau hyn, rhaid i gyrff cyfrifol roi systemau a phrosesau ar waith er mwyn gallu cael, rheoli, ymchwilio ac ymateb i bryderon. Bydd polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad yn pennu trefniadau lleol ar gyfer ymdrin â phryderon yn unol â'r Rheoliadau. I ystyried anghenion unigolion wrth drin ac ymchwilio i bryderon, rhaid i sefydliadau gyhoeddi a dangos gwybodaeth:

- Mewn amrywiaeth o fformatau, ee, taflenni, posteri, gwefannau;
- Am ddim;
- Yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- Mewn ieithoedd eraill yn ôl yr angen;
- Mewn fformatau eraill yn ôl yr angen, ee Braille, print bras, sain, hawdd ei ddarllen, addas i blant, ac ati

4.22 Rhaid i bosteri a thaflenni dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) sy'n egluro sut gall pobl fynegi pryder gael eu harddangos mewn mannau cyhoeddus. Dylid hefyd darparu taflenni ar gais i unigolion pan fyddan nhw'n mynegi pryder.

4.23 Mae gan y Timau Pryderon unigol stoc o daflenni a phosteri gan fod taflenni PDF teilwredig bellach wedi cael eu darparu i bob Corff GIG yng Nghymru.

4.24 I gael gafael ar y daflen gyffredinol mewn amrywiaeth o fformatau, ewch i wefan Gweithio i Wella.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

4.25 Rhaid ystyried hefyd y broses o gyrraedd aelodau eraill o'r gymuned sydd, o bosibl, yn dymuno mynegi pryder ond a allai deimlo nad yw'r broses yn hwylus iddyn nhw. Dylai staff

ddatblygu dealltwriaeth o'r rhesymau pam allai pobl fod yn gyndyn o fynegi pryder, gan gynnwys rhai o'r rhesymau diwylliannol, cymdeithasol, rhywedd a rhesymau eraill, a chwilio am ffyrdd o dawelu meddwl pobl ei bod yn ddiogel iddyn nhw wneud hynny.

4.26 Byddem yn cyfeirio sefydliadau at y ddogfen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan Lywodraeth Cymru, sy'n tynnu sylw at y mathau o faterion a allai rwystro pobl rhag mynegi pryder, ac yn gofyn am godi ymwybyddiaeth o'r materion hyn ymysg staff.

4.27 Mae'n werth sôn yn benodol am y miloedd lawer o bobl yng Nghymru a allai fod wedi colli eu clyw neu eu golwg, a'r anawsterau maen nhw'n aml yn eu hwynebu wrth ddelio â'r gwasanaeth iechyd. Mae gan un o bob pum person yng Nghymru ryw fath o nam ar y synhwyrau, ac mae'r niferoedd hyn yn debygol o gynyddu wrth i bobl fyw'n hirach. Mae'n bosibl na fydd pobl sydd â nam ar eu synhwyrau yn derbyn gwybodaeth hanfodol am eu gofal iechyd oherwydd nad yw gwybodaeth wedi cael ei chyfleu'n effeithiol iddyn nhw, a gallai hyn eu rhoi mewn perygl ac arwain at fynegi pryderon. Byddai llawer o hynny'n gallu cael ei osgoi'n llwyr drwy gyfathrebu'n well a thrwy wneud addasiadau addas i ddiwallu anghenion pobl sydd â nam ar eu synhwyrau. Dylai cyrff GIG Cymru sicrhau bod staff yn gyfarwydd â'r rhwystrau y mae pobl sydd â nam ar eu synhwyrau yn eu hwynebu. Pan fydd pryderon yn cael eu mynegi, dylai pobl gael gwybodaeth yn y fformat sydd ei angen arnyn nhw, a chael cynnig cymorth hefyd fel y bo'n briodol.

## Y Gymraeg

4.28 Wrth ymdrin â phryderon, mae angen i sefydliadau ystyried eu dyletswyddau statudol mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Dylai Cynlluniau Iaith Gymraeg sefydliadau'r GIG egluro pa wasanaethau sy'n cael eu cynnig yn Gymraeg. Fel arfer, gall pobl ddisgwyl derbyn gwasanaethau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft:

- Gwasanaethau ffôn;
- Gwasanaethau wyneb yn wyneb;
- Llythyrau;
- Ffurflenni;

- Gwefannau a gwasanaethau rhyngweithiol;
- Cyfarfodydd cyhoeddus.

4.29 Mewn lleoliad iechyd, gall pryderon ynghylch y Gymraeg ymwneud â'r gwasanaethau iechyd a ddarparwyd (er enghraifft, nad yw gwasanaeth penodol wedi cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg ac felly nad yw anghenion y person wedi cael eu diwallu), neu a yw'r sefydliad wedi cydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg. Mae modd ymdrin â'r naill fater a'r llall o dan y Rheoliadau.

4.30 Mewn achosion lle mae'r Gymraeg yn rhan sylweddol o'r pryder, mae'n bwysig bod pobl yn cael gwybod eu bod yn gallu mynd â'u pryder at Gomisiynydd y Gymraeg, yn ogystal ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, os byddant yn dal yn anfodlon.

4.31 Wrth gyflwyno ymateb i unigolyn ynghylch pryder am y Gymraeg, dylid cynnwys y testun canlynol:

*Mae [enw'r sefydliad] wedi cytuno ar gynllun iaith Gymraeg statudol gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Os ydych chi'n dal yn anfodlon yn dilyn ein hymholiadau a'n hymateb, gallwch gyfeirio'ch pryder at sylw Comisiynydd y Gymraeg neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru [rhowch y cyfeiriad/e-bost].*

4.32 Dylai staff fod yn fwy sensitif i ofynion siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf wrth ddelio â'u pryderon, a dylai trefniadau fod ar waith i sicrhau eu bod yn gallu mynegi eu pryderon, eu trafod ag aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg, a chael ymateb yn Gymraeg.

## Defnyddio Dehonglwyr/Cyfieithwyr ar y Pryd a chymorth cyfathrebu

4.33 Os nad oes llawer o ddehonglwyr/cyfieithwyr ar y pryd neu gynorthwywyr cymorth cyfathrebu ar gael mewn ardal benodol, dylai cyrff GIG Cymru fod yn ymwybodol y gallai'r person sydd wedi mynegi'r pryder adnabod y dehonglwr/cyfieithydd ar y pryd. Gallai hyn olygu ei bod yn anodd iawn trafod materion iechyd cyfrinachol.

4.34 Pan fydd person yn mynegi'r angen i gael dehonglwr/cyfieithydd ar y pryd neu gymorth cyfathrebu, dylai'r sefydliad GIG roi gwybod i'r person pwy fydd y dehonglwr/cyfieithydd ar y pryd cyn gynted â phosibl er mwyn gwybod a fydd unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau, a darparu dehonglwr/cyfieithydd ar y pryd arall pan fydd hynny'n bosibl.

### Cael gafael ar Gyngor a Chymorth

4.35 Pan fydd gwybodaeth yn cael ei darparu, rhaid iddi gynnwys manylion am ffynonellau cyngor a chymorth allweddol, fel:

- Cymorth ar ffurf eiriolaeth gan Llais (Corff Llais y Dinesydd) – mae hyn ar gael i unrhyw un dros 18 oed sy'n dymuno mynegi pryder;
- Eiriolaeth a chyngor arbenigol i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl neu sydd â diffyg galluedd – mae hyn ar gael ar gyfer materion penodol sy'n ymwneud â gwasanaethau a ddarperir i bobl yn y grwpiau hyn;
- Cymorth ar ffurf eiriolaeth i blant a phobl ifanc sy'n dymuno mynegi pryder – mae hyn yn cael ei drefnu gan fyrddau iechyd lleol yn unol â'r 'Model Darparu Gwasanaethau Eirioli i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru' gan Lywodraeth Cymru. Mae Byrddau Iechyd Lleol wedi cael cyfarwyddiadau sy'n mynnu eu bod yn gwneud y trefniadau hyn.

4.36 Mae rhestr o gysylltiadau eiriolaeth yng Nghymru ar gael yn Atodiad D.

### Diogelu

## Adran 5 – Mynegi pryder

4.37 Diogelu

4.38 Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso yn manylu ar rolau a chyfrifoldebau hanfodol ymarferwyr i sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso

4.39 Dylai pob ymarferydd fod yn ymwybodol o’r diffiniadau o gam-drin ac esgeuluso yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

4.40 Dylai canllawiau a pholisïau’r sefydliad roi gwybodaeth leol i ymarferwyr ynghyd â mynediad at gymorth i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chanllawiau diogelu statudol Gweithio gyda’n Gilydd i Ddiogelu Pobl.

4.41 Mae dyletswydd statudol yn bodoli i roi gwybod i’r awdurdod lleol neu’r heddlu am unrhyw bryderon bod plentyn dan 18 oed neu oedolyn sydd mewn perygl yn cael ei gam-drin, ei esgeuluso neu’n cael math arall o niwed, neu mewn perygl o hynny. Rhaid cynnwys hefyd delio â risgiau diogelwch sy’n bodoli ar hyn o bryd. Gall cydweithwyr iau ofyn am gyngor gan eu rheolwyr neu eu timau diogelu corfforaethol. Mae digwyddiadau diogelu’n digwydd y tu allan i oriau, a rhaid deall sut mae uwchgyfeirio digwyddiadau diogelu o fewn sefydliadau ac i dimau dyletswydd argyfwng mewn awdurdodau lleol.

4.42 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, adran 128, yn nodi'r ddyletswydd a roddir ar ‘bartneriaid perthnasol’ o dan adran 162 o'r Ddeddf honno i roi gwybod am oedolion a phlant, gan gynnwys plant heb eu geni, pan fydd ganddynt reswm rhesymol dros amau eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin.

4.43 Mae disgwyliad o hyd y bydd asiantaethau nad ydynt wedi’u cynnwys fel ‘partneriaid perthnasol’ uchod yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon diogelu, yn yr un modd â’r rheini sydd â dyletswydd benodol i roi gwybod am hynny.

4.44 Mae’n bwysig nad yw ymarferwyr yn anwybyddu nac yn diystyru amheuon am gydweithiwr neu ymarferydd arall a allai fod yn cam-drin, yn esgeuluso neu’n achosi niwed i blentyn neu oedolyn sydd mewn perygl.

4.45 Mae gan bob ymarferydd gyfrifoldeb i ddiogelu oedolion a phlant sydd mewn perygl, ac mae hynny’n cynnwys eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin gan weithiwr proffesiynol, gofalwr sy’n derbyn tâl neu wirfoddolwr. Felly, mae’r ddyletswydd i roi gwybod am

unrhyw bryderon am amheuaeth o gam-drin ac esgeuluster yn berthnasol yn y sefyllfaoedd hyn. Mae'r ddyletswydd hon hefyd yn cynnwys sefyllfaoedd pan fydd dim ond amheuaeth o gam-drin.

4.46 Disgwylir i ymarferwyr roi gwybod i'r awdurdod lleol perthnasol (gwasanaethau cymdeithasol) ar gyfer yr oedolion a'r plant sydd mewn perygl. Yr awdurdod perthnasol yw'r awdurdod lle credir bod y pryder diogelu wedi digwydd. Gallai hyn olygu rhoi gwybod i awdurdod lleol sydd mewn ardal wahanol i'r un lle mae'r ymarferydd yn gweithio.

4.47 Mae'n hollbwysig darparu hyfforddiant i Ymarferwyr er mwyn penderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddiogelu oedolyn neu blentyn sydd mewn perygl. Dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol o wahanol gamau'r broses ddiogelu:

- canfod y pryder;
- casglu gwybodaeth;
- asesu a dadansoddi anghenion diogelu yng nghyswllt gofal a chymorth neu gymorth, gofal a help cynnar;
- gwneud penderfyniadau a chynllunio'r ymyriad mwyaf priodol;
- camau gweithredu ac ymyriadau;
- gwerthuso effeithiolrwydd y camau gweithredu a'r ymyriadau.

4.48 Mae'n rhaid i ymarferwyr ddilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru sy'n manylu ar rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr a chyrff perthnasol o ran cynllunio a darparu ymyriadau ac uwchgyfeirio i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn a phlentyn sydd mewn perygl.

4.49 Os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch a ddylid cychwyn ymchwiliad Gweithio i Wella, dylid gofyn am gyngor cyfreithiol gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg.

4.50 Mae gan gyrff GIG ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu cyflawni, gan roi sylw i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant ac oedolion sydd mewn perygl. Mae trefniadau manwl ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl wedi'u nodi yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru, a Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl

**Adnoddau a Awgrymir**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/enacted
Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg https://www.llyw.cymru/diogelu-pobl-cyflwyniad
Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Ymdrin â Phlant sy'n Wynebu Risg
https://www.llyw.cymru/diogelu-plant-syn-wynebu-risg-o-gam-drin-neu-esgeulustod
Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Ymdrin ag Oedolion sy'n Wynebu Risg
https://www.llyw.cymru/diogelu-oedolion-syn-wynebu-risg-o-gam-drin-neu-esgeulustod
Gweithdrefnau Diogelu Cymru
https://diogelu.cymru/cy/

## Sut gellir mynegi pryder

5.1 Rhaid i'r cyfeiriad, rhif ffôn, blwch post a gwasanaeth testun ar gyfer mynegi pryder gael eu hysbysebu'n glir yn sefydliadau'r GIG.

5.2 Gall pobl fynegi pryderon mewn amrywiaeth o ffyrdd i unrhyw aelod o staff a gyflogir gan y Corff Cyfrifol i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd:

- Yn ysgrifenedig (drwy lythyr, ar ffurflen pryder);
- Yn electronig (drwy e-bost neu neges destun);
- Ar lafar (dros y ffôn neu wyneb yn wyneb).

5.3 Pan fydd pryder yn cael ei fynegi ar lafar, er enghraifft, oherwydd nad yw'r person yn gallu neu nad yw'n dymuno nodi materion ar bapur, rhaid i fanylion y pryder gael eu cofnodi gan aelod o'r tîm pryderon neu'r person sy'n ymdrin â phryderon, cyn symud ymlaen i ystyried y pryder o dan y Rheoliadau. Rhaid rhoi copi o'r cofnod ysgrifenedig o'r pryder i'r person a hysbysodd y pryder. Os yw'r person sy'n mynegi'r pryder ar lafar yn gwneud hynny yn Gymraeg, dylai gael copi Cymraeg o'r cofnod ysgrifenedig o'r pryder. Mae templed enghreifftiol ar gyfer cofnodi pryderon a wnaed ar lafar ar gael yn Atodiad E. Gellir addasu'r templed hwn hefyd a'i gynnwys wrth ddosbarthu'r daflen Gweithio i Wella, i helpu'r person sy'n mynegi pryder i wybod pa wybodaeth i'w rhannu â'r corff GIG Cymru.

5.4 Dylid cadw at bolisïau a gweithdrefnau lleol ar gadw cofnodion a rheoli cofnodion bob amser. Mae cadw cofnodion yn hanfodol er mwyn trin ac ymchwilio i bryderon yn effeithiol. Pan fydd cofnodion yn bodoli, rhaid iddyn nhw fod yn gywir, yn gyflawn, yn ddealladwy ac yn gyfredol yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol.

5.5 Pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol mewn perthynas â phryder, mae rheoliad 9 o Reoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023 yn mynnu bod cyrff GIG, y mae'r rheoliadau hynny'n berthnasol iddynt, yn cadw cofnod ysgrifenedig cywir o bob canlyniad andwyol hysbysadwy lle mae'r weithdrefn gonestrwydd yn cael ei dilyn. Rhaid i'r cofnod ysgrifenedig gynnwys pob dogfen a darn o ohebiaeth sy'n ymwneud â'r canlyniad andwyol hysbysadwy, gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig i hynny:

- yr hysbysiad o'r ddyletswydd;
- ymdrechion i gysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran;
- unrhyw benderfyniad gan y defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran i beidio â chael cyswllt mewn perthynas â'r ddyletswydd gonestrwydd;
- yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r ymchwiliad i'r canlyniad andwyol hysbysadwy a'r adolygiad ohono a gynhelir gan y corff GIG, sy'n arwain at sbarduno'r ddyletswydd, gan gynnwys yr ymateb neu'r adroddiad interim a gyhoeddwyd o dan reoliadau 24, 26 neu 31 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011.

5.6 Pan benderfynir nad yw pryder yn sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd, mae'n cael ei ystyried yn arfer da cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. Mae'n bwysig cadw cofnodion cywir er mwyn cefnogi'r dulliau sicrhau ansawdd sydd eu hangen i weld ym mha elfennau y mae angen dysgu a gwella, a hefyd er mwyn galluogi cyrff GIG i gydymffurfio â'u gofynion adrodd o dan y Ddeddf, sy'n cael eu hystyried ym Mhennod 4 y canllawiau statudol ar y ddyletswydd gonestrwydd.

5.7 Rhagwelir y bydd system Datix Cymru yn cael ei defnyddio er mwyn adrodd a chadw cofnodion o'r holl bryderon a digwyddiadau diogelwch cleifion.

## Pwy sy’n gallu mynegi pryder

5.8 Mae unrhyw un bron yn gallu mynegi pryder, a bydd gan y Corff Cyfrifol ddyletswydd i ystyried a oes modd ymchwilio i’r pryder. Fodd bynnag, efallai na fydd bob amser yn bosibl rhannu holl fanylion yr ymchwiliad â’r person sydd wedi mynegi’r pryder, er enghraifft, os nad dyna pwy yw’r claf neu berthynas agosaf y claf, ac y byddai hynny'n mynd yn groes i GDPR y DU.

5.9 Fel y nodir yn Rheoliad 12, gall y canlynol fynegi pryderon:

- defnyddiwr gwasanaeth/claf sy'n derbyn, neu sydd wedi derbyn, gwasanaethau gan gorff cyfrifol;
- pobl y mae gweithredoedd, camgymeriadau neu benderfyniadau’r Corff Cyfrifol yn effeithio arnynt, neu’n debygol o effeithio arnynt;
- aelodau o staff cyrff cyfrifol;
- aelod annibynnol (cyfarwyddwr anweithredol neu aelod nad yw'n swyddog) o gorff GIG;
- partneriaid, er enghraifft partner mewn practis meddyg teulu;
- cynrychiolydd sy’n gweithredu ar ran person sy’n methu mynegi pryder, er enghraifft plentyn ifanc neu rywun â diffyg galluedd i weithredu drosto’i hun; neu oherwydd bod y person dan sylw eisiau i rywun arall ei gynrychioli;
- cynrychiolydd ar ran person sydd wedi marw.

## Pryderon a fynegir gan gynrychiolydd

5.10 Pan fydd cynrychiolydd yn gweithredu ar ran rhywun arall, er enghraifft plentyn neu rywun â diffyg galluedd, os oes sail resymol dros ddod i’r casgliad nad yw’r cynrychiolydd yn addas i weithredu ar ran y defnyddiwr gwasanaeth, er enghraifft oherwydd nad yw’n ymddangos y byddai hynny er lles pennaf y claf, rhaid rhoi gwybod i'r cynrychiolydd yn ysgrifenedig. Fodd bynnag, hyd yn oed pan fydd y Corff Cyfrifol wedi penderfynu nad yw’r trydydd parti yn berson addas i weithredu ar ran rhywun arall, efallai y bydd yn dal yn dewis ymchwilio i’r pryder – yn benodol, rhaid rhoi sylw i faterion diogelu fel y nodwyd ym mharagraff 4.32 uchod. Yn yr achos hwn, nid oes rheidrwydd ar y Corff Cyfrifol i ddarparu ymateb manwl i’r

person a fynegodd y pryder, oni bai y byddai'n rhesymol gwneud hynny.

## Pryderon a fynegir gan neu ynghylch plant a phobl ifanc

5.11 Pan hysbysir pryder gan blentyn neu berson ifanc, rhaid iddo/iddi gael cymorth a chefnogaeth resymol i fwrw ymlaen â'r pryder. Efallai y bydd angen cynnig eiriolaeth arbenigol i helpu'r plentyn neu'r person ifanc, a dylid trefnu hyn yn unol â'r '*Model Darparu Gwasanaethau Eirioli i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru*' gan Lywodraeth Cymru, fel y nodwyd ym mharagraff 4.30 uchod.

5.12 Mewn llawer o achosion, bydd rhywun arall (rhiant/gofalwr/gwarcheidwad) yn mynegi pryder ar ran plentyn neu berson ifanc. Nid yw hyn yn dileu hawl y plentyn neu'r person ifanc i fwrw ymlaen â'r pryder ei hun, gyda chymorth. Dylai'r Corff Cyfrifol felly fodloni ei hun ynghylch a yw'r plentyn neu'r person ifanc yn dymuno mynegi pryder ei hun ai peidio gyda chymorth, neu a yw'n fodlon i'r person a fynegodd y pryder ei gynrychioli. Os nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn fodlon caniatáu ymchwiliad i'r pryder, bydd angen gwneud penderfyniad ynghylch bwrw ymlaen a gofyn am gyngor arbenigol os yw hynny'n briodol. Unwaith eto, mae angen rhoi ystyriaeth arbennig i faterion diogelu, ac mae'n bosibl y bydd angen bwrw ymlaen ag ymchwiliad, hyd yn oed os yw'n ymddangos bod plentyn yn anfodlon gwneud hynny.

## Pryderon a fynegir gan garcharorion

5.13 Mae gwasanaethau gofal iechyd o'r un ansawdd ac ystod ar gael i garcharorion ag sydd ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol gan y GIG yng Nghymru. Pan fydd carcharor yn mynegi pryder, rhaid i'r Corff Cyfrifol drin ac ymchwilio i'r pryder fel y mae'n ei wneud ar gyfer unrhyw un arall. Bydd y gwasanaethau eirioli a ddarperir gan Llais (Corff Llais y Dinesydd) ar gael i garcharorion hefyd, ond nid yw hyn yn effeithio o gwbl ar hawl y carcharor i fynegi pryder ar unrhyw adeg wrth y Bwrdd Monitro Annibynnol.

## Pryderon a fynegir gan y staff

5.14 Mae'r trefniadau hyn yn gallu cael eu defnyddio gan aelodau o staff sy'n dymuno rhoi gwybod (ee, drwy ffurflen rhoi gwybod am ddigwyddiad) bod rhywbeth wedi mynd o'i le gyda gofal neu driniaeth a roddwyd i glaf neu gleifion, gyda'r bwriad o ddysgu

gwersi. Nid yw hyn yr un fath â rhoi gwybod am bryderon am aelod arall o staff o ran amheuaeth o gamymddwyn, gweithgarwch troseddol neu ymddygiad amhroffesiynol y mae angen defnyddio polisïau a gweithdrefnau lleol sefydliadau ar gyfer “staff yn mynegi pryderon neu’n dweud eu dweud” i ddelio â nhw.

5.15 Pan hysbysir pryder gan aelod o staff, a phan fydd yr ymchwiliad dechreuol yn penderfynu y bu niwed cymedrol neu ddifrifol neu farwolaeth, rhaid i’r claf (neu ei gynrychiolydd):

- gael hysbysiad o’r pryder oni bai ei fod eisoes wedi cael ei hysbysu o dan Reoliad 4(1) o’r Rheoliadau Dyletswydd Gonestrwydd; a
- Chael ei gynnwys yn yr ymchwiliad i’r pryder oni bai na fyddai bod yn rhan o’r ymchwiliad o dan Reoliad 12(8) o’r Rheoliadau o fudd i’r claf (neu ei gynrychiolydd).

## Beth mae pobl <u>yn gallu</u> ei fynegi fel pryder o dan y trefniadau hyn

5.16 . Gellir hysbysu am bryderon i:

- gorff GIG Cymru[4] ynghylch unrhyw fater sy’n gysylltiedig ag arfer ei swyddogaethau.
- darparwr gofal sylfaenol ynghylch y gwasanaethau sy’n cael eu darparu o dan drefniadau (hynny yw, fel contract) gyda chorff GIG Cymru.
- darparwr annibynnol ynghylch y gwasanaethau sy’n cael eu darparu sydd o dan drefniadau gyda chorff GIG Cymru.
- Bwrdd Iechyd Lleol ynghylch unrhyw fater sy'n gysylltiedig â’r gwasanaethau sy’n cael eu darparu gan ddarparwr gofal sylfaenol o dan gontract neu drefniadau gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Fodd bynnag, mae llawer o fathau o bryderon sydd wedi’u heithrio rhag cael eu hystyried o dan y Rheoliadau ac sy’n cael eu disgrifio ym mharagraff 5.14 isod.

## Beth <u>nad yw</u> pobl yn gallu ei fynegi fel pryder o dan y trefniadau hyn

[4] Diffinnir corff GIG Cymru fel Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG neu Awdurdod Iechyd Arbennig (ac eithrio Awdurdodau Iechyd Arbennig trawsffiniol).

5.17 Does dim modd defnyddio'r trefniadau ymdrin â phryderon i ymdrin â phob pryder. Mae'r materion sydd wedi'u heithrio wedi cael eu nodi yn Rheoliad 14, ac maen nhw'n cynnwys y canlynol:

- Pryderon a hysbyswyd gan ddarparwr gofal sylfaenol sy'n ymwneud â chontract neu drefniadau darparwr gofal sylfaenol ar gyfer darparu gwasanaethau gofal sylfaenol – defnyddir gwahanol ddulliau sy'n ymwneud â'r Rheoliadau ar gyfer gofal sylfaenol i ymdrin â'r materion hyn;
- Pryderon lle mae gan aelod o staff broblem gyda'i gontract cyflogaeth – polisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol y sefydliad fyddai'n cael eu defnyddio i ymdrin â'r materion hyn;
- Pryder sydd neu a fu'n destun ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; heblaw pan fo Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn argymell, yn dilyn ei ymchwiliad, bod Corff Cyfrifol yn ystyried y pryder ynghylch iawn.
- Pan nad yw'r Corff Cyfrifol wedi cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 – Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fyddai'n ymdrin â phryderon o'r fath;
- Achosion disgyblu a nodwyd o ganlyniad i'r ymchwiliad – byddai'r rhain yn cael eu hystyried o dan brosesau Adnoddau Dynol lleol;
- Unrhyw bryder sydd wedi cael ei ddatrys erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf ar ôl y diwrnod yr hysbyswyd y pryder, a hynny mewn ffordd sy'n bodloni'r person a hysbysodd y pryder;
- Pan fydd rhywun yn ceisio ailagor yr un pryder y maen nhw eisoes wedi cytuno ei fod wedi cael ei "ddatrys yn gynnar" mewn ffordd foddhaol – oni bai fod sefydliad o'r farn bod angen iddo ymchwilio i'r mater eto, ac wedyn rhaid iddo ddilyn y broses ar gyfer trin ac ymchwilio i bryderon;
- Pryder sydd eisoes wedi bod yn destun ymchwiliad o dan y weithdrefn gwynion flaenorol. Hynny yw, cwynion a hysbyswyd cyn 1 Ebrill 2011 a phryderon sydd eisoes wedi cael eu hystyried o dan y Rheoliadau;
- Pryderon sy'n destun achos sifil, gan gynnwys cam cyn-cyfreitha yr achos hwnnw. Os cychwynnir achos llys pan fydd pryder eisoes yn destun ymchwiliad yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i bob ymchwiliad arall i'r pryder ddod i stop;
- Pryder sy'n ymwneud â chais cyllido triniaeth claf unigol. Hynny yw, ceisiadau am gyllid ar gyfer gwasanaethau nad ydynt fel arfer yn cael eu darparu ar y GIG yng Nghymru – bydd proses

adolygu a phenderfynu ar wahân ar gyfer Cymru gyfan yn cael ei defnyddio i ymdrin â’r pryderon hyn;

- Lle mai Addysg a Gwella Iechyd Cymru yw’r corff cyfrifol, pryder nad yw'n ymwneud â'r gofal iechyd sy’n cael ei ddarparu gan y corff hwnnw

5.18 Ac eithrio pryder sydd wedi cael ei “ddatrys yn gynnar”, os yw’r pryder wedi’i eithrio o’r trefniadau fel y nodwyd uchod, rhaid i’r person sydd wedi mynegi’r pryder gael hysbysiad ysgrifenedig sy’n egluro pam nad oes modd ystyried ei bryder.

5.19 Os bydd unrhyw fater sydd wedi’i eithrio yn rhan o bryder ehangach, does dim i atal y materion eraill rhag cael eu hystyried o dan y Rheoliadau, ar yr amod nad yw’r rheini wedi’u heithrio hefyd. Os yw pryder wedi'i eithrio o dan y Rheoliadau, rhaid rhoi gwybod i’r person nad oes modd ymdrin â'r mater.

## Terfynau amser ar gyfer hysbysu am bryder

5.20 Gellir hysbysu am bryder ddim hwyrach na **12 mis** ar ôl:

- Y dyddiad y digwyddodd y pryder, neu
- Os yw’n hwyrach, 12 mis o’r dyddiad y sylweddolodd y person sy’n mynegi’r pryder fod ganddo bryder.

5.21 I ymchwilio i bryder ar ôl y terfyn amser o 12 mis, rhaid i’r Corff Cyfrifol ystyried a oedd gan y sawl sydd wedi mynegi’r pryder reswm da dros beidio â hysbysu’r pryder yn gynharach, ac a yw’n dal yn bosibl ymchwilio i’r pryder yn drwyadl ac yn deg wrth ystyried faint o amser sydd wedi mynd heibio.

5.22 Mae’r disgresiwn i ystyried pryder a hysbyswyd y tu allan i’r cyfnod o 12 mis, y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 5.16 uchod, yn amodol ar ddarpariaethau Rheoliad 15(3) sy’n darparu nad oes modd hysbysu am bryder **3 blynedd neu fwy** ar ôl y dyddiad y digwyddodd y pryder, neu 3 blynedd neu fwy ar ôl y dyddiad y daeth y person yn ymwybodol o’r mater sy’n ymwneud â’r pryder. Cafodd y terfyn amser hwn ei ddewis oherwydd ei fod yn gyson â chyfnod y cyfyngiad sydd ar waith ar gyfer ystyried hawliadau esgeuluster meddygol (tair blynedd fel arfer), ond mae eithriadau i’r rheol, er enghraifft:

- os yw'r person a fynegodd y pryder yn blentyn adeg y niwed, nid yw'r cyfnod o dair blynedd yn cychwyn nes bydd yr unigolyn yn troi’n 18 oed.  Yn yr achosion hyn, bydd y cyfnod yn dod i ben noson cyn pen-blwydd y person yn 21 oed;
- os oes gan y person a fynegodd y pryder ddiffyg galluedd o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, mae’n bosibl na fydd y cyfnod o dair blynedd byth yn cychwyn, neu gall gychwyn ar y dyddiad adfer.

5.23 Mewn rhai achosion pan fydd eithriad i’r rheol, dylai’r Corff Cyfrifol ei gwneud yn glir i’r person sydd wedi mynegi’r pryder y gallai’r ymchwiliad fod yn gyfyngedig mewn rhai agweddau ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, yn enwedig mewn sefyllfaoedd pan fydd staff allweddol wedi gadael y sefydliad.

### Tynnu pryderon yn ôl

5.24 Caiff y person a hysbysodd y pryder dynnu'r pryder yn ôl ar unrhyw adeg.  Gellir tynnu’r pryder yn ôl:

- yn ysgrifenedig;
- yn electronig; neu
- ar lafar, yn bersonol neu dros y ffôn.

5.25 Os bydd pryder yn cael ei dynnu’n ôl ar lafar, dylai’r Corff Cyfrifol ysgrifennu at y person cyn gynted â phosibl i gadarnhau ei benderfyniad.

5.26 Ond os teimlir ei bod yn dal yn briodol ymchwilio i’r pryder, hyd yn oed os yw’r pryder wedi cael ei dynnu’n ôl, gall y Corff Cyfrifol barhau i ymchwilio.

## Adran 6 – Trin ac Ymchwilio i Bryderon

6.1 Mae’r mwyafrif helaeth o bryderon yn debygol o fod yn ymwneud â’r gwasanaethau a ddarperir gan un Corff Cyfrifol.  Yn yr achosion hynny, mae’r weithdrefn sy’n cael ei disgrifio ym mharagraff 6.19 yn gallu cychwyn ar unwaith.

6.2 Ond, bydd sefyllfaoedd yn codi lle mae gwasanaethau a ddarperir gan fwy nag un Corff Cyfrifol yn rhan o bryder (er enghraifft, bwrdd iechyd lleol ac ymddiriedolaeth GIG).  Mae hefyd yn bosibl o dan y trefniadau i bobl fynegi pryderon wrth fyrddau iechyd lleol ynglŷn

â’r gwasanaethau a ddarperir gan ymarferwyr gofal sylfaenol, a hefyd, i’r ymarferwyr hynny ofyn i fyrddau iechyd lleol gynnal ymchwiliadau ar eu rhan. Yn yr achosion hyn, mae angen gwneud gwaith rhagarweiniol arall (er enghraifft trafodaethau ar y cyd, cytuno ar drefniadau delio, pwy yw’r sefydliad arweiniol, terfynau amser ac ati) cyn symud ymlaen i ymchwilio i’r pryder o dan y Rheoliadau. Mae hyn yn cael sylw yn Rhan 4 o’r Rheoliadau, a’i ddisgrifio isod. Mae templed y gellir ei addasu i’w ddefnyddio yn y sefyllfaoedd hyn ar gael yn Atodiad F.

## Pryderon sy'n ymwneud â mwy nag un Corff Cyfrifol

6.3 Mae Rheoliad 17 yn ymwneud â phryderon sy'n cynnwys neu a allai gynnwys mwy nag un Corff Cyfrifol. Yn ymarferol, mae’n debygol mai dim ond wrth un o’r cyrff y mae’r person wedi mynegi’r pryder. Ond, mae’n bosibl bod y person wedi mynegi’r pryder wrth y ddau gorff, a rhaid mynd ati’n ofalus i gadarnhau hyn er mwyn sicrhau nad yw unrhyw sefydliad yn dyblygu ymdrechion. Os yw’n ymddangos yn glir i’r Corff Cyfrifol sydd wedi cael y pryder bod y materion yn ymwneud â Chorff Cyfrifol arall hefyd, rhaid iddo wneud y canlynol **o fewn 2 ddiwrnod gwaith** i’r pryder ddod i law am y tro cyntaf:

- hysbysu’r person sydd wedi mynegi’r pryder bod, neu y gallai fod, Corff Cyfrifol arall yn gysylltiedig â’i bryder, a
- gofyn am ganiatâd y person sydd wedi mynegi’r pryder i gysylltu â’r Corff Cyfrifol arall a rhoi gwybod iddo ei fod yn gysylltiedig â'r pryder.

6.4 Ar ôl cael caniatâd rhaid rhoi gwybod i’r ail Gorff Cyfrifol, **o fewn 2 ddiwrnod gwaith** ar ôl cael y caniatâd, bod pryder wedi dod i law. Dylai pob sefydliad sy’n gysylltiedig â’r pryder gydweithredu i gytuno ar y canlynol:

- pa un o'r sefydliadau fydd yn arwain y gwaith o gyd-drefnu ac ymchwilio i'r pryder yn unol â'r Rheoliadau;
- pwy fydd yn cyfathrebu’n uniongyrchol â’r person sydd wedi mynegi’r pryder ac yn sicrhau ei fod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf;
- ymateb ar y cyd i’r pryder, a gyhoeddir gan y corff arweiniol;
- rhannu gwybodaeth sy’n berthnasol i’r pryder, yn amodol ar gael caniatâd y dylid mynd ati i'w sicrhau ar y dechrau;

- cynrychiolaeth briodol ar gyfer y sefydliadau mewn unrhyw gyfarfodydd perthnasol.

## Pryderon a fynegwyd wrth fwrdd iechyd lleol ynghylch gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwr gofal sylfaenol

6.5 Mae Rheoliadau 18 i 21 yn ymdrin â phryderon a hysbysir i Fwrdd Iechyd Lleol am y gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwr gofal sylfaenol o dan gontract neu drefniadau gyda'r Bwrdd Iechyd hwnnw. Mae Rheoliad 19 yn rhagnodi'r camau y mae'n rhaid i Fwrdd Iechyd eu cymryd ar ôl cael ei hysbysu am bryder ynghylch darparwr gofal sylfaenol gan glaf neu ei gynrychiolydd. Mae Rheoliad 20 yn rhagnodi'r camau y mae'n rhaid i Fwrdd Iechyd eu cymryd pan fydd darparwr gofal sylfaenol yn hysbysu am bryder lle mae ef/hi yn destun y pryder, ac yn gofyn i'r Bwrdd Iechyd ymchwilio iddo. Mae Rheoliad 21 yn nodi sut mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd hysbysu ynghylch penderfyniadau a wneir o dan Reoliadau 19 a 20.

## Pryderon a fynegwyd wrth Fwrdd Iechyd Lleol gan glaf neu ei gynrychiolydd ynghylch gwasanaethau a ddarperir gan ymarferydd gofal sylfaenol

6.6 Pan fydd bwrdd iechyd lleol yn cael pryder sy'n ymwneud â gwasanaethau'r GIG a ddarperir gan ymarferydd gofal sylfaenol yn ei ardal, mae angen iddo benderfynu'n gyntaf a yw'n fwy priodol i'r bwrdd iechyd ymchwilio i bryder, neu ai'r darparwr gofal sylfaenol ddylai wneud hynny. Cyn gwneud y penderfyniad hwn, rhaid i'r bwrdd iechyd lleol fynd ati'n gyntaf, **o fewn 2 ddiwrnod gwaith**, i gysylltu â'r person sydd wedi mynegi'r pryder er mwyn:

- gofyn a yw'r pryder eisoes wedi cael ei fynegi wrth y darparwr gofal sylfaenol, ac a yw'r darparwr gofal sylfaenol wedi ymateb iddo, a
- gofyn am ganiatâd i anfon manylion y pryder at y darparwr gofal sylfaenol.

6.7 Os yw'r darparwr gofal sylfaenol eisoes wedi ymdrin â'r pryder, a bod ymateb wedi'i gyhoeddi yn unol â Rheoliad 24, ni chaiff y bwrdd iechyd lleol ymchwilio iddo eto. Dylid rhoi gwybod i'r person am hynny, a'i atgoffa o'i hawl i fynd â'r mater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

6.8 Os nad yw'r darparwr gofal sylfaenol wedi edrych ar y pryder ac os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol o'r farn ei fod yn bryder y byddai'n briodol, mewn egwyddor, i'r Bwrdd Iechyd Lleol ymchwilio iddo, rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol gael caniatâd y person sydd wedi mynegi'r pryder wrtho er mwyn iddo allu anfon manylion y pryder at y darparwr gofal sylfaenol sy'n destun y pryder.

6.9 Os nad yw'r person a hysbysodd y pryder yn rhoi caniatâd i'r manylion gael eu trosglwyddo i'r darparwr gofal sylfaenol, ni all y Bwrdd Iechyd Lleol ymchwilio i'r pryder. Y rhesymeg dros bolisi o'r fath yw na fyddai'n bosibl, yn y mwyafrif helaeth o achosion, i Fwrdd Iechyd Lleol ymchwilio i bryder heb gydweithrediad yr ymarferydd gofal sylfaenol, ac y dylai ymarferwyr gofal sylfaenol wybod, yn enw tegwch, pan fydd pryder sy'n ymwneud â nhw yn destun ymchwiliad.

6.10 Yr unig eithriad yw os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol o'r farn bod mater mor ddifrifol fel y byddai'n haeddu ymchwiliad beth bynnag, heb fewnbwn uniongyrchol yr ymarferydd gofal sylfaenol, neu ganiatâd y claf unigol. Byrddau Iechyd Lleol fydd yn gyfrifol am benderfynu mewn achosion unigol pryd y byddai hysbysu ymarferydd gofal sylfaenol yn gallu rhagfarnu eu hystyriaeth o bryder.

6.11 O ran penderfynu ai'r bwrdd iechyd lleol ynteu'r darparwr gofal sylfaenol sy'n gymwys i ymchwilio i bryder, y bwrdd iechyd lleol fydd yn penderfynu ar hynny yng ngoleuni'r mater dan sylw. Er enghraifft, mae'n bosibl y dylai materion sy'n ymwneud â gweinyddu (apwyntiadau ac ati) a staff (agwedd, hyfforddiant ac ati) mewn practis gael eu cyfeirio'n ôl at y darparwr gofal sylfaenol i ymdrin â nhw, ond byrddau iechyd lleol ddylai edrych ar faterion mwy sylfaenol sy'n ymwneud â gofal clinigol. Yn yr un modd, os yw'n ymddangos bod y berthynas rhwng y claf a'r practis yn mynd i'r gwellt, mae'n bosibl y byddai'n fwy priodol i'r bwrdd iechyd lleol ymchwilio i'r mater. Mae'n bosibl y bydd hefyd yn gwneud synnwyr i Fwrdd Iechyd Lleol ddelio â phob rhan o bryder os yw'n ymwneud â gofal sylfaenol ynghyd â gofal eilaidd. Nid oes unrhyw reolau ar gyfer hyn, felly bydd angen ystyried pob achos yn ofalus.

6.12 Mae gan fwrdd iechyd lleol **5 diwrnod gwaith** i benderfynu pwy fydd yn ymchwilio i'r pryder ac i roi gwybod i'r claf neu ei gynrychiolydd a'r darparwr gofal sylfaenol sy'n destun y pryder. Mae'r terfyn amser hwn yn cychwyn ar y dyddiad y daethpwyd i

benderfyniad ynghylch y materion ym mharagraff 6.6 uchod. Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol roi rhesymau dros eu penderfyniad ynghylch pwy sydd fwyaf addas i ymchwilio i'r pryder.

6.13 Os bydd bwrdd iechyd lleol yn penderfynu ymchwilio i bryder ynghylch darparwr gofal sylfaenol, bydd yn rhoi gwybod i'r person sydd wedi mynegi'r pryder a'r darparwr gofal sylfaenol, ac yna'n cynnal ymchwiliad yn unol â'r Rheoliadau a'r broses a ddisgrifir o baragraff 6.19 ymlaen isod. Mae gan ddarparwyr gofal sylfaenol ddyletswydd i gydweithredu ag ymchwiliadau a gynhelir gan y bwrdd iechyd lleol. Ond, ni chaiff byrddau iechyd lleol wneud unrhyw benderfyniad ynghylch atebolrwydd darparwr gofal sylfaenol mewn camwedd. Os yw'r claf yn honni materion o'r fath neu os byddant yn codi yn ystod yr ymchwiliad, bydd y darparwr gofal sylfaenol yn cael cyngor i gynnwys ei sefydliad amddiffyn meddygol. Bydd angen rhoi gwybod i'r claf na all y bwrdd iechyd lleol ymwneud â'r agweddau hynny ar unrhyw bryder am ddarparwr gofal sylfaenol.

6.14 Os penderfynir mai'r darparwr gofal sylfaenol sydd yn y sefyllfa orau i ymchwilio i'r pryder, rhaid i'r bwrdd iechyd lleol roi gwybod i'r person a'r darparwr gofal sylfaenol am y penderfyniad hwn, ac egluro pam y gwnaed y penderfyniad. Mae'n bosibl y bydd y person sydd wedi mynegi'r pryder yn anfodlon â'r penderfyniad hwn felly, fel rhan o lythyr penderfyniad y bwrdd iechyd lleol, rhaid rhoi gwybod i'r person am ei hawl i fynd â'i bryder at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

6.15 Rhaid i'r darparwr gofal sylfaenol ddelio â'r pryder yn unol â'r broses o drin ac ymchwilio i bryderon, fel y nodwyd yn y canllawiau hyn.

## Cais gan ddarparwr iechyd sylfaenol i fwrdd iechyd lleol gynnal ymchwiliad

6.16 Mae Rheoliad 20 yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn pan fydd darparwr gofal sylfaenol yn gofyn i fwrdd iechyd lleol ymchwilio i bryder sydd wedi cael ei hysbysu i'r darparwr gofal sylfaenol. Mae'r broses y mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd lleol ei dilyn pan fydd yn cael cais o'r fath yn debyg iawn i'r un a ddisgrifir uchod ar gyfer pryderon a fynegwyd wrth y bwrdd iechyd lleol gan gleifion ynghylch darparwyr gofal sylfaenol.

6.17 Pan fydd y darparwr gofal sylfaenol yn gofyn i fwrdd iechyd lleol ymchwilio i bryder am wasanaethau a ddarperir ganddo, mae angen i'r bwrdd iechyd lleol, **o fewn 2 ddiwrnod gwaith**:

- gadarnhau gyda'r darparwr gofal sylfaenol bod y person sydd wedi mynegi'r pryder yn rhoi caniatâd i'r bwrdd iechyd lleol ystyried y pryder;
- canfod a yw'r pryder wedi cael ei ystyried gan y darparwr gofal sylfaenol, ac a oes ymateb eisoes wedi'i gyhoeddi gan y darparwr gofal sylfaenol o dan Reoliad 24.

6.18 Os yw'r person a hysbysodd y pryder yn anfodlon rhoi caniatâd i'r Bwrdd Iechyd ystyried y pryder neu os yw darparwr gofal sylfaenol eisoes wedi cyhoeddi ymateb o dan Reoliad 24, ni all y bwrdd iechyd lleol ymchwilio i'r pryder a rhaid iddo roi gwybod i'r darparwr gofal sylfaenol. Os yw'r person a hysbysodd y pryder yn fodlon i'r Bwrdd Iechyd ystyried y pryder ac nad oes ymateb wedi'i gyhoeddi o dan Reoliad 24, mae gan y bwrdd iechyd lleol **5 diwrnod gwaith** i benderfynu pwy fydd yn ymchwilio i'r pryder, a bydd y broses a ddisgrifir ym mharagraffau 6.12 i 6.15 uchod yn berthnasol.

## Ymchwilio i bryderon yn unol â'r Rheoliadau

6.19 Pan ddaw pryder i law gan Gorff Cyfrifol, rhaid i'r dyddiad dod i law gael ei nodi'n ofalus, gan fod y dyddiad hwnnw'n cael ei ddefnyddio i gyfrifo faint o ddiwrnodau y bydd yn ei gymryd i ymateb. Mewn achosion lle gellir ystyried Iawn, bydd cyfnod y cyfyngiad hefyd yn cael ei atal dros dro o'r dyddiad hwnnw – mae hyn yn cael ei drafod yn fanylach yn yr adran isod sy'n sôn am Iawn. Mewn achosion sy'n ymwneud â phryderon a hysbysir i fyrddau iechyd lleol am ddarparwyr gofal sylfaenol, a ddisgrifir uchod, y dyddiad dod i law yw'r dyddiad y daeth y pryder i law am y tro cyntaf. Cydnabyddir y bydd y gwaith rhagarweiniol sy'n ofynnol yn yr achosion hyn yn lleihau'r amser sydd ar gael i ymchwilio ac ymateb i'r pryder. Fodd bynnag, byddai'n rhy gymhleth defnyddio targed cyffredinol gwahanol mewn gwahanol achosion.

6.20 Pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol, mae'r 'diwrnod y cafwyd yr hysbysiad o bryder' yn cyfateb i'r diwrnod y daeth y Corff GIG i wybod am y tro cyntaf bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol.

## Cydnabod Pryderon

6.20 Oni bai fod pryder wedi cael ei "ddatrys yn gynnar" mewn ffordd foddhaol, rhaid i bob pryder gael ei gydnabod o fewn **5 diwrnod gwaith** i'r dyddiad y daeth i law am y tro cyntaf yn unol â'r Rheoliadau.

6.21 Yn achos pryderon sy'n ymwneud â darparwyr gofal sylfaenol y bydd bwrdd iechyd lleol yn ymchwilio iddynt, ar ôl i'r bwrdd iechyd lleol benderfynu y bydd yn ymchwilio, bydd yn anfon llythyr cydnabod ffurfiol sy'n amlinellu'r pryder y bydd yn ymchwilio iddo, fel sy'n ofynnol o dan y canllawiau hyn.

6.22 O ran pryderon a hysbyswyd gan staff, bydd angen addasu'r cam hwn i sicrhau eu bod hefyd yn cael cydnabyddiaeth a chyfle i drafod y pryder. Mae staff yn aml yn gyndyn o roi gwybod am bryderon, oherwydd dydyn nhw naill ai ddim yn gwybod beth fydd yn digwydd o ganlyniad i hynny, neu maen nhw'n ansicr ynghylch beth fydd yn newid. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd rhoi adborth i staff sy'n rhoi gwybod am bryderon, a rhoi digon o gefnogaeth iddynt.

6.23 Pan fydd aelod o staff yn mynegi pryder, rhaid i'r person sy'n gysylltiedig â'r pryder, neu ei gynrychiolydd, gael gwybod a bod yn rhan o'r ymchwiliad i'r pryder yn unol â Rhan 5 o'r Rheoliadau.

6.24 Dylid osgoi hysbysiadau dyblyg i gleifion (neu eu cynrychiolydd) pan fydd y weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd eisoes wedi cael ei dilyn, a allai achosi trallod diangen.

6.25 Rhaid i'r pryder gael ei gydnabod yn ysgrifenedig, ac os daw'r pryder i law yn electronig rhaid gallu ei gydnabod yn electronig. Rhaid i bryderon a hysbyswyd ar lafar na ddeliwyd â nhw "yn y fan a'r lle" hefyd gael eu cydnabod yn ysgrifenedig.

6.26 Ar y cam hwn, mae'n bwysig bod y person sydd wedi mynegi'r pryder yn cael **enw cyswllt** gan y Corff Cyfrifol y gall y person ei ddefnyddio drwy gydol y broses o ddelio â'r pryder, a manylion cyswllt y person dan sylw. Ar y dechrau, rhaid i'r person sydd wedi mynegi'r pryder gael cynnig cyfle i drafod:

- unrhyw anghenion penodol sydd gan y person a ddylai gael eu hystyried wrth i'r ymchwiliad fynd rhagddo;
- sut bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal;
- hyd tebygol yr ymchwiliad, a phryd y gellir disgwyl ymateb, ac
- yr eiriolaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael.

6.27 Fel mater o arfer da, dylai'r drafodaeth hefyd geisio:

- cael gwybod beth mae'r person sydd wedi mynegi'r pryder yn ei ddisgwyl fel canlyniad, a
- sicrhau bod y person yn deall y bydd cofnodion clinigol y claf yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymchwiliad.

6.28 Gellir cynnal y drafodaeth dros y ffôn neu mewn cyfarfod. Mae gofyn bod y cyfle hwn i drafod wedi'i gynnwys yn y llythyr cydnabod. Mae enghreifftiau o lythyrau templed i gleifion sy'n cydnabod bod pryder(on) wedi dod i law ar gael yn Atodiad G.

6.29 Os bydd cyfarfod gyda'r person sydd wedi mynegi'r pryder yn cael ei gynnal ar y cam yma, mae'n ddefnyddiol cofio ei fod yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus os yw'r person yn gwybod beth i'w ddisgwyl o'r cyfarfod, ac yn gallu cynnig awgrymiadau ynghylch sut gellir datrys y mater ar ei ran. Dylid bob amser annog y person sydd wedi mynegi'r pryder i ddod â pherthynas neu ffrind, neu eiriolwr, i unrhyw gyfarfodydd.

6.30 Ar adegau prin, mae'n bosibl na fydd cyfarfod yn unig yn ddigon i ddatrys pryder. Os bydd y cyfarfod yn llwyddiannus a bod yr holl bartïon yn cytuno ar y camau i ddatrys y pryder, gellir ystyried bod y pryder wedi'i ddatrys, ac mae'n bosibl na fydd angen ymchwiliad pellach. Rhaid dilyn y cyfarfod gydag ymateb ysgrifenedig llawn sy'n seiliedig ar y trafodaethau, a chynnwys cadarnhad bod y pryder bellach wedi'i ddatrys. Os cytunwyd ar unrhyw gamau dilynol, rhaid i'r person sydd wedi mynegi'r pryder gael gwybod pryd y gall ddisgwyl cael gwybodaeth am ganlyniad y camau hyn.

6.31 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd cyfarfod yn gwneud y diben o gadarnhau rhywfaint o wybodaeth sylfaenol a chytuno ar ffordd ymlaen. Bydd yr ymchwiliad wedyn yn mynd yn ei flaen.

6.32 Os nad yw'r person am drafod ei bryder, bydd y Corff Cyfrifol yn penderfynu sut bydd yn delio â'r pryder ac yna'n rhoi gwybod i'r person yn ysgrifenedig pa gamau a gynigir i ddelio â'r pryder.

6.33 Rhaid i unrhyw berson sy’n destun pryder gael copi o’r pryder oni bai:

- ei fod eisoes wedi cael copi gan y person sydd wedi mynegi’r pryder, neu
- y byddai hysbysu'r person am y pryder, ym marn resymol y Corff Cyfrifol, yn rhagfarnu ei ystyriaeth o'r materion a godwyd yn y pryder.

## Dyletswydd i fod yn agored

### Y Ddyletswydd Gonestrwydd

6.34 Egwyddorion sylfaenol y trefniadau hyn yw bod yn agored ac yn dryloyw. Mae’n bwysig sicrhau bod y claf neu ei gynrychiolydd yn cael ei gynnwys cymaint â phosibl yn yr ymchwiliad a gynhelir yn dilyn digwyddiad, ac yn cael sicrwydd ynghylch y gwersi a ddysgwyd. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer unrhyw gŵyn a ddaw i law. Mae’n hollbwysig ymgysylltu a chyfathrebu'n rhagorol er mwyn delio ag unrhyw bryder yn llwyddiannus, ni waeth beth fo maint na chymhlethdod y pryder.

6.35 Yn ogystal ag egwyddorion Bod yn Agored, mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (y “Ddeddf”) yn gosod dyletswydd gonestrwydd gyfreithiol ar ddarparwyr y GIG yng Nghymru. [5] Mae'r ddyletswydd yn ceisio hyrwyddo diwylliant o fod yn agored, ac yn gwella ansawdd y gofal o fewn y gwasanaeth iechyd drwy annog y sefydliad i ddysgu.

6.36 Os bydd defnyddiwr gwasanaeth yn dioddef canlyniad andwyol sydd wedi arwain neu a allai arwain at fwy nag ychydig o niwed annisgwyl neu anfwriadol (hynny yw, niwed cymedrol neu ddifrifol neu farwolaeth), a bod darparu'r gofal iechyd wedi bod yn ffactor neu y gallai fod wedi bod yn ffactor, rhaid i'r Corff Cyfrifol, yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf [6], hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd am y pryder. Dylid delio â hyn yn unol â gweithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd y

[5] Mae hyn yn cynnwys Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG, darparwyr gofal sylfaenol ac Awdurdodau Iechyd Arbennig (nid yw’n cynnwys Awdurdodau Iechyd Arbennig ar wahân i Gwaed a Thrawsblaniadau’r GIG)
[6] Rheoliadau’r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023

sefydliad a’r cyngor a nodwyd yng Nghanllawiau'r Ddyletswydd Gonestrwydd. [7]

6.37 Y bwriad yw y bydd y gofynion yn Rheoliadau’r GIG (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 (“y Rheoliadau”), fel y gofyniad i gynnal ymchwiliad, yn dilyn y weithdrefn gonestrwydd. Fodd bynnag, dylai cyrff GIG osgoi dyblygu unrhyw brosesau wrth gydymffurfio â’r weithdrefn gonestrwydd a’r weithdrefn sy’n ofynnol yn ôl y Rheoliadau er mwyn osgoi achosi unrhyw drallod diangen i’r claf neu ei gynrychiolydd, a sicrhau bod y prosesau’n cael eu symleiddio’n briodol. Er enghraifft,

6.38 Pan fydd aelod o staff yn hysbysu am bryder, mae Rheoliad 12(7) o'r Rheoliadau yn dal yn cynnwys gofyniad i roi gwybod i'r claf sy’n ymwneud â’r pryder, neu ei gynrychiolydd, bod pryder wedi cael ei hysbysu pan fydd ymchwiliad dechreuol y Corff Cyfrifol yn penderfynu y bu niwed cymedrol neu ddifrifol neu farwolaeth. Fodd bynnag, os yw’r claf neu ei gynrychiolydd eisoes wedi cael gwybod am y pryder yn unol â Rheoliadau'r Ddyletswydd Gonestrwydd, nid oes gofyniad i roi gwybod i’r claf na’i gynrychiolydd unwaith eto.

6.39 Ond, mae’n bosibl y bydd angen rhywfaint o ddyblygu wrth gyflawni rheoliadau eraill, fel rheoliad 24 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymddiheuro ar ôl i'r ymchwiliad gael ei gwblhau.

6.40 Mae Rheoliad 12(7) o'r Rheoliadau hefyd yn mynnu bod y Corff Cyfrifol yn cynnwys y claf neu ei gynrychiolydd yn yr ymchwiliad i'r pryder oni bai fod Rheoliad 12(8) yn berthnasol, ac nad yw cynnwys y claf yn yr ymchwiliad o fudd i'r claf. Gallai hyn fod yn wir, er enghraifft, os byddai cynnwys y claf yn gallu gwneud i’w iechyd corfforol a/neu feddyliol ddirywio. Yn unol ag egwyddorion cyffredinol y Ddyletswydd Gonestrwydd, mae angen hysbysu claf am y pryder o hyd. Felly, os bu niwed cymedrol neu ddifrifol neu farwolaeth, byddai’r ymchwiliad yn dechrau ar unwaith, ac fel rhan o’r drafodaeth hon, dylid gofyn am ganiatâd i gael mynediad at gofnodion meddygol.

## Cael mynediad at Gofnodion Meddygol a Chaniatâd

6.41 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen mynediad at gofnodion meddygol er mwyn ymchwilio i bryder, ac felly bydd angen ystyried

[7] Dolen i’r canllawiau

caniatâd. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn darparu cyngor sy'n cael ei alw'n *Health Data – use and disclosure*, a rhaid i sefydliadau roi sylw dyledus i unrhyw gyngor a allai fod yn berthnasol.

6.42 Wrth wneud cofnodion o dan y ddyletswydd gonestrwydd, dylai staff gofio ei bod yn bosibl y bydd rhaid i unrhyw gofnodion a wneir mewn perthynas â'r digwyddiad gael eu datgelu i'r unigolyn o dan GDPR y DU (os ydyn nhw'n ddata personol), neu i'r cyhoedd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (os nad ydyn nhw'n ddata personol). Dylai staff hefyd fynd ati i gynnwys Swyddog Diogelu Data eu sefydliad pan fydd yn ymddangos bod pryder yn ymwneud â thor diogelwch data personol, oherwydd mae'n bosibl y bydd gofynion adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd o dan GDPR y DU.

6.43 Mae Rheoliadau Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data ("GDPR y DU") yn amodi bod rhaid prosesu data personol yn unol â saith egwyddor allweddol: cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder; cyfyngu ar ddiben; lleihau faint o ddata sy'n cael eu casglu; cywirdeb; cyfyngiadau storio; uniondeb a chyfrinachedd; ac atebolrwydd. Ystyr prosesu yw unrhyw weithrediad neu gyfres o weithrediadau a gyflawnir ar ddata personol neu ar setiau o ddata personol, boed yn ddulliau awtomataidd ai peidio, megis casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu neu newid, adalw, ymgynghori, defnyddio, datgelu drwy drosglwyddo, lledaenu neu unrhyw ffordd arall o sicrhau eu bod ar gael, wedi'u halinio neu eu cyfuno, wedi'u cyfyngu, wedi'u dileu neu eu dinistrio.

6.44 At ddibenion GDPR y DU, bydd cofnodion iechyd yn cael eu hystyried yn ddata personol "sensitif" neu "categori arbennig", ac mae angen lefel uwch o warchodaeth ar gyfer y data hyn na data personol cyffredin. Mae GDPR y DU yn cynnwys amodau ar gyfer prosesu data categori arbennig, gan gynnwys pan fydd caniatâd penodol. Os nad ydych chi wedi cael caniatâd, dylid gofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch a oes unrhyw sail gyfreithiol dros gael mynediad at gofnodion iechyd y person.

6.45 Os mai'r claf ei hun sy'n mynegi'r pryder, dylid gofyn i'r claf roi caniatâd ar gyfer ymchwiliad pan fydd yn mynegi'r pryder. Bydd hyn hefyd yn berthnasol os bydd pryder yn cael ei fynegi gan gynrychiolydd sydd wedi dangos prawf bod ganddo hawl gyfreithiol i weithredu ar ran y claf/testun y data (ee, mae gan y

cynrychiolydd Atwrneiaeth). Fodd bynnag, er mwyn i unigolion ddeall yn glir y bydd angen mynediad at eu cofnodion meddygol o bosibl, dylid egluro hyn yn y llythyr cydnabod er mwyn iddyn nhw gael cyfle i ddweud os nad ydyn nhw eisiau rhoi mynediad at eu cofnodion iechyd.

6.46 Pan fydd trydydd parti wedi mynegi pryder ar ran rhywun arall, bydd rhaid gofyn am ganiatâd ysgrifenedig y claf neu ei gynrychiolydd i gael mynediad at gofnodion meddygol ac i gynnal ymchwiliad.

6.47 Os bydd y perthynas agosaf/cynrychiolydd personol yn mynegi pryder sy’n ymwneud â pherson sydd wedi marw, dylai’r swyddog ymchwilio fod yn fodlon bod gan y person hawl i weithredu ar ran y person sydd wedi marw.

6.48 Os bydd rhywun ar wahân i’r perthynas agosaf/cynrychiolydd personol yn mynegi pryder sy’n ymwneud â'r person sydd wedi marw, dylid cael caniatâd ysgrifenedig y perthynas agosaf neu’r cynrychiolydd personol.

6.49 Os bydd y claf/cynrychiolydd personol yn cysylltu â’r Corff Cyfrifol ar ôl mynegi’r pryder i ddweud nad yw'n fodlon â chaniatâd tybiedig ac nad yw am roi mynediad at ei gofnodion, rhaid i’r Corff Cyfrifol ystyried a yw’r mater dan sylw yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ymchwiliad heb gael mynediad at y cofnodion meddygol. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu na fydd ymchwiliad i’r pryder. Dylai cyrff cyfrifol werthuso’r mater er mwyn penderfynu a fyddai parhau i ymchwilio i’r mater o fudd i’r gwasanaeth iechyd. Rhaid cofnodi’r penderfyniad hwn cyn bwrw ymlaen â’r mater neu ei gau.

6.50 Mae’r papur yn Atodiad H yn cynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch pryd i ofyn am ganiatâd, gan gynnwys pan fydd pryder yn cael ei fynegi ar ran person sy’n blentyn neu sydd â diffyg galluedd meddyliol.

6.51 O ran pryderon sy’n ymwneud â digwyddiadau diogelwch cleifion a hysbyswyd gan aelodau o staff, mae GDPR y DU yn caniatáu i rai data personol sensitif (hynny yw, cofnodion meddygol) gael eu prosesu heb ganiatâd testun y data (hynny yw, y claf) er mwyn caniatáu gweithgareddau cyfreithlon fel ymchwilio’n fewnol i ddigwyddiad diogelwch cleifion. Yn y sefyllfaoedd hyn, nid oes

angen gofyn am ganiatâd yr unigolyn i ddefnyddio ei gofnodion meddygol mewn ymchwiliad.

6.52 Mewn unrhyw ymchwiliad ac yn unol â deddfwriaeth diogelu data ac Egwyddorion Caldicott, dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i'r ymchwiliad i'r pryder y dylid cael mynediad ati, a dim ond y bobl hynny sy'n amlwg angen mynediad ddylai gael hynny.

6.53 Hefyd, mae bod yn agored o'r cychwyn cyntaf a gadael i berson weld ei gofnodion meddygol ei hun yn aml yn gallu ei helpu i ddeall beth sydd wedi digwydd ac osgoi unrhyw amheuon rhag datblygu.

6.54 Mae'n bwysig sicrhau y glynir wrth ofynion GDPR y DU bob amser wrth gael mynediad at wybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaeth, ac wrth ei phrosesu a'i datgelu. Mewn achosion lle mae cynrychiolydd yn gweithredu ar ran defnyddiwr gwasanaeth sydd â galluedd, dylid cael caniatâd ysgrifenedig i'r cynrychiolydd weithredu ac adolygu hyn drwy gydol y broses.

6.55 Felly, gall person sy'n hysbysu am bryder wneud cais am fynediad at unrhyw gofnodion personol sydd gan Gorff Cyfrifol, ar yr amod ei fod yn destun y data neu wedi cael caniatâd i wneud hynny gan y person dan sylw. Ni chodir ffioedd pan fydd person yn archwilio cofnodion ysgrifenedig, ond mae'n bosibl y bydd ffi os yw'r person am gael copïau.

6.56 Mae gan berson hawl i gael mynediad at wybodaeth bersonol sy'n cael ei chadw amdano mewn cofnodion ysgrifenedig ac ar gyfrifiadur, er enghraifft nodiadau meddygol a nyrsio, adroddiadau pelydr-X neu ganlyniadau gwaed.  Pan fydd person yn gofyn am gael gweld cofnodion meddygol, rhaid i'r person fod yng nghwmni rhywun arall, a rhaid sicrhau bod cymorth priodol ar gael i egluro unrhyw gwestiynau ynghylch gweithdrefnau a therminoleg.

6.57 Fodd bynnag, gellir gwrthod mynediad os:

- yn dilyn trafodaeth â gweithiwr iechyd proffesiynol, y byddai rhoi mynediad yn niweidio'n ddifrifol lesiant corfforol neu feddyliol y person neu unrhyw unigolyn arall sy'n gysylltiedig â'r pryder, er enghraifft aelod o staff fel gweithiwr iechyd proffesiynol; neu
- os yw'r cais am fynediad wedi cael ei wneud gan rywun nad yw'n destun y data (fel rhiant plentyn), lle cafodd yr wybodaeth ei darparu gyda'r disgwyliad na fyddai'n cael ei datgelu i'r

ceisydd. Mae hyn yn cynnwys canlyniadau unrhyw archwiliad neu ymchwiliad y mae'r claf wedi gofyn am iddynt beidio â chael eu datgelu.

6.58 Os gwrthodir mynediad, gall yr unigolyn gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth neu, os yw'n dal yn anfodlon, gall unigolion geisio cael rhwymedi drwy'r llysoedd.  Bydd polisïau a gweithdrefnau lleol yn rhoi rhagor o wybodaeth am gael mynediad at gofnodion meddygol a'u datgelu, neu gall staff gysylltu ag arweinydd gwybodaeth eu sefydliad.

## Ymchwiliadau

6.59 Pan fydd y Rheoliadau'n berthnasol, rhaid mynd ati i ddelio â phob pryder (gan gynnwys y pryderon hynny a allai hefyd sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd) ac ymchwilio iddyn nhw yn y ffordd fwyaf priodol, effeithlon ac effeithiol fel y nodwyd yn Rheoliad 23. Dylai cyrff GIG Cymru nodi'n benodol Reoliad 23(1)(i) sy'n datgan os yw'r pryder a hysbyswyd yn cynnwys honiad bod, neu y gallai fod, niwed wedi'i achosi, bod **rhaid** iddyn nhw ystyried:

- y tebygolrwydd o unrhyw atebolrwydd cymwys;
- y ddyletswydd i ystyried Iawn yn unol â Rheoliad 25; a
- phan fo'n briodol, y gofynion ychwanegol a nodwyd yn Rhan 6 o'r Rheoliadau.

6.60 Wrth ystyried "gofynion ychwanegol Rhan 6", dylai cyrff GIG Cymru ystyried y terfyn ariannol presennol, sef £25,000, sy'n berthnasol i gynigion Iawn o dan Reoliad 29. Pan fydd yn amlwg o'r cychwyn cyntaf y byddai'r iawndal, er gwaetha'r ffaith bod neu y gallai fod atebolrwydd cymwys, yn fwy na £25,000 os byddai atebolrwydd cymwys yn cael ei gadarnhau, ni ddylid sbarduno'r trefniadau Iawn a dylid cynghori'r person a hysbysodd y pryder i ofyn am gyngor cyfreithiol, gan ofalu bod ganddo fanylion cyswllt Llais (Corff Llais y Dinesydd). Os bydd yn dewis bwrw ymlaen â hawliad digolledu, gall wneud hynny yn y ffordd arferol, y tu hwnt i ddarpariaethau'r Rheoliadau. Byddai'r cyngor hwn yn rhan o'r ymateb sy'n ofynnol o dan Reoliad 24.  Fodd bynnag, mae angen ymchwilio i bob pryder yn unol â'r egwyddorion trin ac ymchwilio i bryderon fel y maen nhw wedi'u nodi yn y Rheoliadau, yn enwedig yn Rheoliad 23.

## Sefydlu'r Ymchwiliad a'r Asesiad Dechreuol o Bryder

6.61 Bydd asesiad dechreuol o'r pryder yn cael ei gynnal yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn Rheoliad 23 i bennu dyfnder a pharamedrau'r ymchwiliad, sydd angen bod yn gymesur â difrifoldeb y pryder a hysbyswyd. Rhaid i bob pryder gael ei raddio yn ôl difrifoldeb. Bydd dyfnder yr ymchwiliad yn amrywio yn unol â'r materion sydd dan sylw. Ni fydd yn briodol cynnal ymchwiliadau manwl ar gyfer pob pryder, ac felly mae'n bwysig penderfynu mor gywir â phosibl o'r cychwyn cyntaf beth fydd yn gymesur yn yr amgylchiadau. Mae hefyd yn hanfodol bod y broses o asesu pryder yn cael ei hadolygu'n gyson drwy gydol yr ymchwiliad, rhag ofn y bydd angen i natur yr ymchwiliad newid.

6.62 Mae nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn ymchwiliad yn dibynnu ar ddifrifoldeb a chymhlethdod y pryder. Yn achos pryder gradd isel (gradd 1 neu 2), gallai un person fod yn ddigon i gynnal yr ymchwiliad, tra byddai pryder gradd uwch (graddau 3-5) yn galw am ddull tîm amlddisgyblaethol sy'n cael cefnogaeth gan y tîm pryderon. Yn yr achosion hyn, mae'n debygol y bydd angen Dadansoddiad cynhwysfawr neu gryno o Wraidd y Broblem. Mae'n bwysig bod yr ymchwilydd/ymchwilwyr yn cael eu dewis yn briodol ar sail eu gwybodaeth a'u profiad a natur y pryder. Dylent hefyd fod yn annibynnol ar y mater(ion) sy'n destun ymchwiliad, ac ni ddylent fod wedi chwarae unrhyw ran yn y mater(ion).

6.63 Mae angen i'r bobl sy'n ymchwilio i'r pryderon fod wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol a bod yn gymwys, yn wrthrychol ac yn gredadwy, ac mae gofyn bod ganddynt awdurdod cydnabyddedig a'u bod yn cael eu parchu. Os yw aelod o staff yn ymwneud ar unrhyw lefel â phryder sy'n ymwneud ag aelod o'r teulu, rhaid i'r aelod o staff ddatgan gwrthdaro rhwng buddiannau. Ni all unrhyw swyddog ymchwilio neu berson sy'n penderfynu'n derfynol ar bryder gael unrhyw berthynas deuluol â'r person sydd wedi mynegi'r pryder na'r person sydd dan sylw yn y pryder. Mae hyn yn sicrhau uniondeb y broses, heb beryglu hawliau unrhyw unigolyn sy'n ymwneud â'r pryder.

6.64 Drwy raddio pryder yn gywir, dewis yr ymchwilydd neu'r ymchwilwyr yn briodol, cytuno ar y cylch gorchwyl er mwyn iddo fod yn glir a defnyddio adnoddau priodol (ee, cronolegau, "5 Pam", ac ati), gellir cynnal yr ymchwiliad yn drwyadl, yn gyflym ac yn

effeithlon. Y bwriad yw *"ymchwilio unwaith, ymchwilio'n dda"*, a dylai hyn barhau'n rhan ganolog o'r ymchwiliad wrth iddo ddatblygu.

6.65 Mae gwybodaeth am raddio pryderon ar gael yn Atodiad I. Gellir cael gafael ar amrywiaeth o adnoddau ymchwilio drwy wefan Diogelwch Cleifion Cymru, gan gynnwys canllawiau ar sut i ddysgu gwersi o bryderon.

## Cyfathrebu â'r person neu'r cynrychiolydd sydd wedi mynegi'r pryder

6.66 Rhaid i gyrff cyfrifol sicrhau bod y person a hysbysodd y pryder yn cael gwybod y diweddaraf am yr ymchwiliad, a hynny'n brydlon ac mewn fformat sy'n diwallu unrhyw anghenion sydd eisoes wedi'u nodi. Dylid hefyd ystyried ei wahodd i gyfarfodydd gyda staff, ac ar ba gam yn yr ymchwiliad y byddai'n fwyaf defnyddiol trefnu'r cyfarfodydd hynny. Os bydd staff clinigol yn cwrdd â chlaf yn rhy gynnar, mae hynny'n gallu gwneud mwy o niwed; ni ddylid chwaith gadael i gymaint o amser fynd heibio fel bod y person sydd wedi mynegi'r pryder yn teimlo ei fod wedi cael ei anghofio. Dylid ystyried yr amseru'n ofalus er mwyn i bawb allu paratoi ac er mwyn i unrhyw gyfarfod fod mor ddefnyddiol â phosibl.

6.67 Mae Rheoliad 12(7) o'r Rheoliadau hefyd yn mynnu bod y Corff Cyfrifol yn cynnwys y claf neu ei gynrychiolydd yn yr ymchwiliad i'r pryder oni bai fod Rheoliad 12(8) yn berthnasol, ac nad yw cynnwys y claf yn yr ymchwiliad o fudd iddo. Gallai hyn fod yn wir, er enghraifft, os byddai cynnwys y claf yn gallu arwain at ddirywiad yn ei iechyd corfforol a/neu iechyd meddwl.

6.68 Pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno mewn perthynas â'r pryder, dylid rhoi gwybod i'r claf (neu ei gynrychiolydd) am y camau (fel yr ymchwiliad) y bydd y Corff Cyfrifol yn eu cymryd, gan gynnwys canlyniad ymchwiliadau o'r fath, yn unol â'r rheoliadau gonestrwydd.

## Cefnogaeth i staff sy'n ymwneud â phryderon

6.69 Mae bod yn destun pryder, neu hyd yn oed hysbysu am bryder fel aelod o staff, yn gallu achosi llawer o straen. O ran bod yn destun pryder, pan fydd mater yn cael ei godi – boed hynny gan glaf neu gan aelod o staff – dylid rhannu'r manylion â'r aelod o staff dan sylw lle bynnag y bo hynny'n briodol. Dylid gwneud hynny mewn

ffordd gefnogol. Bydd gan Gyrff GIG fecanweithiau ar waith a gwasanaethau cymorth lleol er mwyn mynd ati i gynnig cefnogaeth a chymorth priodol i aelodau staff drwy eu Gwasanaeth Llesiant Gweithwyr/Rhaglenni Cymorth i Weithwyr/Iechyd Galwedigaethol.

6.70 Hefyd, mae nifer o wasanaethau cymorth cenedlaethol ar gael drwy wefan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)[8], fel Iechyd i Weithwyr Iechyd Proffesiynol (Canopi)[9], SilverCloud[10] a'r Samariaid[11]. Bydd Rheolwyr Llinell Lleol, Goruchwylwyr Clinigol, gweithwyr proffesiynol Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad (gan gynnwys cydweithwyr iechyd galwedigaethol a llesiant gweithwyr) a chynrychiolwyr Undebau Llafur hefyd yn gallu cyfeirio staff at wasanaethau cymorth priodol.

6.71 Efallai y bydd angen i staff baratoi adroddiadau neu dystiolaeth yn ystod yr ymchwiliad i'r pryder, ac efallai y bydd angen cymorth gan eu tîm pryderon lleol i gwblhau'r tasgau hyn. Yn anad dim, mae'n bwysig bod staff yn cael gwybod y diweddaraf am yr ymchwiliad i unrhyw bryder maen nhw wedi'i godi, neu a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â nhw, a'r canlyniad terfynol.

Mae'r model "assist me" [12] – helpu staff yn dilyn digwyddiadau diogelwch cleifion – yn gallu bod yn ddefnyddiol yn yr amgylchiadau hyn.

## Cael cyngor clinigol annibynnol neu gyngor arall

6.72 Ar adegau mae'n bosibl y bydd angen cael barn annibynnol ar fater sy'n ymwneud â phryder, gyda'r bwriad o'i ddatrys. Gall hyn gynnwys:

- cael ail farn i helpu claf i ddeall ei ofal ei hun, neu i weld a oes unrhyw faterion eraill y mae angen eu harchwilio o ran y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd, fel rhan o ymchwiliad Corff Cyfrifol i bryder;
- mewn achosion pan fydd y claf wedi gwneud honiad o niwed, a phan nad yw corff GIG Cymru yn gallu dod i benderfyniad ei

[8] HEIW (2023) Cefnogaeth i'r gweithlu. https://aagic.gig.cymru/cefnogaeth/
[9] Canopi (Iechyd i weithwyr iechyd proffesiynol gynt) https://canopi.nhs.wales/cy/amdanom-ni/
[10] SilvercloudWales. https://nhswales.silvercloudhealth.com/signup/
[11] Y Samariaid 2023 https://www.samaritans.org/

[12] Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 2021 – "National Open Disclosure Programme "assist me": A model of staff support following patient safety incidents in healthcare." https://www.hse.ie/eng/about/who/nqpsd/qps-incident-management/open-disclosure/assist-me-a-model-of-staff-support-following-patient-safety-incidents-in-healthcare-january-2021-.pdf

hun ynghylch a oes atebolrwydd cymwys mewn camwedd, cael barn arbenigol i ateb cwestiynau ynghylch y profion sy'n ymwneud â thorri dyletswydd gofal a/neu achosiad, fel rhan o ymchwiliad o dan Ran 5 o'r Rheoliadau;

- pan fydd y trefniadau Iawn yn Rhan 6 o'r Rheoliadau yn cael eu sbarduno, rhaid i unrhyw gyfarwyddyd ar gyfer arbenigwyr meddygol, yn unol â Rheoliad 32(1)(b), gael ei wneud ar y cyd gan y person a hysbysodd y pryder a'r corff GIG Cymru. Mae'n bosibl y bydd arbenigwyr yn cael cyfarwyddyd i roi cyngor ar faterion sy'n ymwneud ag achosiad, cyflwr a phrognosis a/neu gwantwm er mwyn canfod a oes atebolrwydd cymwys y dylid cynnig Iawn ar ei gyfer.  Mae llythyr templed ar gael yn Atodiad J.

6.73 Mae cronfa ddata wedi cael ei chreu sy'n cynnwys enwau a manylion cynghorwyr arbenigol annibynnol posibl y gall corff GIG Cymru eu comisiynu i roi cyngor yn yr amgylchiadau a nodwyd uchod.  Mae'r gronfa ddata'n cynnwys arbenigwyr o'r gwahanol broffesiynau iechyd, disgyblaethau ac arbenigeddau/is-arbenigeddau. Y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg sy'n dal y gronfa ddata, a bydd y gronfa'n dal i gael ei diwygio a'i diweddaru wrth i'r broses Gweithio i Wella ddatblygu.

6.74 Rhaid i gynghorwyr arbenigol annibynnol gydymffurfio â set o delerau ac amodau cyffredinol os ydyn nhw'n dymuno rhoi cyngor i gorff GIG Cymru yn unol â'r Rheoliadau.  Mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad K. Er y bydd y telerau ac amodau cyffredinol hyn yn berthnasol ym mhob achos, pan fydd cynghorydd arbenigol yn cael ei benodi gan un o gyrff GIG Cymru gofynnir hefyd iddo gytuno ar unrhyw delerau ac amodau sy'n ymwneud â'r achos penodol, mewn perthynas â therfynau amser ar gyfer paratoi adroddiadau, eu fformat, trefniadau talu, neu unrhyw ofynion eraill y gellir eu pennu'n lleol.

6.75 Cysylltwch â'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg i gael cyngor pellach ynghylch sut i benodi cynghorydd arbenigol annibynnol, ar redress@wales.nhs.uk.  Mae llythyr templed cyfarwyddyd ar gael yn Atodiad J. Er mwyn i bobl gael sicrwydd bod y cyngor hwn yn annibynnol mae'n hanfodol, ac yn arferol, bod y claf neu ei gynrychiolydd yn cael gweld neu'n cael copi o'r llythyr cyfarwyddyd a chopïau o'r wybodaeth y bwriedir ei hanfon at yr arbenigwr annibynnol i gael ei hystyried.  O ran yr wybodaeth a fydd yn cael ei darparu i'r arbenigwr annibynnol, mae hyn yn debygol o

gynnwys y nodiadau clinigol perthnasol; cofnodion y meddyg teulu; datganiadau gan glinigwyr a oedd yn ymwneud â'r gofal sy'n cynnwys eu hatgofion o'r claf, digwyddiadau a'u cynlluniau triniaeth, yn ogystal â rhestr o'r cwestiynau penodol y gofynnir i'r arbenigwr eu hateb.

6.76 Mewn achosion lle bydd y trefniadau Iawn yn cael eu defnyddio, mae'r cyfarwyddyd yn un ffurfiol ar y cyd rhwng y corff GIG Cymru a'r claf, neu ei gynrychiolydd. Mae hyn yn cael sylw manylach yn Adran 7 isod.

## Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod

6.77 Mae angen i gyrff cyfrifol ystyried a oes modd datrys pryder drwy ddefnyddio dull amgen o ddatrys anghydfod, fel cyfryngu, hwyluso neu gymodi. Mae'r dull hwn yn aml yn ddefnyddiol pan fydd y person sydd wedi mynegi'r pryder yn ddig neu pan fydd pethau'n anesmwyth rhwng y Corff Cyfrifol a'r person sydd wedi mynegi'r pryder.

6.78 Gall yr annibyniaeth sy'n gysylltiedig â dull amgen o ddatrys anghydfod helpu i ddatrys y pryder a'i atal rhag gwaethygu ymhellach. Gall dull amgen o ddatrys anghydfod fod yn help:

- pan fydd staff neu ymarferwyr yn cael trafferth ymdrin â'r pryder;
- pan fydd y person sydd wedi mynegi'r pryder yn poeni nad yw'r tîm pryderon/person arweiniol yn ddiduedd;
- pan fydd camddealltwriaeth gyda pherthnasau, yn ystod triniaeth claf. Gall dull amgen o ddatrys anghydfod arwain at 'farn ar y cyd' am y sefyllfa, gan gynnwys eu gwahaniaethau.

6.79 I fwrw ymlaen â'r dull hwn, mae angen i'r ddau barti ddarparu cytundeb wedi'i lofnodi i gymryd rhan yn y broses, ac mae angen i gleifion roi caniatâd i barti annibynnol gael gweld eu cofnodion personol. Rhaid i'r holl gyfarfodydd, galwadau ffôn, cysylltiadau eraill a gwybodaeth a ddarperir gael eu cofnodi'n ofalus.

6.80 Efallai fod gan gyrff cyfrifol drefniadau'n barod i gael gafael ar gyfryngwyr a hwyluswyr annibynnol. Pan na fydd trefniadau o'r fath yn bodoli, mae'n bosibl y bydd tîm lleol Llais (Corff Llais y Dinesydd) neu dîm Cyfreithiol a Risg y GIG yn gallu helpu.

Cysylltwch â Bwrdd Llais (Corff Llais y Dinesydd) yng Nghymru i gael cyngor pellach:

Ffôn: 02920235558
Gwefan: llaiscymru.org
E-bost: ymholiadau@llaiscymru.org

## Delio â phobl sy'n gwneud ceisiadau afresymol

6.81 Mae gan bobl sy'n mynegi pryderon yr hawl i gael eu clywed, eu deall a'u parchu, a dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau unigolion y bydd eu pryder yn cael ei ymchwilio'n drylwyr. Fodd bynnag, ar adegau mae'n bosibl y bydd trallod y sefyllfa yn arwain at y person yn mynegi pryder ac y bydd yn ymddwyn yn groes i'w gymeriad, yn bod yn benderfynol, yn ymwthiol, yn ddig, ac y bydd yn gwneud ceisiadau afresymol i'r staff neu hyd yn oed yn troi at drais.

6.82 Mae pobl sy'n anfodlon â phroses neu ganlyniad yr ymchwiliad i'w pryder, er eu bod wedi cael cyngor ar yr opsiynau eraill sydd ar gael, hefyd yn gallu ymddwyn yn ymosodol tuag at staff neu barhau i fwrw ymlaen â'u pryder yn ddi-baid dros y ffôn, yn ysgrifenedig neu wyneb yn wyneb. Er bod staff yn deall mai'r trallod a achoswyd iddyn nhw neu eu hanwyliaid sydd wrth wraidd dicter ac ymddygiad ymosodol pobl o bosibl, mae'n annerbyniol pan fydd hynny'n troi'n ymddygiad ymosodol gwirioneddol neu bosibl tuag at staff.

6.83 Mae rhagor o wybodaeth am sut i ddelio â phobl sy'n gwneud ceisiadau afresymol ar gael yn Atodiad L.

## Pan fydd angen rhoi ystyriaeth ychwanegol i bryder

6.84 Pan ddaw pryder i'r amlwg am y tro cyntaf, neu ar unrhyw adeg yn ystod ymchwiliad, rhaid i'r Corff Cyfrifol ystyried a oes angen cymryd camau pellach, er enghraifft, cyfeirio unrhyw fater at brosesau eraill fel polisïau gallu neu ymddygiad AD neu at gyrff eraill fel:

- Llywodraeth Cymru (ar gyfer digwyddiadau difrifol);
- Cyrff Proffesiynol, er enghraifft, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth;
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru;

- Mothers and Babies: Reducing Risk through Audits and Confidential Enquiries across the UK - MBRRACE - UK;
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch - Rheoliadau adrodd ar anafiadau, clefydau neu ddigwyddiadau peryglus 1995 (RIDDOR);
- Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA);
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth;
- Yr Heddlu;
- Crwner EF;
- Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA);
- Yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol;
- Tîm Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru;
- Byrddau Lleol Diogelu Plant;
- Byrddau Lleol Diogelu Oedolion.

6.85 Gall yr atgyfeiriadau hyn ddigwydd ar yr un pryd ag ymchwiliad a gynhelir o dan y Rheoliadau. Bydd polisïau a gweithdrefnau lleol yn cynnwys manylion prosesau a threfniadau o fewn sefydliadau ar gyfer cyfleu pryderon i gyrff eraill.

Dolenni Defnyddiol:

System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch-RIDDOR: Report an incident
Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008
Mewn Dwylo Diogel 2000
Adolygiadau Ymarfer Plant

## Dyletswydd corff GIG Cymru i ystyried a oes atebolrwydd cymwys mewn camwedd

6.86 Fel sy’n cael ei nodi ym mharagraff 6.48, yn ychwanegol at y gofynion a nodwyd uchod sy’n berthnasol i bob corff cyfrifol, mae dyletswydd ychwanegol ar gyrff GIG Cymru (hynny yw byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau’r GIG yng Nghymru, ond **nid** darparwyr gofal sylfaenol na darparwyr annibynnol), lle bu honiad

o niwed, i ystyried y tebygolrwydd y bydd unrhyw atebolrwydd cymwys mewn camwedd.

6.87 Mewn llawer o bryderon, bydd yn amlwg nad yw atebolrwydd dros niwed gwirioneddol yn broblem, ac mae'n bosibl na fydd angen mynd ati i gael cyngor arbenigol annibynnol nac ystyried yr agwedd hon ymhellach. Neu, efallai fod corff GIG Cymru wedi gofyn am gyngor arbenigol annibynnol ac wedi dod i'r casgliad nad oes atebolrwydd mewn camwedd. Ar y cam hwnnw, gall y corff GIG Cymru ymateb i'r pryder gan ddweud nad oes atebolrwydd, a chyhoeddi adroddiad ymateb terfynol yn unol â Rheoliad 24.

6.88 Yn yr un modd, fel y nodwyd ym mharagraff 6.47, bydd pryderon bod niwed honedig wedi cael ei achosi pan fyddai'r iawndal a fyddai'n cael ei ddyfarnu, os byddai'r honiad hwnnw'n cael ei brofi, yn amlwg yn fwy na'r terfynau ariannol ar gyfer Iawn a nodwyd yn Rheoliad 29 (£25,000 ar hyn o bryd). Yn yr amgylchiadau hyn, mae hefyd yn briodol cyhoeddi ymateb terfynol o dan Reoliad 24 sy'n esbonio bod cwantwm unrhyw hawliad posibl sy'n deillio o'r pryder yn fwy na'r trothwy ariannol yn y Rheoliadau, ac felly na fydd y trefniadau Iawn o dan Ran 6 o'r Rheoliadau yn cael eu defnyddio.

6.89 Pan fydd atebolrwydd cymwys mewn camwedd yn bodoli, neu pan fyddai'n gallu bodoli, bydd y pryder yn destun ymchwiliad pellach gan y corff GIG Cymru, sydd â dyletswydd i ystyried Iawn o dan Ran 6 o'r Rheoliadau. Y terfyn ar gyfer elfen digollediad ariannol Iawn yw £25,000. Ar y cam hwn yn y broses o drin ac ymchwilio i'r pryder, rhaid i'r corff GIG Cymru gyhoeddi ymateb interim yn unol â Rheoliad 26.

## Ymateb i bryder

6.90 Dylai Corff Cyfrifol geisio cyhoeddi ymateb terfynol o dan Reoliad 24 o fewn 30 diwrnod gwaith, a fydd yn dechrau gyda'r diwrnod y cafodd ei hysbysu am y pryder. Pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol, mae'r 'diwrnod y cafwyd yr hysbysiad o bryder' yn cyfateb i'r diwrnod y daeth y Corff GIG i wybod am y tro cyntaf bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol.

## Ymateb terfynol o dan Reoliad 24

6.91 Dylai'r ymateb i bryder gan Gorff Cyfrifol gael ei gyhoeddi yn unol â Rheoliad 24. Rhaid i'r adroddiad ymateb terfynol gynnwys y canlynol:

- Ymddiheuriad (pan fydd hynny'n briodol)
- Crynodeb o'r pryder
- Esboniad o'r broses o ymchwilio i'r pryder
- Copïau o unrhyw farn arbenigol a gafwyd fel rhan o'r ymchwiliad
- Copïau o gofnodion meddygol perthnasol, pan fydd hynny'n briodol
- Esboniad o unrhyw gamau i'w cymryd
- Cynnig i drafod yr ymateb i'r pryder gyda'r swyddog cyfrifol neu ei gynrychiolydd enwebedig, a
- Manylion hawl y person i fynegi ei bryder wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

ac yn achos corff GIG Cymru:

- mewn perthynas â phryder sy'n honni bod niwed wedi cael ei achosi neu y gallai fod wedi cael ei achosi, esboniad o'r rhesymau pam nad oes atebolrwydd cymwys;
- esboniad o'r rheswm pam na fydd y trefniadau Iawn o dan Ran 6 yn cael eu sbarduno mewn ymateb i bryderon sy'n honni bod niwed wedi cael ei achosi pan fyddai gwerth ariannol yr hawliad, os caiff ei brofi, yn fwy na'r trothwy ariannol a nodwyd yn Rheoliad 29.

6.92 Rhaid i'r ymateb gael ei gymeradwyo gan y swyddog cyfrifol neu ei ddirprwy dynodedig. Mae templed drafft o adroddiad ymateb wedi'i atodi yn <u>Atodiad M</u>.

6.93 O ran ymateb i bryderon a hysbyswyd gan aelodau staff ynghylch digwyddiadau diogelwch cleifion, mewn achosion lle nad yw'r claf yn cymryd rhan yn y broses dylid paratoi adroddiad ymateb tebyg a'i anfon i'r pwyllgor priodol i gael ei ystyried. Mewn digwyddiadau lle bu niwed cymedrol neu ddifrifol neu farwolaeth, bydd y claf neu'r cynrychiolydd wedi cael gwybod ac wedi cymryd rhan yn yr ymchwiliad, ac felly bydd angen anfon ymateb at y claf neu'r cynrychiolydd, naill ai o dan Reoliad 24 neu 26 fel y bo'n briodol.

## Ymatebion terfynol sy’n cymryd mwy na 30 diwrnod gwaith

6.94 Dylai ymatebion terfynol o dan Reoliad 24 gael eu cyhoeddi o fewn 30 diwrnod gwaith i’r pryder ddod i law am y tro cyntaf, ond os nad yw hyn yn bosibl, rhaid rhoi gwybod i’r person sydd wedi mynegi’r pryder beth yw’r rheswm dros yr oedi. Rhaid anfon yr ymateb cyn gynted â phosibl wedyn, ac o fewn 6 mis i'r dyddiad y daeth y pryder i law. Pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol, mae’r ‘diwrnod y cafwyd yr hysbysiad o bryder’ yn cyfateb i’r diwrnod y daeth y Corff GIG i wybod am y tro cyntaf bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol.

6.95 Os nad oes modd cyhoeddi’r ymateb o fewn 6 mis, mewn amgylchiadau eithriadol iawn, bydd rhaid rhoi gwybod i’r person sydd wedi mynegi’r pryder beth yw’r rheswm dros yr oedi a rhoi dyddiad disgwyliedig yr ymateb.

## Ymateb interim o dan Reoliad 26

6.96 Pan fydd corff GIG Cymru o'r farn bod, neu y gallai fod, atebolrwydd cymwys a fyddai, yn unol â Rheoliad 29, yn denu digollediad ariannol o £25,000 neu lai, mae angen cyhoeddi adroddiad interim o dan Reoliad 26 o fewn 30 diwrnod gwaith, a fydd yn dechrau ar y diwrnod y cafodd yr hysbysiad o bryder. Pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol, mae’r ‘diwrnod y cafwyd yr hysbysiad o bryder’ yn cyfateb i’r diwrnod y daeth y Corff GIG i wybod am y tro cyntaf bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol.

## Adroddiad Interim

6.97 Rhaid i’r adroddiad interim gynnwys y canlynol:

- crynodeb o natur a sylwedd y materion yn y pryder;
- disgrifiad o'r gwaith ymchwil a wnaed hyd yma;
- disgrifiad o’r rheswm pam, ym marn y corff GIG Cymru, fod atebolrwydd cymwys neu y gallai fod atebolrwydd cymwys;
- copi o unrhyw gofnodion meddygol perthnasol;
- esboniad o’r broses o gael gafael ar gyngor cyfreithiol yn ddi-dâl;

- esboniad o wasanaethau eirioli a chymorth a allai fod yn help;
- esboniad o’r broses ar gyfer ystyried atebolrwydd ac Iawn;
- cadarnhad y bydd adroddiad llawn yr ymchwiliad ar gael i’r sawl sy’n ceisio Iawn;
- manylion hawl y person i fynd â'i bryder at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- cyfle i drafod cynnwys yr adroddiad interim gyda’r swyddog cyfrifol neu’r person sy’n gweithredu ar ei ran.

6.98 Dylai’r adroddiad interim gael ei gymeradwyo gan y swyddog cyfrifol neu’r person sy’n gweithredu ar ei ran. Mae templed adroddiad interim ar gael yn Atodiad N.

### Ymatebion interim sy’n cymryd mwy na 30 diwrnod gwaith

6.99 Dylai’r adroddiad interim gael ei gyhoeddi o fewn 30 diwrnod gwaith i’r pryder ddod i law am y tro cyntaf. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid i’r person sydd wedi mynegi’r pryder gael gwybod beth yw’r rheswm dros yr oedi, a dylid anfon yr adroddiad interim o fewn 6 mis i’r pryder ddod i law am y tro cyntaf. Pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol, mae’r ‘diwrnod y cafwyd yr hysbysiad o bryder’ yn cyfateb i’r diwrnod y daeth y Corff GIG i wybod am y tro cyntaf bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol.

6.100 Os nad oes modd cyhoeddi’r adroddiad interim o fewn 6 mis, mewn amgylchiadau eithriadol, bydd rhaid i’r person sydd wedi mynegi’r pryder gael gwybod beth yw’r rheswm dros yr oedi a’r dyddiad y gall ddisgwyl cael yr adroddiad interim.

## Adran 7 – Iawn

7.1 Mae Rheoliadau 25 i 33 yn ymwneud â'r trefniadau sy'n berthnasol pan fydd corff GIG Cymru yn ystyried Iawn. Os ystyrir ar unrhyw adeg yn ystod y gwaith o ddelio â phryder ac ymchwilio iddo bod atebolrwydd cymwys yn bodoli, rhaid i’r Corff GIG Cymru benderfynu a ddylid cynnig iawn ai peidio. Dim ond ar ffurf digollediad ariannol lle nad yw'r swm yn fwy na £25,000 y caiff Corff GIG Cymru gynnig iawn am atebolrwydd cymwys.

7.2 Mae iawn yn berthnasol i'r gofal a'r driniaeth y mae cyrff GIG Cymru yn eu darparu. Mae Rheoliadau 34 i 48 yn caniatáu ystyried Iawn hefyd mewn perthynas â gofal a gomisiynir gan ddarparwyr y GIG mewn rhannau eraill o'r DU.

7.3 Mae Iawn yn ymwneud â sefyllfaoedd lle mae'r claf wedi cael ei niweidio o bosibl, a bod y niwed hwnnw wedi cael ei achosi gan gorff GIG Cymru. Mae Iawn yn cynnwys naill ai un neu gyfuniad o'r holl opsiynau canlynol:

- cynnig digolllediad ariannol a/neu driniaeth unioni, ar yr amod na fydd y person yn ceisio mynd ar ôl yr un mater drwy achos sifil arall;
- rhoi esboniad;
- ymddiheuriad ysgrifenedig;
- adroddiad ar y camau sydd wedi cael eu cymryd neu a fydd yn cael eu cymryd i atal pryderon tebyg rhag codi.

7.4 Mae triniaeth unioni'n golygu triniaeth a gynigir i'r claf gyda'r bwriad o geisio gwella ei gyflwr a'i adfer, i'r graddau y bo modd, i'r sefyllfa y byddai wedi bod ynddi pe na bai'r driniaeth y cwynir amdani neu'r gofal esgeulus wedi digwydd.

## Atebolrwydd Cymwys mewn Camwedd

7.5 Dim ond os oes atebolrwydd cymwys mewn camwedd wedi cael ei brofi y gellir ystyried Iawn. Felly, bydd ymchwiliadau'n ceisio profi bod y corff GIG Cymru wedi <u>methu gyda'i ddyletswydd gofal</u> tuag at glaf **a** bod y methiant hwnnw wedi <u>achosi'r niwed y mae'r person wedi'i ddioddef</u>. Dim ond pan fydd y ddau brawf hyn wedi'u bodloni y dylid ystyried taliad digolledu.

7.6 Rhaid gwneud hyn yn glir iawn i gleifion a'u cynrychiolwyr, gan fod pobl yn aml yn credu mai dim ond gofal gwael sydd ei angen er mwyn i'r prawf esgeuluster gael ei fodloni ac er mwyn i ddigolllediad fod yn ddyledus. Fodd bynnag, mae hefyd yn wir fod angen i'r person fod wedi dioddef niwed o ganlyniad (a elwir yn "achosiad niwed"). Mae'n gallu bod yn anodd iawn pennu achosiad, yn enwedig os oedd y claf yn sâl iawn beth bynnag, neu os gallai fod wedi disgwyl rhywfaint o boen neu gymhlethdodau yn ystod ei gyfnod adfer o ganlyniad i driniaeth. Dyma'r adeg pan fydd bron yn sicr angen comisiynu cyngor arbenigol annibynnol.

## 7.7 Atebolrwydd Cymwys – y Gyfraith

<u>Safon y Gofal:</u>

Yn achos arweiniol ***Bolam v Pwyllgor Rheoli Ysbyty Friern***, cytunwyd bod esgeuluster yn golygu peidio â gweithredu yn unol â safonau gweithwyr meddygol rhesymol gymwys ar y pryd. Derbyniwyd y gallai fod un neu fwy o safonau cwbl briodol. Dywedodd y llys:

Nid yw meddyg yn euog o esgeuluster os yw wedi gweithredu yn unol ag arfer a dderbynnir fel arfer priodol gan gasgliad cyfrifol o weithwyr meddygol sy'n fedrus yn y grefft benodol honno...I'w roi fel arall, nid yw meddyg yn esgeulus os yw'n gweithredu'n unol ag arfer o'r fath, dim ond am fod casgliad o safbwyntiau sy'n credu'n wahanol.

Yn achos ***Bolitho v Awdurdod Iechyd y Ddinas a Hackney***, dywedodd y llys bod rhaid iddo fod yn fodlon bod cefnogwyr y casgliad o safbwyntiau y dibynnir arno yn gallu dangos bod sail resymegol dros safbwynt o'r fath. Bydd angen i'r Barnwr, cyn derbyn bod casgliad o safbwyntiau yn gyfrifol, yn rhesymol neu'n gymeradwy, fod yn fodlon bod yr arbenigwyr, wrth ffurfio eu barn, wedi cyfeirio eu meddwl at y risgiau a'r buddion cymharol ac wedi dod i gasgliad y gellir ei amddiffyn ar y mater. Os gellir dangos nad yw'r safbwynt proffesiynol yn gallu gwrthsefyll dadansoddiad rhesymegol, mae gan Farnwr hawl i ddal nad yw'r casgliad o safbwyntiau'n rhesymol nac yn gyfrifol.

Mae safon y gofal a ddisgwylir gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn wrthrychol ac wedi'i theilwra i'r dasg dan sylw. Nid yw'n ystyried diffyg profiad unigolyn.

Wrth benderfynu beth oedd yn ofal rhesymol, bydd y llys yn ystyried y sefyllfa benodol fel ag yr oedd fel rhan hanfodol o holl amgylchiadau'r achos.

<u>Y Safon a'r Baich Profi:</u>

Y safon profi a ddefnyddir mewn achosion esgeuluster meddygol yw "yn ôl yr hyn sy'n debygol" (hynny yw, 51% o debygolrwydd).

Yr Hawlydd sy'n ysgwyddo'r baich dros brofi bod gofal y Diffynnydd, 'yn ôl yr hyn sy'n debygol', yn is na'r safon resymol a dderbynnir.

Achosiad:

Os na chafodd y claf niwed o ganlyniad i dorri'r ddyletswydd gofal, nid oes atebolrwydd cymwys. Rhaid cael cysylltiad achosol rhwng torri'r ddyletswydd a'r niwed y mae'r claf yn cwyno yn ei gylch. Ymchwiliad esboniadol yw hwn yn ei hanfod: sut, mewn gwirionedd, y digwyddodd y niwed? Fel arfer, y prawf "pe na bai" sy'n cael ei ddefnyddio i ateb y cwestiwn.

Yn ôl y rheol gyffredinol, os na fyddai'r niwed i'r claf wedi digwydd "pe na bai" am yr esgeuluster, yna'r esgeuluster sydd wedi achosi'r niwed. Pe bai'r niwed wedi digwydd beth bynnag, nid yr esgeuluster oedd wedi achosi'r niwed.

Mae'r esboniad hwn o rai elfennau o'r gyfraith achosion arweiniol yn y maes hwn yn fyr ac yn sylfaenol, ac ni ddylid dibynnu arno fel disgrifiad cyflawn o'r gyfraith nac yn lle cyngor cyfreithiol. Gellir gofyn am gyngor cyfreithiol gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg.

## Pan nad yw Iawn yn berthnasol

7.8 Does dim modd cynnig Iawn os nad oes atebolrwydd cymwys mewn camwedd. Does dim modd ei gynnig chwaith os yw'r pryder yn destun achos sifil, neu wedi bod yn destun achos o'r fath. Os yw'r person neu ei gynrychiolydd sydd wedi mynegi'r pryder yn dymuno bwrw ymlaen â'i hawliad drwy'r llysoedd a'i fod wedi cychwyn achos sifil, rhaid rhoi'r gorau i ystyried Iawn o dan y Rheoliadau hyn a rhoi gwybod i'r person.

7.9 Nid yw Iawn o dan y Rheoliadau hyn yn ymestyn i ddarparwyr gofal sylfaenol na darparwyr annibynnol.

7.10 Ni ddylid defnyddio'r trefniadau Iawn pan ystyrir yn y cam ymchwilio y byddai swm y digollediad ariannol a fyddai'n cael ei ddyfarnu yn fwy na'r terfyn a nodwyd yn Rheoliad 29, sef £25,000 ar hyn o bryd.

## Atal cyfnod y cyfyngiad dros dro

7.11 Mae Rheoliad 30 yn ymdrin â'r sefyllfa sy’n ymwneud ag atal cyfnod y cyfyngiad dros dro. Os yw'r darpariaethau Iawn yn berthnasol i achos, mae Rheoliad 30 yn caniatáu atal cyfnod y cyfyngiad dros dro, sef yr amser a ganiateir fel arfer i berson ddwyn hawliad cyfreithiol – fel arfer tair blynedd o ddyddiad y driniaeth neu’r digwyddiad y cwynir amdano, neu dair blynedd o’r dyddiad y daeth y person yn ymwybodol o’r mater sy’n destun i’w hawliad.

7.12 Yn ystod y cyfnod ystyried Iawn, bydd cyfnod y cyfyngiad yn cael ei atal dros dro – hynny yw, mae’r “cloc yn stopio”. Mae hyn yn berthnasol o’r dyddiad y daeth y pryder i law’r corff GIG Cymru am y tro cyntaf. Bydd cyfnod atal y cyfyngiad dros dro hefyd yn parhau unwaith y bydd corff GIG Cymru wedi cynnig Iawn o dan Ran 6 neu wedi gwrthod gwneud cynnig o dan Ran 6. Y rheswm dros hynny yw er mwyn sicrhau nad oes neb o dan anfantais, nac yn cael ei atal rhag cymryd camau cyfreithiol, os yw’n anfodlon â chanlyniad yr ymchwiliad Iawn.

7.13 Mae gan y person a'i gynrychiolydd cyfreithiol hyd at 9 mis i dderbyn cynnig o ddigollediad ariannol o ddyddiad y cynnig (yn unol â Rheoliadau 30(3) a 33). Ar ôl 9 mis, bydd cloc y cyfyngiad yn cychwyn rhedeg eto. Os derbynnir y cynnig, rhaid i’r person neu ei gynrychiolydd lofnodi cytundeb ffurfiol a hepgoriad cyfreithiol na fydd yn bwrw ymlaen â'r pryder drwy achos sifil. Mae’r cyfnod o 9 mis o atal cyfnod y cyfyngiad dros dro hefyd yn berthnasol os bydd yn dewis gwrthod y cynnig.

7.14 Mae’n bwysig bod y person neu ei gynrychiolydd yn deall, pan gynigir Iawn ariannol, mai dim ond 9 mis sydd ganddo i ystyried y cynnig. Ar ôl hynny, ni fydd y trefniadau Iawn yn berthnasol mwyach.

7.15 Mae’n bosibl y bydd achosion lle bydd pryder yn cael ei hysbysu pan fydd cyfnod y cyfyngiad ar fin dod i ben, ac na fu’n bosibl cwblhau ymchwiliad. Efallai y bydd y corff GIG Cymru am ystyried cytuno i ymestyn cyfnod y cyfyngiad er mwyn caniatáu iddo gwblhau ei ymchwiliad a darparu ymateb, gan osgoi’r angen i’r claf/Hawlydd posibl gychwyn achos llys.

7.16 Mewn amgylchiadau lle cyfaddefir y gallai fod atebolrwydd cymwys, ac y daw i’r amlwg wedyn y bydd digolledjad ariannol

mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd cymwys yn fwy na £25,000, bydd angen i'r corff GIG Cymru ysgrifennu at y claf neu at gynrychiolydd y claf i ddweud na fydd yn cynnig o iawn o dan y rheoliadau. Bydd y claf yn cael 9 mis o estyniad ar gyfnod y cyfyngiad, o'r dyddiad yr oedd y corff GIG Cymru wedi rhoi gwybod am ei benderfyniad, yn unol â Rheoliad 30 (5).

7.17 Mewn achosion lle mae angen cymeradwyaeth y llys i gynnig setliad, er enghraifft ar gyfer plentyn neu rywun â diffyg galluedd o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, mae cyfnod y cyfyngiad yn cael ei atal nes dod i setliad sy'n cael ei gymeradwyo gan y llys.

7.18 Mewn achosion lle nad oes atebolrwydd ac mae penderfyniad wedi cael ei wneud i beidio â chynnig Iawn, bydd hyn yn cael ei gyfleu i'r person sydd wedi mynegi'r pryder. Mae'n bwysig bod y person neu ei gynrychiolydd yn deall, pan fydd corff GIG Cymru wedi penderfynu nad oes atebolrwydd yn bodoli yn dilyn ymchwiliad a gynhaliwyd yn unol â Rhan 6, mai dim ond 9 mis sydd ganddo cyn y bydd cloc y cyfyngiad yn cychwyn rhedeg eto. Bwriad y cyfnod hwn o 9 mis yw rhoi amser i'r person a hysbysodd y pryder a'i gynghorydd cyfreithiol i baratoi i gychwyn achos sifil os nad yw'n cytuno â phenderfyniad corff GIG Cymru.

## Cyngor cyfreithiol

7.19 Yn unol â Rheoliad 32, pan fydd y trefniadau Iawn yn cael eu defnyddio, bydd cyngor cyfreithiol **di-dâl** ar gael i'r person a hysbysodd y pryder, os bydd y person neu ei gynrychiolydd yn dymuno cael hynny, mewn perthynas â'r canlynol:

- cyfarwyddyd ar y cyd i arbenigwyr clinigol, gan gynnwys eglurhad o faterion sy'n codi o'u hadroddiadau;
- unrhyw Iawn a gynigir yn unol â Rhan 6 o'r Rheoliadau;
- unrhyw achos o wrthod gwneud cynnig; neu
- unrhyw gytundeb setlo a gynigir.

7.20 Dim ond gan gwmni cydnabyddedig o gyfreithwyr sydd ag arbenigedd amlwg ym maes esgeuluster clinigol, ac sydd wedi cael ei achredu gan Gymdeithas y Gyfraith neu gan y Panel Esgeuluster Clinigol (Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol), y gellir gofyn am gyngor cyfreithiol. Gall sefydliadau'r GIG gael y manylion cyswllt oddi ar wefannau'r sefydliadau hyn

a'u rhannu â'r person sydd wedi mynegi'r pryder. Rhaid i gost cyngor cyfreithiol a chlinigol o'r fath gael ei ariannu gan y corff GIG Cymru ac nid gan y person sydd wedi mynegi'r pryder.

7.21 Mae Atodiad O yn cynnwys canllawiau i gyrff GIG Cymru ar gost ffioedd cyfreithiol.

## Ymchwiliad Iawn

7.22 I benderfynu a oes modd cynnig Iawn o dan y Rheoliadau, mae angen gwneud rhywfaint o waith ymchwil ychwanegol, a allai gynnwys yr angen i roi sylw i'r materion canlynol:

*A oes atebolrwydd cymwys*

7.23 Bydd angen penderfynu a oedd yr achos o dorri'r ddyletswydd gofal wedi achosi neu wedi cyfrannu'n sylweddol at y symptomau neu'r cyflwr y mae'r claf yn cwyno amdanynt ar hyn o bryd. Bydd y rhestr wirio sydd wedi'i hatodi yn Atodiad P yn help gyda phob ymchwiliad, ond yn arbennig er mwyn pennu'r materion sy'n ymwneud ag achosiad. Efallai y bydd angen tystiolaeth arbenigol allanol ychwanegol ar gyfer hyn.

*Asesiad cyfredol o gyflwr a phrognosis*

7.24 Gellir cael hyn gan y clinigydd a oedd yn ymwneud â gofal y claf gyda chytundeb y naill barti a'r llall, neu gan arbenigwr annibynnol, neu o gofnodion cyfredol yr ymarferydd cyffredinol.

*Tystysgrif Adfer Digolllediad*

7.25 Rhaid cael Tystysgrif Adfer Digollediad ar y dechrau, sy'n dangos unrhyw fudd-daliadau gwladol sy'n cael eu talu neu allai gael eu talu i'r claf. Os yw'r person wedi bod yn derbyn budd-daliadau penodol, byddai unrhyw enillion a gollwyd a allai fod yn rhan o ddigollediad sydd i'w dalu o dan y Rheoliadau yn gallu cael eu lleihau.

*Mesur unrhyw golled ariannol*

7.26 Bydd unrhyw iawndal a allai fod yn daladwy o dan y Rheoliadau o fewn y terfyn £25,000 yn cynnwys **iawndal cyffredinol** (hynny yw,

i'w dalu am boen, dioddefaint a cholli amwynder) ac **iawndal arbennig** (hynny yw, colled ariannol y gellir ei chyfrifo gyda rhywfaint o gywirdeb, fel enillion a gollwyd, costau gofal a chymorth, ac ati). Rhaid cael manylion y gwariant ar driniaeth ychwanegol, gofal, presgripsiynau a dillad, gydag anfonebau a derbynebau os ydyn nhw ar gael.

7.27 Pan fydd honiad o golli enillion, rhaid cael slipiau cyflog, llythyrau gan gyflogwr, P60, ac ati. Os nad yw'r claf yn gallu rhoi manylion, rhaid gofyn iddo am gyfeiriadau priodol er mwyn i'r ymchwilydd allu cael y manylion angenrheidiol. Rhaid cael prawf o golli enillion.

7.28 Os rhagwelir y bydd y claf yn colli enillion yn y dyfodol bydd angen y dystiolaeth uchod, a dylai'r dystiolaeth feddygol neu'r cyngor arbenigol a gomisiynir gyfeirio at wybodaeth am ragolygon gwaith yn y dyfodol. Dylai'r dystiolaeth o'r golled ariannol wirioneddol gael ei nodi'n glir yn y cynnig o Iawn ariannol, ar wahân i'r cynnig o ddigolllediad am yr anaf/niwed.

7.29 Os bydd y claf yn derbyn y cynnig i gael cyngor cyfreithiol di-dâl, dylai'r holl dystiolaeth uchod gael ei darparu gyda'r adroddiad.

7.30 Gall cyrff GIG Cymru gysylltu â'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg i gael cyngor er mwyn sicrhau eu bod wedi rhoi sylw i'r holl faterion ar y cam hwn.

## Cyfarwyddyd i gynghorwyr arbenigol annibynnol

7.31 Fel y gwelir uchod, mae'n bosibl y bydd angen cyngor arbenigol ar nifer o faterion, gan gynnwys materion sy'n ymwneud ag achosiad, cyflwr a phrognosis a/neu gwantwm er mwyn canfod a oes atebolrwydd cymwys y dylid cynnig Iawn ar ei gyfer. O dan y trefniadau Iawn, dylai unrhyw arbenigwr y gofynnir iddo roi cyngor o dan y Rheoliadau gael cyfarwyddyd **ar y cyd** gan y person sydd wedi mynegi'r pryder a'r corff GIG Cymru. Cysylltwch â'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg i weld y rhestr o gynghorwyr, ar redress@wales.nhs.uk. Dylai'r llythyr templed yn Atodiad J fod o gymorth wrth roi cyfarwyddyd ar y cyd i arbenigwyr.

7.32 Os yw’r person wedi derbyn y cynnig i gael cyngor cyfreithiol am ddim, dylai ei gynghorydd cyfreithiol hefyd gael cyfrannu at gyfarwyddyd yr arbenigwr neu’r arbenigwyr.

## Iawn – Ariannol

7.33 Pan dderbynnir atebolrwydd mewn camwedd, gall corff GIG Cymru gynnig digollediad ariannol nad yw’n fwy na £25,000.

7.34 Os cydnabyddir y bydd unrhyw ddigolllediad ariannol yn fwy na £25,000, **ni ellir** ystyried y pryder o dan y trefniadau Iawn, ac ni ellir cynnig digolledadiad ariannol o dan Ran 6 o'r Rheoliadau.

7.35 Fodd bynnag, cydnabyddir ei bod yn anodd ar ddechrau ymchwiliad o dan Reoliad 23 bod yn sicr ynghylch gwerth ariannol hawliad – gyda rhai achosion a oedd wedi’u cynnwys yn y trefniadau Iawn oherwydd y gred y byddai’r digolledadiad ariannol, os byddai atebolrwydd yn cael ei brofi, werth llai na £25,000, mae’n anochel y daw i’r amlwg, ar ôl ymchwilio, eu bod werth mwy na hynny. Yn yr achosion hyn, mae Rheoliad 29(3) yn darparu y caiff cyrff GIG Cymru ystyried cynnig setliad y tu hwnt i ddarpariaethau’r Rheoliadau – er enghraifft, setliad y tu allan i’r llys. Ar y cam hwn, ac yn unol ag ysbryd y Rheoliadau, gallai cyrff GIG Cymru ystyried cynnig talu costau cyfreithiol y claf sy’n gysylltiedig â chael cyngor ar unrhyw setliad y tu allan i’r llys. Ond, nid oes rheidrwydd arnynt i wneud hynny.

## Tariff

7.36 . Mae’r asesiad o iawndal cyffredinol am boen, dioddefaint a cholli amwynder yn cael ei fesur ar sail cyfraith gwlad yn unig. Cynghorir cyrff GIG Cymru i ymgynghori â'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg i gael help i benderfynu faint o iawndal sydd ynghlwm wrth bryder.

7.37 Wrth gynnig Iawn, rhaid ystyried unrhyw hawliad am iawndal arbennig. Os cynigir Iawn, dylid cofrestru’r mater gyda’r Uned Adfer Digolledadiad i gael gwybod a fydd y corff GIG Cymru yn gyfrifol am unrhyw fudd-daliadau sy’n cael eu talu, ac a oes modd eu gwrthbwyso yn erbyn unrhyw hawliad am iawndal arbennig.

## Iawn – Rhoi hysbysiad o’r penderfyniad

7.38 Yn unol â Rheoliad 33, rhaid i'r corff GIG Cymru roi hysbysiad o’i benderfyniad i naill ai gynnig Iawn ar ffurf digolllediad ariannol, triniaeth neu gyfuniad o'r ddau neu, os nad oedd modd cadarnhau atebolrwydd o ganlyniad i ymchwiliadau a gynhaliwyd yn unol â Rhan 6 o'r Rheoliadau, i beidio â gwneud cynnig.

7.39 Rhaid i’r person sydd wedi mynegi’r pryder, neu ei gynrychiolydd, gael gwybod am y cynnig o Iawn neu’r penderfyniad i beidio â chynnig Iawn o fewn 12 mis i'r dyddiad y cafodd y pryder ei hysbysu i'r corff GIG Cymru. Pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol, mae’r dyddiad yn cyfateb i’r dyddiad y daeth y corff GIG i wybod am y tro cyntaf bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol.

7.40 Mewn amgylchiadau eithriadol, os nad yw’r corff GIG Cymru yn gallu gwneud penderfyniad o fewn y cyfnod o 12 mis, dylai’r rheswm dros yr oedi a dyddiad disgwyliedig y penderfyniad gael eu hegluro'n ysgrifenedig i’r person a hysbysodd y pryder.

7.41 Rhaid rhoi gwybod i’r sawl sydd wedi mynegi’r pryder neu ei gynrychiolydd bod ganddo 6 mis i ymateb i’r cynnig o Iawn neu i’r penderfyniad i beidio â gwneud cynnig.

7.42 Os nad yw’r person neu ei gynrychiolydd, a fynegodd y pryder, yn gallu ymateb i’r penderfyniad o fewn 6 mis, rhaid iddo gysylltu â'r corff GIG Cymru a rhoi esboniad am yr oedi gyda'r ymateb. Gellir wedyn ymestyn y terfyn amser ar gyfer ymateb i’r penderfyniad i 9 mis. Fodd bynnag, os na ddaw ymateb o fewn 9 mis, bydd cyfnod y cyfyngiad yn dechrau eto.

7.43 Os cynigir Iawn, bydd yn cael ei gynnig ar ffurf cytundeb ffurfiol. Drwy dderbyn y cynnig o Iawn, rhaid i’r person neu ei gynrychiolydd lofnodi hepgoriad ar gyfer unrhyw hawl i fynd â’r un pryder, y mae wedi derbyn Iawn ar ei gyfer, i’r llys.

7.44 Mae’n bosibl y bydd angen i setliad Iawn arfaethedig gael ei gymeradwyo gan y llys mewn rhai achosion – er enghraifft, pan fydd atebolrwydd yn ymwneud â phlentyn neu berson â diffyg galluedd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 2005 (1).

7.45 Pan fydd angen i'r llys gymeradwyo setliad Iawn, rhaid i'r corff GIG Cymru dalu'r holl gostau cyfreithiol rhesymol er mwyn cael sêl bendith y llys.

## Iawn – Adroddiad yr Ymchwiliad

7.46 Pan fydd person yn ceisio Iawn, rhaid i ganfyddiadau'r ymchwiliad cael eu cofnodi mewn adroddiad ar yr ymchwiliad. Rhaid i adroddiad yr ymchwiliad, yn unol â Rheoliad 26, gael ei ddarparu i'r person sydd wedi mynegi'r pryder ac sy'n ceisio Iawn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ac o fewn 12 mis i'r dyddiad y cafodd y corff yr hysbysiad o bryder. Pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol, mae'r dyddiad yn cyfateb i'r dyddiad y daeth y Corff GIG i wybod am y tro cyntaf bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol.

7.47 Rhaid i adroddiad yr ymchwiliad gynnwys:

- copïau o unrhyw gyngor arbenigol annibynnol a ddefnyddiwyd i benderfynu a oes atebolrwydd ai peidio;
- datganiad gan y corff GIG Cymru yn cadarnhau a oes atebolrwydd ai peidio;
- y rhesymeg dros y penderfyniad.

7.48 Mae templed o adroddiad yr ymchwiliad ar gael yn Atodiad Q.

7.49 Fodd bynnag, <u>nid oes rhaid</u> i gorff GIG Cymru ddarparu copi o adroddiad yr ymchwiliad:

- cyn cynnig Iawn;
- cyn rhoi hysbysiad o'r penderfyniad i beidio â chynnig Iawn;
- os bydd yr ymchwiliad Iawn yn cael ei derfynu am unrhyw reswm; neu
- os yw'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth sy'n debygol o achosi niwed neu drallod sylweddol i'r person neu i rywun arall sy'n ceisio Iawn.

## Adroddiadau ymchwiliad sy'n cymryd mwy na'r terfyn amser o 12 mis

7.50 Os nad oes modd darparu adroddiad ar yr ymchwiliad o fewn y terfyn amser a osodwyd, sef 12 mis, rhaid rhoi gwybod i'r person sydd wedi mynegi'r pryder beth yw'r rheswm dros yr oedi ynghyd â dyddiad disgwyliedig yr ymateb.

## Adran 8 – Talu Digolledu Ariannol

### Rhan 1: Crynodeb

8.1 Mae'r adran hon o'r canllawiau'n disodli Cylchlythyr Iechyd Cymru (97)17. Ei nod yw:

- Egluro'r amodau lle gall Cyrff Cyfrifol ddelio â phryderon a setlo pryderon (hynny yw, hawliadau am ddigolledu ariannol) sy'n cael eu dwyn yn eu herbyn yn sgil unrhyw achos o esgeuluster;
- Hyrwyddo arferion da a darbodus wrth ddelio â phryderon yn erbyn y GIG;
- Rhoi sicrwydd bod dysgu o ddigwyddiadau, gyda'r nod o wella safonau o ran diogelwch cleifion, yn cael sylw blaenllaw.

8.2 Y terfyn dirprwyedig sy'n galluogi Cyrff Cyfrifol i ddelio â phryderon a setlo pryderon am ddigolledu ariannol mewn perthynas â phob achos o esgeuluster clinigol a niwed personol yw £1 miliwn. Hyd at y terfyn hwn, nid oes angen i setliadau arfaethedig gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo, ar yr amod bod yr adran hon yn cael ei dilyn a bod yr amodau wedi'u bodloni ar gyfer arfer yr awdurdod dirprwyedig.

8.3 Rhaid i bob taliad digolledu ariannol sy'n deillio o unrhyw achos o esgeuluster fodloni gofynion awdurdod dirprwyedig Llywodraeth Cymru i Gyrff Cyfrifol.

8.4 At ddibenion yr adran hon, bydd y canlynol gyda'i gilydd yn cael eu galw'n 'hawliadau digolledu';

- Pryderon sy'n ymwneud ag atebolrwydd cymwys mewn camwedd sy'n cael eu datrys drwy setlo iawndal hyd at uchafswm o £25,000 o dan drefniadau Iawn;
- Pryderon (hynny yw, hawliadau am esgeuluster) sy'n fwy na £25,000, a hawliadau ffurfiol am esgeuluster sy'n llai na £25,000, sy'n cael eu datrys yn unol â'r Protocolau Cyn-cyfreitha perthnasol a'r Rheolau Trefniadaeth Sifil.

8.5 I sicrhau y cydymffurfir â'r awdurdod dirprwyedig, dylai Prif Weithredwyr y Cyrff Cyfrifol sicrhau:

- bod gweithdrefn a pholisi pryderon eu sefydliad hefyd yn cynnwys trin hawliadau digolledu a gymeradwywyd gan y Bwrdd neu is-grŵp neu bwyllgor â'r awdurdod priodol, sy'n cydymffurfio â'r safonau a'r amodau a nodwyd yn yr adran hon. Bydd hyn yn cynnwys mabwysiadu dull systematig o drin hawliadau yn unol â'r arferion gorau cyfredol ac, yn enwedig ar gyfer achosion esgeuluster clinigol, unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru neu Wasanaethau Cronfa Risg Cymru;
- bod pob hawliad digolledu yn cael ei adolygu pan ddaw methiannau i'r amlwg neu, ar yr hwyraf, pan fydd atebolrwydd yn cael ei gydnabod a'i adolygu eto ar ôl terfynu, a bod gan y Corff Cyfrifol weithdrefn fanwl addas ar waith ar gyfer dysgu o ddigwyddiadau lle gellir sianelu methiannau o'r fath i sicrhau bod cynlluniau gweithredu priodol yn cael eu datblygu, eu monitro, eu gwerthuso a'u harchwilio er mwyn gofalu bod unrhyw gamau unioni angenrheidiol yn cael eu cymryd a bod unrhyw wersi cyffredinol yn cael eu lledaenu. Dylai'r broses dysgu o ddigwyddiadau gynnwys proses adolygiad llywodraethu er mwyn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod y gwersi wedi cael eu dysgu a'u bod ar waith. Ar ben hynny, bod y rhestr wirio berthnasol yn Atodiad S yn cael ei llenwi gan y rheolwr neu'r cyfarwyddwr cyfrifol ar gyfer pob setliad a awdurdodir gan y Corff Cyfrifol, a bod y camau a gymerir yn cael eu monitro at ddibenion gweithredu drwy'r gweithdrefnau dysgu o ddigwyddiadau;
- bod y Bwrdd yn gweld adroddiadau rheolaidd ar nifer a gwerth cyfunol yr hawliadau digolledu sydd ar y gweill, ar eu canlyniad yn y pen draw, ac ar unrhyw gamau unioni sydd wedi cael eu cymryd neu eu cynnig;
- bod y polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan Wasanaethau Cronfa Risg Cymru drwy ei Safon berthnasol, ac fel y bo'n briodol gan Archwiliad Mewnol o dan oruchwyliaeth Pwyllgor Archwilio'r Corff Cyfrifol.

8.6 Mae'r ddirprwyaeth hon yn amodol ar Gyrff Cyfrifol yn cyrraedd y safonau sylfaenol ar gyfer trin hawliadau, sy'n ofynnol ar gyfer aelodau ar hyn o bryd o dan Safon berthnasol Gwasanaethau

Cronfa Risg Cymru. Mae'r safonau sylfaenol ar gyfer trin hawliadau sylfaenol wedi'u nodi yn Rhan 2 isod.

8.7 Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cael sicrwydd gan Wasanaethau Cronfa Risg Cymru bod Cyrff Cyfrifol yn cydymffurfio â'r amodau a'r safonau hyn. Pan fydd Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru yn adolygu unrhyw achosion sy'n cael eu hystyried yn rhai nad ydynt yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn cael ei hysbysu a bydd achosion o'r fath yn cael eu trin fel colledion sy'n gofyn am ôl-gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru (os yw'n briodol) neu am gamau adfer/dileu.

8.8 Bydd angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru o hyd ar gyfer unrhyw hawliadau digolledu sy'n codi nodweddion newydd, dadleuol neu ôl-weithredol, ac os bydd amheuaeth dylai Cyrff Cyfrifol ymgynghori â Llywodraeth Cymru i gael cyngor.

8.9 Mae Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru yn gynllun gwirfoddol sy'n galluogi Cyrff Cyfrifol i gyfuno costau setliadau esgeuluster clinigol bob blwyddyn, yn amodol ar drefniadau brigdorri Llywodraeth Cymru. Mae Cyrff Cyfrifol, p'un a ydynt yn ceisio cael cymorth ariannol gan Wasanaethau Cronfa Risg Cymru ai peidio, yn dal yn gwbl gyfrifol am drin yr hawliad digolledu, ac mae ganddynt **awdurdod llawn i setlo** unrhyw hawliad digolledu yn amodol ar y terfyn dirprwyedig a'r amodau a nodwyd yn y canllawiau hyn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd ad-daliad o dan y cynllun yn cael ei wrthod, ei ohirio neu ei ddal yn ôl os na fydd y Corff Cyfrifol wedi:

- rhoi gwybod i Wasanaethau Cronfa Risg Cymru am yr hawliad digolledu a chwantwm rhagamcanol y setliad a'i ddyddiad cyn gynted â phosibl;
- bodloni'r safon ofynnol berthnasol a gyhoeddwyd gan Wasanaethau Cronfa Risg Cymru;
- cydymffurfio â gofynion Gweithdrefnau Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru ar gyfer cyflwyno hawliadau digolledu am ad-daliad;
- cydymffurfio â'r amrywiol Nodiadau Technegol a Briffio a gyhoeddwyd gan Wasanaethau Cronfa Risg Cymru.

## Rhan 2: Amodau Awdurdod Dirprwyedig

## Cyffredinol

8.10 Rhaid i unrhyw Gorff Cyfrifol sy'n dymuno gwneud taliad digolledu i ddatrys atebolrwydd cymwys mewn camwedd, neu ddefnyddio'r terfynau dirprwyedig, fabwysiadu'r safonau sylfaenol a nodwyd isod. Os na ddilynir y safonau hyn, rhaid i'r holl setliadau arfaethedig sy'n uwch na'r terfyn dirprwyedig cyffredinol o £50,000 ar gyfer taliadau **ex gratia** eraill gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i gael eu cymeradwyo.

## Datganiadau polisi

8.11 Rhaid i Gyrff Cyfrifol gael polisi ysgrifenedig ar drin hawliadau esgeuluster meddygol a digolledu am niwed personol, sydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd neu bwyllgor sydd â'r awdurdod priodol. Gall fod yn bolisi annibynnol neu'n bolisi sydd wedi'i gynnwys ym mholisi'r Corff Cyfrifol ar Weithio i Wella. Rhaid i'r polisi roi sylw i'r pwyntiau isod o leiaf.

## Cyfrifoldeb ar lefel bwrdd

8.12 Er mai Prif Weithredwr pob Corff Cyfrifol sy'n gyfrifol yn y pen draw am hawliadau digolledu, mae'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau rheoli o ddydd i ddydd yn gallu cael eu dirprwyo i aelod bwrdd ar lefel Cyfarwyddwr sydd â chyfrifoldeb clir dros y materion hyn, ac a fydd yn rhoi gwybod i'r Bwrdd am ddatblygiadau pwysig.

## Arbenigwyr hawliadau digolledu

8.13 Er bod Cyrff Cyfrifol yn defnyddio teitlau gwahanol i ddisgrifio eu 'harbenigwr hawliadau', rhaid i'r Corff Cyfrifol gael aelodau dynodedig o staff wrth law sydd â gwybodaeth arbenigol, arbenigedd, cymwysterau a phrofiad ac sy'n gwneud hyfforddiant parhaus ym maes rheoli hawliadau digolledu am esgeuluster. Dylai'r aelodau hynny o'r staff allu dangos y gallu i adrodd yn uniongyrchol neu drwy strwythur priodol i'r aelod cyfrifol o'r Bwrdd, a dylent naill ai fod ar lefel ddigon uchel i gael dylanwad yn y sefydliad a chael y statws i wneud hynny, neu fod strwythur y sefydliad yn ddigonol i sicrhau bod hynny'n digwydd.

## Cyngor cyfreithiol cymwys

8.14 Bydd gan y Corff Cyfrifol bolisi clir ar yr amgylchiadau pan fydd yn cael cyngor cyfreithiol cymwys. Beth bynnag fo'r polisi a bennwyd yn lleol, **rhaid** cael cyngor cyfreithiol cymwys ar gam priodol bob tro ym mhob hawliad digolledu sy'n cynnwys gwariant a allai fod yn uwch na'r terfyn dirprwyedig safonol ar gyfer taliadau ariannol, sef £50,000, ac mewn unrhyw achos cyn gwneud unrhyw gynnig pendant i setlo'r hawliad digolledu. Dylai hyn gynnwys asesu a rhoi cyngor ar y canlynol:

- atebolrwydd ac achosiad;
- cryfder yr amddiffyniad a'r hyn sy'n debygol;
- cwantwm tebygol yr iawndal, gan gynnwys yr achos gorau a'r achos gwaethaf;
- costau tebygol amddiffyn yr hawliad digolledu.

8.15 Y Bwrdd neu bobl eraill o fewn y terfynau dirprwyedig ddylai wneud y penderfyniad terfynol i geisio negodi setliad neu i barhau i amddiffyn hawliad digolledu.

8.16 Bydd Cyrff Cyfrifol am gofio y dylid ystyried bod gan y rheini sy'n eu cynghori mewn unrhyw rinwedd ddyletswydd gofal tuag atynt. Efallai y byddant felly am sicrhau bod eu cynghorwyr mewn sefyllfa i fodloni unrhyw atebolrwydd posibl.

## Cynnwys staff rheng flaen

8.17 Dylid cael gweithdrefnau clir ar gyfer cynnwys staff rheng flaen, yn enwedig staff gofal iechyd proffesiynol, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â thriniaeth a gofal y claf, y mae'n hanfodol cael eu cydweithrediad os am amddiffyn hawliadau digolledu'n llwyddiannus neu ddysgu gwersi'n effeithiol.

## Y weithdrefn ar gyfer trin hawliadau digolledu

8.18 Y cysyniad sydd wrth wraidd Gweithio i Wella yw sicrhau un broses ymchwilio gymesur integredig sy'n cysylltu digwyddiadau, cwynion a hawliadau digolledu.

8.19 Dylai'r weithdrefn a ddogfennwyd ar gyfer trin hawliadau digolledu roi sylw i'r agweddau canlynol:

- creu cofnod o'r hawliad digolledu a chynnal system adolygu;
- creu adroddiad gwrthrychol o'r digwyddiad gwreiddiol, gan roi pwyslais priodol ar atgofion y staff dan sylw;
- nodi a chynnal yr holl gofnodion sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad;
- creu a chynnal cysylltiad â'r holl staff a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad gwreiddiol;
- cael "barn arbenigol" yn fewnol ar yr hawliad digolledu ac, os yw'n briodol, sicrhau tystion arbenigol allanol addas;
- prisiad cychwynnol yr hawliad digolledu;
- rhoi cyfarwyddyd i'r cyfreithwyr, briffio cwnsleriaid a monitro eu costau;
- negodi setliadau y tu allan i'r llys a'r terfynau dirprwyedig sy'n berthnasol;
- ar gyfer achosion niwed personol, cydweithio â'r yswirwyr a'u cyfreithwyr;
- ar gyfer setliadau mwy, ystyried a yw taliadau cyfnodol yn opsiwn priodol;
- cydweithio â Chronfa Risg Cymru a chydymffurfio â'r Weithdrefn Ad-dalu bresennol;
- prosesau i ganfod yn gynnar unrhyw weithdrefnau neu agweddau ar ymarfer clinigol sy'n galw am gamau unioni, gan gynnwys adolygiad systematig o'r holl achosion ar ôl eu terfynu;
- dyrannu cyfrifoldeb clir dros gyflawni unrhyw gamau unioni angenrheidiol yn unol â gweithdrefn benodol ar gyfer dysgu o ddigwyddiadau a lledaenu unrhyw wersi ehangach, o fewn y bwrdd iechyd neu'r ymddiriedolaeth ac yn ehangach pan fydd hynny'n briodol;
- trefniadau dadansoddi hawliadau digolledu yn erbyn y Corff Cyfrifol, yn enwedig tueddiadau a phatrymau sy'n dod i'r amlwg sydd â goblygiadau o ran diogelwch cleifion a rheoli risg;
- trefniadau i adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd neu i is-grŵp neu bwyllgor o'r Bwrdd sydd â'r awdurdod priodol, ar hawliadau digolledu unigol ynghyd â rhai cyfunol; ac yn benodol, i sicrhau sêl bendith y Bwrdd ar gynigion ar gyfer setliad y tu hwnt i'r terfynau dirprwyedig.

## Cronfa ddata hawliadau digolledu

8.20 Bydd y Corff Cyfrifol yn cynnal cronfa ddata sy’n cynnwys gwybodaeth berthnasol am bob hawliad digolledu. Dylid cymryd gofal er mwyn cadw cyfrinachedd cleifion a staff.

## Terfynau dirprwyedig

8.21 Bydd y Bwrdd yn cytuno ar yr amgylchiadau, gan gynnwys terfynau ariannol dirprwyedig, lle mae setliadau’n gallu cael eu cymeradwyo (a) gan y cyfarwyddwr cyfrifol, (b) gan staff perthnasol, (c) is-grŵp o’r bwrdd. Yn achos hawliadau digolledu sydd y tu hwnt i’r terfynau dirprwyedig, dylai’r Bwrdd gytuno, fesul achos, ar ystod o werthoedd setliad posibl y mae gan y cyfarwyddwr a/neu staff perthnasol y disgresiwn i’w negodi. Dylid cofio ei bod yn bosibl, oherwydd natur y broses gyfreithiol, y bydd rhaid penderfynu ar fyr rybudd a ddylid derbyn setliad ai peidio.

## Hawliadau digolledu sy'n “niwsans”

8.22 Dylai cyrff cyfrifol osgoi setlo achosion lle mae amheuaeth ynghylch eu teilyngdod, dim ots pa mor fach ydyn nhw, ar sail “niwsans” yn unig. Dylai’r penderfyniad i setlo achos neu ei herio fod yn seiliedig bob amser ar asesiad o’r risg o golli a’r gost, ar ffurf ffioedd cyfreithiol, o barhau.

## Adroddiadau i'r Bwrdd

8.23 Bydd y Bwrdd neu’r is-grŵp neu’r pwyllgor sydd â'r awdurdod priodol yn cael adroddiadau rheolaidd ar y canlynol:

- nifer a gwerth cyfunol yr hawliadau digolledu, a manylion unrhyw hawliadau digolledu unigol mawr;
- hynt a chanlyniad tebygol yr hawliadau digolledu hyn, gan gynnwys dyddiad disgwyliedig y setliad;
- canlyniad terfynol yr hawliad digolledu;
- unrhyw gamau unioni arfaethedig sy'n deillio o hawliadau digolledu penodol.

8.24 Bydd angen dadansoddi'r adroddiadau hyn yn fanwl er mwyn i'r Bwrdd allu ffurfio barn ar dueddiadau a ddaw i'r amlwg.

## Taliadau newydd, dadleuol neu ôl-weithredol

8.25 Er gwaethaf yr agwedd gyffredinol at ddirprwyo yn y canllawiau hyn, dylid parhau i gyfeirio pob hawliad digolledu sy'n cynnwys gwariant "newydd, dadleuol neu ôl-weithredol" at Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Yr achosion mwyaf tebygol yw hawliadau digolledu:

- sy'n cynnwys nodwedd anarferol a newydd a allai osod cynsail anffodus ar gyfer achosion eraill o ymgyfreitha yng nghyswllt y GIG os na fyddant yn cael sylw priodol;
- sydd, yn ôl pob golwg, yn cynrychioli achosion prawf ar gyfer cyd-achos posibl, neu achosion sydd – er nad ydynt yn rhan ffurfiol o gyd-achos – yn ymddangos yn debyg iawn eu natur i hawliadau digolledu cydamserol yn erbyn Cyrff Cyfrifol eraill.

8.26 Dylai Cyrff Cyfrifol sy'n wynebu hawliad digolledu a allai ddod o dan un o'r categorïau hyn gysylltu â Llywodraeth Cymru i gael cyngor.

## Cyfrifoldebau Adrodd

8.27 Dylai pob taliad i setlo hawliadau digolledu gael ei gofnodi yng nghofrestr colledion a thaliadau arbennig y Corff Cyfrifol. Os yw'r taliad wedi cael ei ariannu'n rhannol gan Wasanaethau Cronfa Risg Cymru, dylid nodi hyn yn y gofrestr.

8.28 Os bydd Corff Cyfrifol yn penderfynu setlo hawliad digolledu o dan yr awdurdod dirprwyedig sydd wedi cael ei amlinellu yn y canllawiau hyn, dylid cymryd y camau canlynol:

- Os nad yw cyfanswm y gwariant yn fwy na £25,000, dylid llenwi'r rhestr wirio yn Atodiad T a'i chyflwyno i Wasanaethau Cronfa Risg Cymru o fewn 56 diwrnod i gwblhau. Efallai y bydd rhaid i'r Corff Cyfrifol, fel rhan o broses asesu Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru, ddangos tystiolaeth o'i adolygiad o'r hawliad digolledu ar ôl terfynu, a sut mae wedi nodi a gweithredu ar unrhyw wersi sy'n deillio o'r hawliad digolledu;

- Os yw cyfanswm y gwariant yn fwy na £25,000, dylid llenwi'r rhestr wirio yn Atodiad U yn unol â Gweithdrefn Ad-dalu Hawliadau Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru.

8.29 Dylai'r archwilwyr mewnol archwilio'n flynyddol hapsampl priodol o hawliadau digolledu a gyflwynwyd i Wasanaethau Cronfa Risg Cymru.

8.30 Hefyd, bydd Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru yn trefnu i archwilio sampl o hawliadau digolledu fel rhan o'i adolygiad o Safon berthnasol Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru.

# Adran 9 – Adrodd ar Ddigwyddiadau Difrifol ac Ymchwilio iddynt

## Cyflwyniad

9.1 Mae'r adran hon yn y canllawiau yn ymdrin yn benodol â'r trefniadau adrodd ar gyfer pryderon sy'n ddigwyddiadau difrifol sy'n ymwneud â diogelwch cleifion (cyfeirir atynt fel digwyddiadau difrifol yng ngweddill yr adran hon), ac mae'n disodli llythyrau a chanllawiau blaenorol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch adrodd ar ddigwyddiadau andwyol difrifol sy'n ymwneud â chleifion. Hefyd, dylid darllen yr adran hon ar y cyd ag Adran 6 y canllawiau, trin ac ymchwilio i bryderon.

## Diffiniad o ddigwyddiad difrifol

9.2 Mae digwyddiad difrifol yn cael ei ddiffinio[13] fel digwyddiad yn ystod gofal iechyd a ariennir gan y GIG (gan gynnwys yn y gymuned) a arweiniodd at un neu ragor o'r canlynol;

- marwolaeth annisgwyl neu yr oedd modd ei hosgoi neu niwed difrifol i un neu fwy o gleifion, aelodau staff neu'r cyhoedd;
- digwyddiad "byth" – mae pob digwyddiad "byth" yn cael ei ddiffinio fel digwyddiad difrifol, er nad yw pob digwyddiad "byth" o reidrwydd yn arwain at niwed difrifol neu farwolaeth (edrychwch ar y *Fframwaith Digwyddiadau "Byth"*);
- sefyllfa sy'n atal, neu'n bygwth atal, gallu sefydliad i barhau i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, gan gynnwys colli data,

[13] *National Framework for Reporting and Learning from Serious Incidents Requiring Investigation NPSA 2010*

difrod i eiddo neu ddigwyddiadau mewn rhaglenni poblogaeth fel sgrinio ac imiwneiddio lle gallai niwed ymestyn i boblogaeth fawr o bosibl;

- honiadau, neu achosion, o gam-drin corfforol ac ymosodiad neu gam-drin rhywiol; a/neu
- colli hyder yn y gwasanaeth, sylw anffafriol yn y cyfryngau neu bryder cyhoeddus am ofal iechyd neu sefydliad.

9.3 Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau difrifol y mae'n rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru amdanynt yn cynnwys y canlynol, ymysg eraill:

- Marwolaethau lle mae haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (gan gynnwys Clostridiwm difficile a Staffylococws awrëws sy'n gwrthsefyll Methisilin) yn cael ei grybwyll ar y dystysgrif marwolaeth fel un ai achos sylfaenol y farwolaeth neu ffactor cyfrannol;
- Brigiad o achosion o haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd mewn ysbyty sy'n tarfu'n sylweddol ar y ddarpariaeth (Nodyn: edrychwch hefyd ar Dim Syrpréis);
- Briwiau pwyso gradd 3 neu 4 yn ôl *System Ddosbarthu Panel Ymgynghorol Ewrop ar Friwiau Pwyso*, sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau lle mae claf yn datblygu briw neu friwiau pwyso mewn lleoliad gofal iechyd a ariennir gan y GIG; yn cael ei dderbyn gyda briw neu friwiau pwyso o leoliad gofal iechyd arall a ariennir gan y GIG neu o'r gymuned, ac yn derbyn gofal iechyd a ariennir gan y GIG;
- Amheuaeth o hunanladdiad/marwolaeth annisgwyl claf iechyd meddwl (gan gynnwys gwasanaethau cymunedol a chleifion mewnol);
- Digwyddiadau hunan-niweidio sydd wedi'u categoreiddio fel rhai 'difrifol' o dan y *Fframwaith Graddio ar gyfer ymdrin â Phryderon*;
- Derbyn plentyn o dan 18 oed i ward iechyd meddwl ar gyfer oedolion;
- Claf sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn absennol heb ganiatâd (cofiwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru ar ôl dod o hyd i'r claf);
- Marwolaethau Ffetws yn y Groth os oes arwydd cynnar bod y farwolaeth yn gysylltiedig ag ymarfer bydwreigiaeth/obstetreg;
- Marwolaethau mamau;
- Claf yn syrthio sy'n arwain at farwolaeth neu niwed difrifol;

- Digwyddiadau ymbelydredd sy'n arwain at gleifion yn cael dos llawer mwy na'r bwriad o ymbelydredd (Nodyn: mae angen rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Llywodraeth Cymru am y digwyddiadau hyn, gan ddefnyddio'r Ffurflen Rhoi Gwybod am Ddigwyddiad IR(ME)R - edrychwch ar Atodiad U).

## Digwyddiadau "Byth"

9.4 Mae'r holl Ddigwyddiadau "Byth" yn cael eu diffinio fel digwyddiadau difrifol, a rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru amdanynt yn unol â'r broses a ddisgrifir isod o dan 'Trefniadau rhoi gwybod am ddigwyddiadau difrifol'.

9.5 Dylai sefydliadau'r GIG sicrhau bod holl staff y GIG yn ymwybodol o ddigwyddiadau difrifol sy'n cael eu hystyried yn Ddigwyddiadau "Byth", a'r angen i roi gwybod amdanynt yn unol â pholisïau lleol ar roi gwybod am ddigwyddiadau. Felly, dylid rhoi gwybod am Ddigwyddiadau "Byth" drwy systemau lleol i'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu (NRLS) a system Llywodraeth Cymru ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau difrifol. Yn genedlaethol, bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chasglu er mwyn nodi gwersi ar y cyd ac unrhyw gamau y mae angen eu cymryd. Dylai Digwyddiadau "Byth" a'r camau a gymerwyd eisoes gael eu trafod ar lefel Bwrdd. Bydd yn rhaid i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Datganiadau Ansawdd Blynyddol o 2012/13 ymlaen.

## Trefniadau rhoi gwybod am ddigwyddiadau difrifol

9.6 Rhaid i gyrff GIG Cymru sicrhau bod staff a chontractwyr yn ymwybodol o bolisïau/prosesau lleol ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Rhaid rhoi gwybod i PatientSafety.Wales@wales.nhs.uk gan ddefnyddio **Ffurflen Digwyddiad Difrifol 1** (edrychwch ar Atodiad W), am bob digwyddiad difrifol y mae'n rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru amdanynt. Pan fydd yn bosibl, dylid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru o fewn 24 awr i'r digwyddiad.

9.7 Wrth lenwi'r ffurflen, cofiwch:

- Lenwi pob blwch ar y ffurflen gyda chymaint o wybodaeth a manylion â phosibl (ond peidiwch â chynnwys manylion sy'n datgelu pwy yw'r claf na'r aelod staff);

- Esbonio pam y bu oedi cyn rhoi gwybod am y digwyddiad, os yw hynny'n berthnasol;
- Nodi'n glir a oes Bwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth arall/Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn gysylltiedig â'r digwyddiad, a pha sefydliadau GIG fydd yn arwain yr ymchwiliad;
- Peidio â defnyddio talfyriadau na byrfoddau;
- Diogelu pob ffurflen â chyfrinair;
- Gwneud yn siŵr bod pob ffurflen yn cael ei llofnodi gan y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr Gweithredol.

9.8 Os gallai'r digwyddiad difrifol gael llawer o sylw yn y cyfryngau, peidiwch ag oedi cyn cyflwyno'r ffurflen. Fodd bynnag, os bydd hyn yn digwydd y tu allan i oriau, (hynny yw, cyn 8am ac ar ôl 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener neu ar benwythnosau) cysylltwch â swyddfa'r wasg Llywodraeth Cymru drwy ffonio 029 2089 8099.

9.9 O fewn un diwrnod gwaith i dderbyn ffurflen digwyddiad difrifol, bydd Llywodraeth Cymru yn anfon cydnabyddiaeth dros e-bost at y sefydliad, a fydd yn cynnwys cyfeirnod Llywodraeth Cymru. Defnyddiwch y cyfeirnod hwn ym mhob gohebiaeth.

9.10 Bydd yr e-bost yn cynnwys gradd gychwynnol y digwyddiad, ynghyd ag amserlen ar gyfer cyflwyno ymchwiliad. Mae gradd y digwyddiad at ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig, ac ni ddylid ei drysu â'r radd Gweithio i Wella.

9.11 Yn ogystal â threfniadau Digwyddiadau Difrifol Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i Gyrff GIG Cymru roi gwybod i'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu am bob digwyddiad diogelwch cleifion (ni waeth beth yw difrifoldeb na gradd y niwed). Bydd hyn yn llywio'r gwaith o flaenoriaethu a datblygu atebion diogelwch, gan gynnwys rhybuddion a chanllawiau.

9.12 Nid yw'r trefniadau rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru a'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu am ddigwyddiadau difrifol yn disodli'r gofyniad i roi gwybod i gyrff eraill yn ôl yr angen, fel:

- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru;
- Mothers and Babies - Reducing Risk through Audits and Confidential Enquiries (MBRRACE-UK);
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch;

- Yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA);
- Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol;
- Yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol;
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth;
- Yr Heddlu;
- Crwner EF.

Os yw'n briodol, bydd angen i Gyrff unigol GIG Cymru fod yn ymwybodol o'r angen i roi gwybod i Gyrff eraill GIG Cymru a/neu Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru os yw'n wasanaeth arbenigol a gomisiynir.

## Trefniadau adrodd Dim syrpréis

9.13 Mewn rhai achosion, efallai na fydd digwyddiadau'n arwain at niwed uniongyrchol i glaf/cleifion ond gallant effeithio ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu neu ar enw da'r sefydliad, gan gynnwys sylw anffafriol yn y cyfryngau. Mewn achosion o'r fath, dylid cyflwyno hysbysiad dim syrpréis yn unol â'r broses ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau difrifol, ond gan ddefnyddio **Ffurflen Digwyddiad Difrifol 2** (edrychwch ar Atodiad W).

## Ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol a diweddariadau

9.14 Dylid cynnal ymchwiliad dadansoddi gwraidd y broblem ar bob digwyddiad difrifol. Ar ôl iddo gael ei gwblhau a'i gymeradwyo gan bwyllgor perthnasol y sefydliad, rhaid anfon crynodeb terfynu digwyddiad i PatientSafety.Wales@wales.nhs.uk gan ddefnyddio **Ffurflen Digwyddiad Difrifol 3** (gweler Atodiad X). Rhaid iddo gynnwys canfyddiadau, argymhellion a gwersi a nodwyd ar gyfer y sefydliad. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y byddwn yn gofyn am gopi o adroddiad yr ymchwiliad yn ogystal â ffurflen y crynodeb terfynu digwyddiad. Rydym yn disgwyl cael ffurflenni terfynu o fewn 3 neu 6 mis fel y nodwyd. Dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau bod "digwyddiadau byth" yn cael eu hymchwilio'n brydlon.

9.15 Mae'n bwysig cytuno ar drefniadau addas a'u rhoi ar waith er mwyn i'r sefydliad arweiniol ddiweddaru a rhannu gwybodaeth â'r holl gyrff perthnasol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Yn achos ymchwiliad ar y cyd a phan fydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau,

bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r sefydliad arweiniol gyflwyno ffurflen crynodeb cyfunol ar gyfer terfynu digwyddiad (hynny yw, yn cynnwys canfyddiadau sefydliadau eraill) yn unol â'r trefniadau a nodwyd yn 9.14 uchod.

## Dysgu o ddigwyddiadau difrifol

9.16 Rhaid defnyddio canlyniad unrhyw ymchwiliad i gynyddu'r cyfleoedd i ddysgu, gwella ansawdd a gwella diogelwch cleifion. Dylai hyn fod yn elfen allweddol o'n hymdrechion cyffredinol i leihau digwyddiadau andwyol a niwed y gellir ei osgoi i gleifion/defnyddwyr gwasanaeth, yn unol â nodau'r rhaglen 1000 o Fywydau a Mwy a blaenoriaethau lleol sefydliadau. Yn ogystal â dysgu ar lefel leol, disgwylir i sefydliadau gyfrannu at y cyfleoedd ehangach i ddysgu ar y cyd. Dylid sôn am hynny wrth lenwi'r ffurflen terfynu digwyddiad.

9.17 Bydd materion a gwersi sy'n deillio o ddigwyddiadau yn cael eu hystyried yn y Fforwm Ansawdd a Diogelwch Cenedlaethol er mwyn penderfynu ar unrhyw gamau y mae angen eu cymryd, yn enwedig ar lefel genedlaethol. Bydd adroddiadau rheolaidd hefyd yn cael eu llunio ar gyfer Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru a'r tîm gweithredol, i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu polisïau a blaenoriaethau.

## Trefniadau Monitro

9.18 Bydd cydymffurfedd â'r broses rhoi gwybod am ddigwyddiadau difrifol yn cael ei ystyried fel rhan o drefniadau monitro Fframwaith Cyflawni'r GIG.

9.19 Gall methiant parhaus i gydymffurfio â'r broses ymchwilio a rhoi gwybod am ddigwyddiadau difrifol arwain at uwchgyfeirio o fewn y fframwaith cyflawni. Felly, mae'n hanfodol bod cyswllt rhagweithiol rhwng y corff GIG Cymru a Llywodraeth Cymru ynghylch pob agwedd ar y broses rhoi gwybod am ddigwyddiadau.

## Adroddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

9.20 Mae copi o bob adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cael ei anfon i'r Tîm Gwella Diogelwch Cleifion ar yr un pryd ag y mae'n cael ei anfon i'r corff GIG Cymru dan sylw.

9.21 **Adroddiadau Adran 21:** Nid oes angen i sefydliadau'r GIG roi gwybod i ni fel mater o drefn am y camau maen nhw wedi'u cymryd i gyflawni argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon mewn adroddiadau adran 21. Fodd bynnag, gan ddibynnu ar y materion a nodwyd, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn am yr wybodaeth hon.

9.22 **Adroddiadau Adran 16:** Byddwn bob amser yn gofyn am gadarnhad o'r camau a gymerwyd i fodloni'r argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon mewn adroddiadau adran 16.

### Adroddiad Atodlen 5 y Crwner

9.23 Mae copi o holl adroddiadau Atodlen 5 y Crwner yn cael eu hanfon i'r Tîm Gwella Diogelwch Cleifion ar yr un pryd ag y maen nhw'n hanfon i'r corff GIG Cymru dan sylw.

9.24 O fewn tri diwrnod gwaith i gael adroddiad Atodlen 5, bydd y Tîm Gwella Diogelwch Cleifion yn anfon e-bost i'r sefydliad yn cadarnhau ei fod wedi cael yr adroddiad.

9.25 Bydd angen i sefydliadau'r GIG gyflwyno copi o'r ymateb i'r Crwner i PatientSafety.Wales@wales.nhs.uk. Rhaid i'r e-bost eglurhaol gyfeirio at gyfeirnod y digwyddiad difrifol os yw'n berthnasol.

## Adran 10 – Trefniadau Trawsffiniol ar gyfer ystyried iawn

Daeth Rhan 7 o'r rheoliadau i rym ar 1 Ebrill 2012.

10.1 Yn gyffredinol dylid ymdrin â phryderon (a chwynion) am ofal a thriniaeth, a ddarperir ar ran y GIG yng Nghymru gan sefydliadau y tu allan i Gymru, yn unol â'r weithdrefn bryderon berthnasol sy'n berthnasol i'r sefydliad hwnnw. Bydd pobl yn dal yn gallu gofyn am gymorth ar ffurf eiriolaeth gan Llais (Corff Llais y Dinesydd) i'w helpu i fwrw ymlaen â'u cwynion mewn amgylchiadau o'r fath.

10.2 Fodd bynnag, os daw'n amlwg wrth i'r sefydliad o'r tu allan i Gymru ymchwilio i bryder o dan y weithdrefn berthnasol bod, neu y gallai fod atebolrwydd cymwys a allai fod yn berthnasol i'r trefniadau iawn, mae'n bosibl y bydd y darpariaethau yn Rhan 7 o'r Rheoliadau yn cael eu defnyddio.

10.3 Mae Rheoliad 34 o'r Rheoliadau yn nodi'r diffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn y rhan hon o'r Rheoliadau. Mae'n cynnwys diffiniadau o'r termau "corff GIG Lloegr", "corff GIG yr Alban" a "corff GIG Gogledd Iwerddon".

10.4 Dylid nodi nad yw cyrff GIG Cymru yn comisiynu gofal fel rheol gan gyrff GIG yr Alban na chyrff GIG Gogledd Iwerddon, ac felly rhagwelir na fydd llawer o achosion lle bydd yn ofynnol i gorff GIG Cymru ystyried iawn mewn perthynas â phryder a hysbyswyd iddo gan gorff GIG yr Alban neu gorff GIG Gogledd Iwerddon. Er hynny, mae paragraffau 10.25 isod yn nodi canllawiau ar gyfer trefniadau o'r fath.

10.5 Ond, gwneir trefniadau fel mater o drefn gyda chyrff GIG Lloegr ar gyfer darparu gwasanaethau, ac felly mae darpariaethau'r trawsffiniol yn fwy tebygol o gael eu defnyddio.

## Atebolrwydd Cymwys yn Lloegr

10.6 Pan fydd corff GIG Lloegr yn cael hysbysiad o bryder o dan weithdrefn gwynion berthnasol mewn perthynas â gwasanaeth y mae wedi ei ddarparu, neu wedi trefnu i'w ddarparu, o dan drefniant gyda chorff GIG Cymru, mae Rheoliad 35 yn amodi bod **rhaid** iddo ystyried a allai'r trefniadau iawn fod yn berthnasol i'r pryder. Ar hyn o bryd, byddai gweithdrefn gwynion berthnasol, mewn perthynas â chyrff yn Lloegr, yn golygu Rheoliadau Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Lloegr) 2009 ("Rheoliadau 2009").

10.7 Yn ymarferol, er mwyn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan ei drefniadau indemniad gydag Awdurdod Ymgyfreitha'r GIG pan fydd corff GIG Lloegr yn cael ei hysbysu am bryder lle mae atebolrwydd cymwys yn bodoli neu lle byddai'n gallu bodoli, mae'n rhaid i'r corff GIG roi gwybod i'r Awdurdod Ymgyfreitha am bryder o'r fath a darparu'r dogfennau priodol iddo.

10.8 Os bydd corff GIG Lloegr yn cael ei hysbysu am bryder sy'n cynnwys honiad bod niwed wedi cael ei achosi, neu y gallai niwed fod wedi cael ei achosi, sy'n ymwneud â gwasanaethau y mae wedi'u darparu neu wedi'u trefnu i'w darparu o dan drefniadau gyda chorff GIG Cymru, bydd Rheoliadau 36-37 yn berthnasol.

10.9 Mae Rheoliad 36(2) yn amodi bod rhaid i'r corff GIG Lloegr hysbysu'r corff GIG Cymru y mae wedi ymrwymo i gontract ag ef os yw o'r farn bod atebolrwydd cymwys yn bodoli neu y byddai'n gallu bodoli ac, ar ôl cael unrhyw ganiatâd angenrheidiol, ei fod yn darparu'r canlynol i'r corff GIG Cymru:

- Copi o'r ymateb i unrhyw bryder;
- Copi o'r cofnodion meddygol perthnasol;
- Copi o unrhyw farn arbenigol a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad;
- Adroddiad ysgrifenedig i egluro pam mae'n credu bod, neu y gallai fod, atebolrwydd cymwys;
- Y dyddiad y cafodd y pryder;
- Unrhyw wybodaeth neu gymorth o'r fath y bydd ar gorff GIG Cymru ei angen.

10.10 Mae Rheoliad 37 yn amodi bod rhaid i gorff GIG Cymru, o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl cael yr wybodaeth uchod, gydnabod i'r corff GIG Lloegr (neu, yn ymarferol, i'r corff GIG Lloegr ac Awdurdod Ymgyfreitha'r GIG) ei fod wedi cael yr hysbysiad. Hefyd, o fewn 5 diwrnod gwaith i gael yr hysbysiad, rhaid i'r corff GIG Cymru roi gwybod i'r person a hysbysodd y pryder i'r corff GIG Lloegr bod y pryder wedi cael ei drosglwyddo i'r corff GIG Cymru i ystyried a oes atebolrwydd cymwys ai peidio. Mae Rheoliad 37(3) yn gosod rhwymedigaeth ar y corff GIG Cymru sydd wedi cael yr hysbysiad i benderfynu a oes atebolrwydd cymwys ai peidio, a rhaid iddo benderfynu a ddylid cynnig iawn i'r claf ai peidio.

10.11 Rhaid i'r corff GIG Cymru:

- Ystyried sut a phryd y mae'n briodol cyfathrebu â'r person a hysbysodd y pryder, yn ogystal â'r dull mwyaf priodol o gynnwys y person a hysbysodd y pryder;
- Cynnig cyfarfod â'r person a hysbysodd y pryder;

- Cynnal asesiad dechreuol o’r pryder – gan ystyried gwybodaeth a gafwyd gan Awdurdod Ymgyfreitha’r GIG a’r corff GIG Lloegr a hysbysodd y pryder;
- Ystyried a oes angen mwy o gyngor meddygol annibynnol neu gyngor arall.

10.12 Mae Rheoliad 39(2) yn amodi bod rhaid i'r corff GIG Cymru a’r corff GIG Lloegr gydweithredu, mewn ffordd sy'n bodloni'r trefniadau yn Rhan 7 o'r Rheoliadau, er mwyn penderfynu a oes atebolrwydd cymwys yn bodoli ai peidio ac, os penderfynir bod atebolrwydd cymwys yn bodoli, i gynnig iawn.

## Adroddiad Interim

10.13 Pan fydd corff GIG Cymru o'r farn bod, neu y gallai fod, atebolrwydd cymwys, mae Rheoliad 40 yn amodi bod rhaid iddo lunio adroddiad interim (mae paragraff 6.82 yn amlinellu cynnwys yr adroddiad interim) i'r person sydd wedi mynegi’r pryder (a'i gynrychiolydd cyfreithiol os oes ganddo un) o fewn 50 diwrnod gwaith i gael yr hysbysiad o'r pryder. Dylid hefyd anfon copi o’r adroddiad interim i Awdurdod Ymgyfreitha’r GIG a'r corff GIG Lloegr. Os nad yw'r corff GIG Cymru yn gallu darparu adroddiad interim o fewn y cyfnod hwnnw, rhaid iddo roi gwybod i’r person a hysbysodd y pryder (a'i gynrychiolydd cyfreithiol os oes ganddo un) ac Awdurdod Ymgyfreitha’r GIG a’r Corff GIG Lloegr beth yw’r rhesymau dros hynny, a darparu'r adroddiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ac o fewn 6 mis i gael yr hysbysiad o'r pryder.

10.14 Os nad oes modd cyhoeddi’r adroddiad interim o fewn 6 mis, mewn amgylchiadau eithriadol, bydd rhaid i’r corff GIG Cymru roi gwybod i’r person a oedd wedi mynegi’r pryder (a’i gynrychiolydd cyfreithiol os oes ganddo un) beth yw’r rhesymau dros yr oedi, a phryd y gellir disgwyl yr adroddiad interim. Dylid hefyd rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i Awdurdod Ymgyfreitha’r GIG a’r Corff GIG Lloegr. Cofiwch fod rhaid i adroddiad yr ymchwiliad a amlinellwyd ym mharagraff 10.20 gael ei ddarparu i’r person a fynegodd y pryder neu ei gynrychiolydd cyfreithiol cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol, a dim hwyrach na 12 mis o’r dyddiad y cafodd y corff GIG Cymru yr hysbysiad o’r pryder.

10.15 Mae Rheoliad 41 yn egluro beth fydd yn digwydd os daw'r corff GIG Cymru i'r casgliad, yn dilyn yr ymchwiliad a gynhaliwyd yn

unol â Rheoliad 39, nad oes atebolrwydd cymwys ar ran darparwr y gwasanaethau.

10.16 Mae'r ffurfiau o iawn yr un fath â'r rheini a nodwyd yn Rheoliad 27, fel y mae paragraff 7.3 yn cyfeirio atynt.

10.17 Ni fydd iawn ar gael os yw'r mater yn destun achos sifil neu wedi bod yn destun achos o'r fath. Os bydd achos sifil yn cychwyn wrth i'r corff GIG Cymru ystyried iawn, rhaid rhoi'r gorau i'r broses iawn a rhoi gwybod i'r holl bartïon perthnasol.

10.18 Mae Rheoliad 44 yn debyg i Reoliad 29 (sy'n cael ei ystyried ym mharagraff 7.10), ac mae'n gosod terfyn cyffredinol o £25,000 ar gyfer elfen ariannol y broses iawn. Mae hyn yn cynnwys iawndal cyffredinol ac arbennig. Os daw i'r amlwg ar ôl ymchwilio bod cwantwm ariannol yr hawliad yn fwy na £25,000, rhaid peidio â chynnig iawn yn unol â Darpariaethau Rhan 7. Mae'r rheoliad yn darparu y bydd y digollediad a ddyfernir yn cael ei asesu ar sail cyfraith gwlad. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd y pŵer i ddyroddi tariff digolledu. Os yw'r swm, yn achos mater a gyfeiriwyd gan gorff GIG yn Lloegr (neu'r Alban neu Ogledd Iwerddon), yn debygol o fod yn fwy na'r terfyn a ddangosir, ni fydd y corff GIG Cymru yn mynd ymlaen i ystyried cynnig y tu hwnt i'r Rheoliadau.

10.19 Mae Rheoliad 45 yn debyg i Reoliad 30. Mae'n ymwneud ag atal y cyfnodau cyfyngiad perthnasol dros dro yn ystod y cyfnod pan fydd atebolrwydd yn destun cais am iawn o dan Ran 7 o'r Rheoliadau. Mae Rheoliad 45(2)(a) yn darparu y bydd y cyfnod cyfyngiad perthnasol yn cael ei atal dros dro o'r dyddiad y cafodd y corff GIG Lloegr (neu gorff GIG yr Alban neu gorff GIG Gogledd Iwerddon) y pryder dechreuol.

## Adroddiad yr Ymchwiliad

10.20 Yn unol â Rheoliad 46, rhaid i gorff GIG Cymru roi adroddiad ar yr ymchwiliad (fel y mae paragraff 7.49 yn egluro) i'r person sy'n ceisio iawn neu ei gynrychiolydd cyfreithiol, a hefyd i Awdurdod Ymgyfreitha'r GIG a'r corff GIG Lloegr. Rhaid darparu'r adroddiad hwn ar yr ymchwiliad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, a dim hwyrach na 12 mis o'r dyddiad y cafodd y Corff GIG Cymru yr hysbysiad o'r pryder. Os nad oes modd cadw at

12 mis oherwydd amgylchiadau eithriadol, rhaid i'r corff GIG Cymru roi gwybod i'r person a hysbysodd y pryder neu ei gynrychiolwyr cyfreithiol yn ogystal ag Awdurdod Ymgyfreitha'r GIG a'r corff GIG Lloegr beth yw'r rhesymau dros yr oedi, a phryd y gellir disgwyl adroddiad yr ymchwiliad. Fel gyda pharagraff 7.51, does dim angen darparu copi o adroddiad yr ymchwiliad mewn rhai amgylchiadau, sydd wedi'u nodi yn Rheoliad 46(4).

## Cyngor Cyfreithiol a Meddygol

10.21 Fel gyda pharagraffau 6.57-6.61, 7.19-7.21 a 7.31-7.32, bydd cyngor meddygol a chyfreithiol di-dâl ar gael i'r person a hysbysodd y pryder. Rhaid i gostau cyngor meddygol a chyfreithiol o'r fath gael eu hysgwyddo i ddechrau gan y Corff GIG Cymru, nid y corff GIG Lloegr.

10.22 Yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr, bydd unrhyw gais llwyddiannus am iawn yn cael ei setlo ar sail atebolrwydd y darparwr yn Lloegr mewn camwedd. Mae hyn yn cael ei ystyried yn briodol gan fod y gyfraith camwedd yr un fath yng Nghymru ac yn Lloegr. Byddai hyn yn golygu y byddai'r hepgoriad y mae'n rhaid i glaf ei lofnodi yn unol â Rheoliad 48(e) yn ymwneud ag atebolrwydd y corff darparu mewn camwedd (hynny yw, atebolrwydd y corff GIG Lloegr). Rhagwelir mai'r corff GIG Cymru fyddai'n talu costau unrhyw setliad ymlaen llaw a'r ffioedd cyfreithiol a ffioedd yr adroddiadau clinigol, gan mai'r corff GIG Cymru sy'n gyfrifol am gynnal y trefniant ar gyfer iawn. Fodd bynnag, gan fod yr hawliad yn cael ei setlo ar sail atebolrwydd y corff GIG Lloegr mewn camwedd tuag at y claf, y bwriad yw mynnu bod Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau yng Nghymru yn sicrhau bod unrhyw gontract comisiynu gyda chyrff darparu GIG Lloegr yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn bosibl i adennill costau o'r fath (cytunwyd ar hyn pan oedd bil Iawn y GIG yn mynd drwy'r Senedd). Mae hyn yn cynnwys cost ffioedd cyfreithiol ac unrhyw ffioedd clinigol cysylltiedig lle mae ymchwiliad gan gorff GIG Cymru yn datgelu nad oes atebolrwydd cymwys mewn camwedd.

## Rhoi hysbysiad o'r penderfyniad

10.23 Yn yr un modd â pharagraffau 7.40-7.47, rhaid i Gorff GIG Cymru roi hysbysiad o'i benderfyniad i gynnig neu i beidio â chynnig iawn. Dylid hefyd anfon copi i Awdurdod Ymgyfreitha'r GIG a'r Corff GIG Lloegr.

10.24 Pan fydd corff GIG Cymru yn penderfynu nad oes atebolrwydd cymwys, rhaid iddo roi gwybod yn ysgrifenedig i'r person a hysbysodd y pryder beth yw'r penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad. Ar yr un pryd, rhaid i'r person a hysbysodd y pryder gael cynnig cyfarfod i drafod y penderfyniad a chael hawl i fynegi pryderon, ynghylch gweithredoedd corff y GIG Cymru, wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Rhaid hefyd anfon copi o unrhyw lythyr penderfyniad i Awdurdod Ymgyfreitha'r GIG a'r corff GIG Lloegr.

## Atebolrwydd cymwys yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon

10.25 Oherwydd y gwahaniaeth ym mhwerau cyfreithiol Gweinidogion Cymru, nid yw'r rheoliadau yn gosod unrhyw rwymedigaethau ar ddarparwyr y GIG yn yr Alban nac yng Ngogledd Iwerddon i ystyried a oes atebolrwydd cymwys ai peidio mewn perthynas â gwasanaethau maen nhw wedi'u darparu ar ran Cyrff GIG Cymru. Yn hytrach na hynny, dylai cyrff GIG Cymru sy'n ymrwymo i drefniadau comisiynu gyda chyrff GIG yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon osod rhwymedigaethau ar gyrff yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon fel rhan o'r contractau comisiynu.

10.26 Os bydd corff GIG Cymru yn ymrwymo i gytundeb comisiynu gyda chorff GIG yr Alban neu gorff GIG Gogledd Iwerddon i ddarparu gwasanaethau i gleifion yng Nghymru, rhaid iddo gynnwys darpariaethau yn y contract comisiynu sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr (a) ystyried, os bydd yn cael cwyn am y gwasanaethau hynny y mae wedi'u darparu neu wedi trefnu i'w darparu o dan delerau'r weithdrefn gwynion y mae'n rhaid iddo ei gweithredu, a oes, neu a allai fod, atebolrwydd cymwys mewn camwedd; a (b) os yw'r darparwr o'r farn bod, neu y gallai fod, atebolrwydd o'r fath, rhaid iddo gyfeirio'r achos, yn unol â thelerau'r contract comisiynu, at y Corff GIG Cymru i ddelio ag ef yn unol â darpariaethau Rheoliad 38 a gweddill Rhan 7.

10.27 Dylai'r contract comisiynu hefyd osod rhwymedigaeth ar ddarparwyr yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon i ddarparu'r

un wybodaeth i'r corff GIG Cymru ag y mae'n rhaid i ddarparwr yn Lloegr ei darparu i gyrff GIG Cymru o dan Reoliad 36.

10.28 Oherwydd y gwahaniaethau yn y gyfraith a'r systemau cyfreithiol yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon, mae penderfyniad polisi wedi cael ei wneud sy'n golygu mai cyrff GIG Cymru fyddai'n talu am unrhyw gais llwyddiannus am iawn mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir gan gyrff GIG yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu mai'r corff yng Nghymru fyddai'n talu'r digolllediad a'r costau cyfreithiol cysylltiedig, ac y byddai'r hepgoriad y byddai'n rhaid i glaf ei lofnodi yn unol â Rheoliad 48(e) yn ymwneud ag unrhyw atebolrwydd posibl sydd gan y corff yng Nghymru tuag at y claf.

10.29 Mae'r trefniadau ar gyfer cyrff GIG Cymru yn ymchwilio i bryder pan fydd atebolrwydd cymwys yn bodoli neu pan fyddai'n gallu bodoli mewn perthynas â gwasanaethau maen nhw wedi'u comisiynu gan gorff GIG yr Alban neu Ogledd Iwerddon yn debyg iawn (er nad yn union yr un fath) i'r trefniadau ar gyfer ymchwilio i bryder o'r fath a hysbyswyd gan gorff GIG Lloegr.

10.30 Mae Rheoliad 38 yn rhagnodi'r camau y mae'n rhaid i gorff GIG Cymru eu cymryd os yw'n cael hysbysiad gan gorff GIG yr Alban neu Ogledd Iwerddon bod, neu y gallai fod, atebolrwydd cymwys mewn camwedd mewn perthynas â gwasanaethau y mae wedi'u darparu, neu wedi trefnu i'w darparu, o dan drefniadau gyda chorff GIG Cymru. Ar ôl cael hysbysiad gan gorff GIG yr Alban neu Ogledd Iwerddon am bryder lle mae atebolrwydd cymwys yn bodoli neu lle byddai'n gallu bodoli, rhaid i'r corff GIG Cymru, yn unol â pharagraff 10.10, gydnabod ei fod wedi cael yr hysbysiad o fewn 5 diwrnod gwaith. Hefyd, o fewn 5 diwrnod gwaith i gael yr hysbysiad, rhaid i'r corff GIG Cymru roi gwybod i'r person a hysbysodd y pryder i gorff GIG yr Alban neu Ogledd Iwerddon bod y pryder wedi cael ei drosglwyddo i'r corff GIG Cymru i ystyried a oes atebolrwydd cymwys ai peidio. Bydd y camau a ddisgrifir ym mharagraff 10.11 hefyd yn berthnasol i gyrff GIG Cymru. Fodd bynnag, nid oes angen cydweithredu â chyrff GIG yr Alban na Gogledd Iwerddon fel y nodir yn 10.12. Mae paragraffau 10.13-10.24 hefyd yn berthnasol, a dylid newid y cyfeiriadau at gorff GIG Lloegr i gyrff GIG yr Alban neu Ogledd Iwerddon yn unol â hynny.

## Adran 11 – Dysgu o Bryderon

11.1 Yn unol â Rheoliad 49, rhaid i ganlyniadau unrhyw ymchwiliad gael eu defnyddio i gynyddu’r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgu a gwella ansawdd. Dylai hyn fod yn elfen allweddol o’r ymgais gyffredinol i leihau digwyddiadau andwyol a niwed y gellir ei osgoi i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a staff yn unol â nodau'r rhaglen 1000 o Fywydau a Mwy, a blaenoriaethau lleol cyrff cyfrifol unigol. Yn ogystal â dysgu ar lefel leol, disgwylir i gyrff cyfrifol gyfrannu at y cyfleoedd ehangach i ddysgu ar y cyd.

11.2 Pan ddefnyddir y Rheoliadau i ymdrin â phryderon ac i ymchwilio iddyn nhw, rhaid i gyrff cyfrifol sicrhau bod ganddyn nhw drefniadau ar waith i adolygu canlyniad y pryderon hynny. Bydd hyn yn galluogi cyrff cyfrifol i nodi elfennau i’w gwella ac i ddysgu o bryderon.

11.3 Rhaid i bob sefydliad (Ymddiriedolaethau’r GIG, Byrddau Iechyd Lleol, ymarferwyr gofal sylfaenol a darparwyr annibynnol) roi trefniadau ymarferol, ond cymesur, ar waith er mwyn gallu adolygu pryderon yn rheolaidd ac yn barhaus i sicrhau bod gwelliannau i wasanaethau’n cael eu nodi ac y gweithredir arnynt. Mae hyn yn debygol o ddigwydd drwy strwythurau presennol Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch y sefydliadau. Wrth ddysgu o bryderon, rhaid i sefydliadau:

- Weithredu ar y materion a godwyd, a
- Monitro'r gwelliannau a’r newidiadau a wnaed.

11.4 Rhaid i’r gwersi a ddysgwyd gael eu rhannu o fewn y sefydliad er mwyn gwella’r gwasanaethau a ddarperir, a sicrhau na fydd pryderon tebyg yn codi eto. Rhaid i bolisïau a gweithdrefnau lleol bennu prosesau a mecanweithiau i fynd ati i gyfleu’n fewnol y gwersi a ddysgwyd, ar draws yr holl weithgareddau ac i’r holl staff.

11.5 Hefyd, rhaid i gyrff cyfrifol rannu’r gwersi a ddysgwyd y tu allan i’w sefydliadau er mwyn gwella’r ddarpariaeth ehangach o wasanaethau, a sicrhau na fydd pryderon tebyg yn codi eto mewn meysydd eraill. Rhaid i bolisïau a gweithdrefnau lleol bennu prosesau a mecanweithiau i fynd ati i gyfleu’n allanol y gwersi a ddysgwyd, gan gadw mewn cof egwyddorion cyfrinachedd cleifion.

## Adran 12 – Monitro'r broses ymdrin â phryderon

12.1 Mae'n rhaid i gyrff cyfrifol fonitro eu prosesau ymdrin â phryderon, a chadw cofnodion i gefnogi'r gweithgaredd hwn.

### Casglu data ar gyfer pryderon y defnyddir Rheoliadau'r GIG (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 i ymdrin â nhw

12.2 Mae Rheoliad 50 yn nodi'r cofnodion y mae'n rhaid i gyrff cyfrifol eu cadw, sef:

- Pob pryder sy'n cael ei hysbysu i'r corff cyfrifol;
- Canlyniad y pryderon ac a oedd sail dda iddyn nhw, ac;
- O fewn faint o amser y cafodd yr ymatebion eu hanfon, ac a oedd y terfynau amser ar gyfer ymateb wedi cael eu hymestyn.

12.3 Bob blwyddyn, bydd rhaid i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG lenwi a chyflwyno ffurflen casglu data i'r Tîm Gwella Diogelwch a Phrofiad Cleifion. Bydd yn gyhoeddiad ystadegol blynyddol.

12.4 Bydd rhaid i bob **Bwrdd Iechyd** gasglu gwybodaeth ynghylch pryderon a fynegwyd am y canlynol:

- Gwasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd;
- Gwasanaethau a ddarperir gan ymarferwyr gofal sylfaenol yn ardal y Bwrdd Iechyd lle mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymdrin â'r pryder yn unol â Rheoliadau 18-21;
- Gwasanaethau a ddarperir gan ymarferwyr gofal sylfaenol yn ardal y Bwrdd Iechyd lle mae'r practis wedi ymdrin â'r pryder yn unol â'r Rheoliadau.

12.5 Bydd rhaid i holl **Ymddiriedolaethau'r GIG** gasglu gwybodaeth ynghylch pryderon a fynegwyd am y canlynol:

- Gwasanaethau a ddarperir gan Ymddiriedolaeth y GIG.

12.6 Mae’r terfynau amser ar gyfer ymateb i bryderon wedi’u nodi yn y rheoliadau, ac mae adrannau 6 a 7 y canllawiau hyn hefyd yn cyfeirio atynt. Bydd rhaid i Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd gyflwyno gwybodaeth am derfynau amser fel rhan o’r broses flynyddol o gasglu data.

12.7 O dan Fframwaith Cyflawni’r GIG, o fewn haen 1, mae cydymffurfedd â’r trefniadau Gweithio i Wella yn cael ei fonitro. Mae hyn yn cynnwys terfynau amser ar gyfer darparu adroddiadau terfynu cryno mewn perthynas ag ymchwiliadau i ddigwyddiadau difrifol.

Wrth ystyried eu cydymffurfedd ag amseroedd ymateb, bydd angen i sefydliadau ystyried y gwahanol derfynau amser yn y rheoliadau, gan ddibynnu ar y math o ymchwiliad i bryder.

Yn gryno:

- Rhaid i bob pryder gael ei gydnabod o fewn 2 ddiwrnod iddo ddod i law.

- Yn achos pryderon sy’n cael eu hystyried o dan Reoliad 24, disgwylir y bydd ymateb **terfynol** yn cael ei gyhoeddi o fewn 30 diwrnod gwaith i'r pryder ddod i law. Fodd bynnag, os yw’r ymchwiliad yn canfod bod, neu y gallai fod, atebolrwydd cymwys, dylid cyhoeddi adroddiad **interim** o fewn 30 diwrnod ac wedyn disgwylir ymateb terfynol o fewn 12 mis i’r pryder ddod i law.

Mae’r rheoliadau’n ei gwneud yn bosibl i ymestyn y terfynau amser uchod, ond rhaid i’r person sydd wedi mynegi’r pryder gael gwybod am yr oedi a phryd y gall ddisgwyl yr ymateb.

O ran yr amseroedd ymateb i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau ddarparu crynodebau o adroddiadau terfynu yn dilyn ymchwiliadau i ddigwyddiadau difrifol, bydd y Tîm Gwella Diogelwch Cleifion yn darparu’r terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r rhain, fel y nodwyd yn adran 9.

12.8 Yn ymarferol, bydd angen i Gyrff Cyfrifol gasglu llawer mwy o ddata na’r lefel sylfaenol hon, er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a ddaw o bryderon yn cael ei chwestiynu a’i defnyddio’n effeithiol i ddysgu gwersi ac i wella diogelwch a phrofiad cleifion.

## Adran 13 – Adroddiad Blynyddol

13.1 Mae Rheoliad 51 yn darparu bod rhaid i bob Corff Cyfrifol baratoi adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn. Rhaid i'r adroddiad gynnwys, o leiaf:

- Nifer y pryderon sydd wedi dod i law (gan gynnwys, yn achos cyrff GIG Cymru, pryderon a hysbyswyd o dan Ran 7 o'r Rheoliadau sy'n ymwneud â gwasanaethau trawsffiniol);
- Nifer y pryderon yr ystyrir bod sail dda iddynt;
- Nifer y pryderon sydd wedi cael eu cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

13.2 Yn unol â Rheoliad 51(1)(d), dylai'r adroddiad blynyddol hefyd grynhoi:

- Natur a sylwedd y pryderon sydd wedi dod i law;
- Unrhyw faterion o bwysigrwydd cyffredinol sy'n deillio o'r pryderon hyn neu'r ffordd y deliwyd â'r pryderon, gan gynnwys elfennau sy'n peri pryder mewn adrannau penodol, grwpiau staff, triniaethau neu wasanaethau a ddarperir, sy'n adrodd ar dueddiadau;
- Camau a gymerwyd i wella gwasanaethau o ganlyniad i hysbysu am bryder(on).

13.3 Pan fydd Ymddiriedolaeth GIG Cymru, darparwr Gofal Sylfaenol neu ddarparwr Annibynnol wedi ymrwymo i gytundeb neu drefniant â Bwrdd Iechyd Lleol i ddarparu gwasanaethau, rhaid iddo anfon copi o'i adroddiad blynyddol ar drin ac ymchwilio i bryderon i'r Bwrdd Iechyd Lleol y mae wedi ymrwymo i gytundeb neu drefniant o'r fath ag ef.

13.4 Mae templed adroddiad blynyddol ar gael yn Atodiad Y. Bydd angen ei lenwi'n flynyddol. Yn achos Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG, dylid ei gyhoeddi i ategu Datganiad Ansawdd Blynyddol y sefydliad.

13.5 Nod yr adroddiad yw rhoi **sicrwydd** a **thystiolaeth** i'r Cyhoedd, Llywodraeth Cymru, Rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill bod eich corff yn ymdrin â phryderon ac yn dysgu ohonynt yn unol â'r

Rheoliadau, ac yn ‘*ymchwilio unwaith ac yn ymchwilio'n dda*’ i bryderon.

13.6 **Mae’n bwysig bod cyrff yn dweud beth maen nhw wedi’i wneud am bryderon sydd wedi dod i law, a’r gwersi a ddysgwyd.**

13.7 Rhaid i’r sefydliad sicrhau bob amser nad yw’r adroddiad blynyddol yn datgelu unigolion nac unrhyw wybodaeth sensitif gysylltiedig.

## Adrannau 14 – Gwybodaeth Ddefnyddiol

14.1 Mae’r adran hon yn cynnwys canllawiau ar ymdrin â phryderon nad ydynt yn cael eu hysbysu drwy’r llwybrau arferol a ddisgrifir yn y prif ganllawiau.

### Camau i’w cymryd pan fydd Corff Cyfrifol yn cael cais am fynediad at gofnodion iechyd

14.2 Ar adegau, gallai’r hysbysiad cyntaf o bryder ddod drwy gais gan gyfreithiwr, sy’n gweithredu ar ran claf neu ei gynrychiolydd, i gael mynediad at gofnodion iechyd. Yn yr achos hwn, efallai na fydd y Corff Cyfrifol yn gwybod pam y gofynnwyd am y cofnodion, ac a oes pryder yn cael ei hysbysu o dan y Rheoliadau. Yn yr achosion hyn, gellir defnyddio’r llythyr templed yn Atodiad AA, sy’n rhoi gwybodaeth am y trefniadau newydd y gall y cyfreithiwr eu trosglwyddo i’r unigolyn.

### Camau i’w cymryd pan hysbysir pryder sy’n nodi premiwm yswiriant neu gytundeb ffi amodol

14.3 Yn yr achos hwn, cyn gynted ag y bydd y Corff Cyfrifol yn cael hysbysiad o bryder gan gyfreithiwr ac os yw’n ymddangos bod y claf wedi ymrwymo i bremiwm yswiriant neu gytundeb ffi amodol, rhaid iddo gysylltu â'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg ar unwaith, a fydd yn ei helpu i ddelio â’r math hwn o bryder. Gellir trin ac ymchwilio i’r pryder yn unol ag egwyddorion y Rheoliadau.

## Adran 15 – Geirfa

| Term | Esboniad |
|---|---|
| Achosion Sifil | Cychwynnir achosion sifil drwy gyflwyno ffurflen hawliad mewn llys sirol neu Uchel Lys. |
| Aelod nad yw’n Swyddog | Mae'n golygu aelod Bwrdd o Fwrdd Iechyd Lleol nad yw’n gyflogai i'r sefydliad hwnnw. Mae’n aml yn cael ei alw’n Aelod Bwrdd Annibynnol. |
| Aelod Swyddog | Mae'n golygu aelod o Fwrdd Iechyd Lleol sy'n gyflogai i'r sefydliad hwnnw. |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) | Mae AGIC yn rhoi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol ar ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, ac yn gwneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd i hybu gwelliannau. |
| Atebolrwydd cymwys | Pan brofir bod niwed personol neu golled wedi deillio o ofal neu driniaeth claf, neu’n gysylltiedig â hynny, o ganlyniad i’r gwasanaeth a ddarparwyd gan y corff cyfrifol. |
| Bod yn Agored | Mae Bod yn Agored yn golygu cydnabod, ymddiheuro ac egluro pan fydd pethau’n mynd o’i le. Cafodd polisi Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion ynghylch ‘Bod yn Agored’ ei lansio yn ystod Hydref 2009. Pan ddaw’r ddyletswydd gonestrwydd i rym, dylid dilyn y weithdrefn yng Ngweithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd Cymru 2023. |
| Cadarnhawyd / Sail dda | Nifer y pryderon a gadarnhawyd – hynny yw, a gafodd eu cefnogi neu eu cymeradwyo. |
| Cais Cyllido Cleifion Unigol | Cais i Fwrdd Iechyd Lleol neu Wasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i ariannu gofal iechyd i glaf unigol sydd y tu hwnt i’r ystod o wasanaethau a thriniaethau y mae’r Bwrdd Iechyd wedi cytuno i’w darparu – ee, cyffuriau costus, cyflyrau prin, llawdriniaethau llawfeddygol newydd. |
| Camwedd | Mae camwedd yn golygu “cam” sy’n cynnwys achos o dorri dyletswydd sifil tuag at rywun arall, a defnyddir achos sifil i ymdrin â hynny. |

| | |
|---|---|
| Caniatâd | Fel rhan o ymchwiliad i bryder, mae angen caniatâd y claf er mwyn cael mynediad at ei gofnod clinigol. Mae caniatâd yn gallu bod yn ymhlyg, fel yn achos mam sydd â phlentyn bach, neu'n benodol, er enghraifft gofalwr yn gweithredu ar ran claf. |
| Canlyniad andwyol hysbysadwy | Mae'n digwydd pan ddaw'r ddyletswydd gonestrwydd i rym yn unol ag adran 3 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 |
| Claf | Person sydd wedi derbyn, neu a fydd yn derbyn, gwasanaethau gan gorff cyfrifol. |
| Cofnodion meddygol | Gall cofnod meddygol gynnwys unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn. Er enghraifft llythyrau clinigol, adroddiadau, canlyniadau profion, pelydr-X, siartiau goruchwyliaeth, nodiadau nyrsio, nodiadau meddygon, cofnodion cyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol, microfiche, lluniau ac ati. |
| Corff Cyfrifol | Mae'n golygu corff GIG Cymru, darparwr gofal sylfaenol neu ddarparwr annibynnol. |
| Cwyn | Unrhyw fynegiant o anfodlonrwydd. |
| Cyfarwyddwr Anweithredol | Mae'n golygu aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol nad yw'n gyflogai i'r sefydliad hwnnw. Mae'n aml yn cael ei alw'n Aelod Bwrdd Annibynnol. |
| Cyfarwyddwr Gweithredol | Mae'n golygu aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol sy'n gyflogai i'r sefydliad hwnnw. |
| Cyfrinachedd | Sicrhau bod gwybodaeth ond ar gael i'r rheini sydd wedi'u hawdurdodi i gael mynediad. |
| Cyfyngiad | Yn unol â Deddf Cyfyngiadau 1980, does dim modd hysbysu am bryder dair blynedd neu fwy ar ôl dyddiad y digwyddiad yn y gŵyn, neu dair blynedd neu fwy ar ôl y dyddiad y daeth y claf yn ymwybodol o'r mater sy'n destun pryder. |
| Cymdeithas Ddeintyddol Prydain | Cymdeithas Ddeintyddol Prydain (BDA) yw'r gymdeithas broffesiynol a'r undeb llafur ar gyfer deintyddion yn y Deyrnas Unedig, a chafodd ei sefydlu yn 1880. Mae aelodaeth y Gymdeithas yn wirfoddol, ac mae ganddi oddeutu 23,000 o aelodau. Mae'r rhan fwyaf o'r aelodau yn gweithio |

| | |
|---|---|
| | mewn practis cyffredinol, neu mewn practisiau "Stryd Fawr". |
| Dadansoddiad o Wraidd y Broblem | Mae Dadansoddiad o Wraidd y Broblem yn dechneg ymchwilio systematig sy'n edrych y tu hwnt i'r unigolion dan sylw, ac sy'n ceisio deall cyd-destun amgylcheddol y digwyddiad a'r ffactorau a oedd wedi achosi'r digwyddiad. (*Seven Steps to Patient Safety, NPSA 2004*) |
| Darparwr Annibynnol | Darparwr gofal iechyd o dan drefniadau a wnaed gyda sefydliad GIG Cymru nad yw'n ddarparwr gofal sylfaenol nac yn gorff GIG, ee, Ysbyty Preifat neu Gartref Gofal. |
| Darparwr Gofal Sylfaenol | Person neu sefydliad (corff) sydd wedi ymrwymo i gontract gyda Bwrdd Iechyd Lleol i ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol – ee, Ymarferydd Cyffredinol, Deintydd, Fferyllydd Cymunedol neu ymarferwyr meddygol offthalmig. |
| Datrys | Mae datrys yn golygu canlyniad boddhaol i bryder. |
| Datrys yn lleol | Ffordd o ddatrys y pryder yn lleol yn y lle cyntaf. |
| Deddf Galluedd Meddyliol 2005 | Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn ddeddf sy'n grymuso ac yn amddiffyn pobl sydd heb y galluedd i wneud rhai penderfyniadau drostynt eu hunain. |
| Deddf Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990 | Mae mynediad at gofnodion iechyd person sydd wedi marw yn cael ei reoli gan Ddeddf Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990. |
| Digollediad | Taliad ariannol neu driniaeth unioni, neu gyfuniad o driniaeth ariannol ac unioni (mae'r diffiniad i'w weld isod). |
| Digwyddiad Diogelwch Cleifion | Unrhyw ddigwyddiad anfwriadol neu annisgwyl a allai fod wedi arwain, neu a oedd wedi arwain, at niwed i un neu ragor o gleifion a oedd yn derbyn gofal iechyd a ariennir gan y GIG. |
| Dull amgen o ddatrys anghydfod | Mae'n golygu cyfryngu, cymodi neu hwyluso. |

| | |
|---|---|
| Egwyddorion Caldicott | Mae egwyddorion Caldicott yn cefnogi rhannu gwybodaeth bersonol adnabyddadwy mewn ffordd ddiogel a phriodol. |
| GDPR y DU | Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ((UE) 2016/679) |
| Gweithdrefnau Disgyblu | Mae'n golygu unrhyw weithdrefn ar gyfer disgyblu gweithwyr, a fabwysiadwyd gan un o sefydliadau'r GIG i ddisgyblu gweithwyr. |
| Hawliad | Hawliad yw'r sail dros fynnu neu gael rhywbeth – ee, mae claf sydd wedi cael ei niweidio yn gwneud hawliad i gael ei ddigolledu. |
| Hwyluso Cwynion Annibynnol | Bydd person annibynnol (Hwylusydd) yn gwrando ar bryderon y person, yn siarad â'r bobl sy'n gysylltiedig â'r pryder ac yn ceisio helpu i ddatrys y pryder. |
| Hysbysiad | Rhoi gwybod am bryder neu ddweud wrth rywun am bryder. |
| Iawn | Mae Iawn yn ymwneud â sefyllfaoedd lle mae'r claf wedi cael ei niweidio o bosibl, a bod y niwed hwnnw wedi cael ei achosi gan y GIG yng Nghymru. Gall Iawn gynnwys:<br>• ymddiheuriad ysgrifenedig;<br>• adroddiad ar y camau sydd wedi cael eu cymryd neu a fydd yn cael eu cymryd i atal pryderon tebyg rhag codi;<br>• rhoi esboniad, a<br>• chynnig digollediad ariannol a/neu driniaeth unioni, ar yr amod na fydd y person yn ceisio mynd ar ôl yr un mater drwy achos sifil arall. |
| Llywodraethu | System atebolrwydd i ddinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach y mae sefydliadau gofal iechyd yn ei dilyn wrth weithio a gwneud penderfyniadau, ac yn ei defnyddio wrth arwain eu staff i gyflawni eu hamcanion. |

| | |
|---|---|
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Os bydd person sy'n mynegi pryder yn dal yn anfodlon, gall ofyn am adolygiad annibynnol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn disgwyl i'r corff cyfrifol ymateb i'r person sydd wedi mynegi pryder cyn y bydd yn cytuno i adolygu. |
| Plentyn | Person nad yw eto'n ddeunaw oed. |
| Pryder | Mae'n golygu unrhyw gŵyn, hawliad neu ddigwyddiad diogelwch cleifion y dylid defnyddio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 i ddelio ag ef. |
| Swyddog Cyfrifol | Yn achos sefydliad GIG Cymru, person sy'n aelod swyddog neu'n gyfarwyddwr gweithredol i'r corff hwnnw ac sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros weithredu'r broses o ymdrin â phryderon yn effeithiol o ddydd i ddydd. |
| System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu (NRLS) | Mae'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysg yn cael adroddiadau cyfrinachol am ddigwyddiadau diogelwch cleifion gan staff gofal iechyd ar draws Cymru a Lloegr. Mae clinigwyr ac arbenigwyr diogelwch yn dadansoddi'r adroddiadau hyn i ddod o hyd i risgiau cyffredin i gleifion a chyfleoedd i wella diogelwch cleifion. |
| Tariff | Mae tariff mewn perthynas â digollediad yn swm penodol o arian sy'n cael ei dalu yn ôl lefel y niwed y mae claf wedi'i ddioddef. Gall hyn helpu staff sy'n ymwneud â'r broses o ddod i benderfyniad priodol a chyson ar lefel y digollediad ariannol sy'n cael ei ddyfarnu i gleifion pan fydd hyn yn ffordd briodol o unioni. |
| Triniaeth unioni | Cynigir triniaeth unioni i'r claf gyda'r bwriad o geisio gwella ei gyflwr a'i adfer, i'r graddau y bo modd, i'r sefyllfa y byddai wedi bod ynddi pe na bai'r driniaeth yn y gŵyn neu'r gofal esgeulus wedi digwydd. |
| Y Cyngor Meddygol Cyffredinol | Pwrpas y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) yw diogelu, hybu a chynnal iechyd a diogelwch y cyhoedd drwy sicrhau safonau priodol ym maes meddygaeth. |

## Adran 16 – Cyfeiriadau Defnyddiol

| | |
|---|---|
| **Age UK** | **Mae Age UK yn cyfuno'r gefnogaeth a oedd yn arfer cael ei darparu gan Age Concern a Help the Aged.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:**<br>**www.ageuk.org.uk/cymru**<br><br>**Cyswllt:**<br>**AGE UK (Cymru)**<br>**Tŷ John Pathy**<br>**13/14 Cwrt Neptune**<br>**Vanguard Way**<br>**Caerdydd**<br>**CF24 5PJ**<br>**Llinell gyngor: 0800 223 444**<br>**Rhif ffôn: 029 2043 1555**<br>**E-bost: enquiries@agecymru.org.uk** |

| | |
|---|---|
| **Action Hearing Loss** | **Mae Action Hearing Loss yn helpu pobl fyddar a thrwm eu clyw yng Nghymru.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:**<br>**www.actionhearingloss.org.uk**<br><br>**Cyswllt:**<br>**De Cymru**<br>**16 Heol y Gadeirlan**<br>**Caerdydd**<br>**CF11 9LJ**<br>**Rhif ffôn: 029 2033 3034**<br>**Ffôn testun: 029 2033 3036**<br>**Ffacs: 029 2033 3035**<br>**E-bost: wales@hearingloss.org.uk** |
| **Anabledd Cymru** | **Anabledd Cymru yw cymdeithas genedlaethol sefydliadau pobl anabl, sy'n ceisio sicrhau hawliau, cydraddoldeb ac annibyniaeth i bobl anabl yng Nghymru.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:**<br>**www.disabilitywales.org/contact/?lang=cy**<br><br>**Cyswllt:**<br>**Anabledd Cymru**<br>**Bridge House**<br>**Parc Busnes Caerffili**<br>**Van Road**<br>**Caerffili**<br>**CF83 3GW**<br>**Rhif Ffôn: 029 20887325**<br>**Ffacs: 029 20888702**<br>**E-bost: info@disabilitywales.org** |

| | |
|---|---|
| **Anabledd Dysgu Cymru** | **Anabledd Dysgu Cymru yw'r corff ambarél ar gyfer pob mudiad gwirfoddol yng Nghymru sy'n weithredol ym maes anableddau dysgu.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.ldw.org.uk/cy/**<br><br>**Cyswllt :**<br>**Anabledd Dysgu Cymru**<br>**41 Lambourne Crescent**<br>**Parc Busnes Caerdydd**<br>**Llanisien**<br>**Caerdydd**<br>**CF14 5GG**<br>**Rhif Ffôn: 029 2068 1160**<br>**Ffacs: 029 2075 2149**<br>**E-bost: enquiries@ldw.org.uk** |
| **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)** | **Mae AGGCC yn arolygu ac yn adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, ac yn rheoleiddio ac yn arolygu lleoliadau ac asiantaethau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.arolygiaethgofal.cymru**<br><br>**Cyswllt:**<br>**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**<br>**Swyddfeydd Llywodraeth Cymru**<br>**Parc Busnes Rhyd-y-car**<br>**Merthyr Tudful**<br>**CF48 1UZ**<br>**Rhif Ffôn: 0300 062 8800**<br>**E-bost: agc@llyw.cymru** |

| | |
|---|---|
| **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)** | **AGIC yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer pob darpariaeth gofal iechyd yng Nghymru. Prif ffocws AGIC yw gwella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru; Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru; Cryfhau llais cleifion a'r cyhoedd yn y ffordd y mae gwasanaethau iechyd yn cael eu hadolygu a sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.agic.org.uk/**<br><br>**Cyswllt:<br>Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru<br>Tŷ Bevan<br>Parc Busnes Caerffili<br>Van Road<br>Caerffili<br>CF83 3ED<br>Rhif ffôn: 029 2092 8850<br>E-bost: hiw@llyw.cymru** |
| **Byrddau Iechyd** | **Yn sgil ad-drefniad GIG Cymru, a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2009, cafodd saith Bwrdd Iechyd Lleol integredig eu creu a oedd yn gyfrifol am yr holl wasanaethau gofal iechyd. Mae'r rhain wedi disodli'r 22 Bwrdd Iechyd Lleol a 7 Ymddiriedolaeth y GIG a oedd yn arfer bodoli.**<br><br>**Mae manylion cyswllt y Byrddau Iechyd lleol ar gael yn: https://www.gig.cymru/hpb/gwasanaethau-lleol/** |

| | |
|---|---|
| **Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG** | **Mae Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG yn adnodd strategol, cenedlaethol i GIG Cymru o ran meithrin gallu a chapasiti i sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu trin yn deg ac yn unol â'u hanghenion, ac i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r dimensiynau cydraddoldeb a hawliau dynol sy'n rhan annatod o'r Cynllun Oes a'r Cynllun Gwaith.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:**<br>**www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=256**<br><br>**Cyswllt:**<br>**Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG**<br>**Innovation House**<br>**Heol Pen-y-bont**<br>**Llanharan**<br>**CF72 9RP**<br>**Rhif ffôn: 01443 233450**<br>**Ffacs: 01443 233362** |
| **Comisiynydd Plant Cymru** | **Gwybodaeth am blant a'u hawliau, a chyfrifoldeb ac awdurdod Swyddfa'r Comisiynydd Plant. Mae'r swyddfa'n gweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel, a'u bod yn gwybod eu hawliau ac yn gallu mynnu eu hawliau.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:**<br>**www.complantcymru.org.uk**<br><br>**Cyswllt:**<br>**Comisiynydd Plant Cymru**<br>**Tŷ Ystumllwynarth**<br>**Phoenix Way**<br>**Llansamlet**<br>**Abertawe**<br>**SA7 9FS**<br>**Rhif ffôn: 01792 765600**<br>**Ffacs: 01792 765601**<br>**E-bost: post@complantcymru.org.uk** |

| | |
|---|---|
| **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** | **Rôl y Comisiynydd yw sicrhau bod buddiannau pobl hŷn yng Nghymru, sy'n 60 oed neu'n hŷn, yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo. Mae hefyd yn rhoi arweiniad strategol ac yn gweithredu fel llysgennad ac awdurdod ar faterion pobl hŷn, ac yn siarad ar eu rhan.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:**<br>**https://comisiynyddph.cymru**<br><br>**Cyswllt:**<br>**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**<br>**Adeiladau Cambrian**<br>**Sgwâr Mount Stuart**<br>**Tre-biwt**<br>**Caerdydd**<br>**C10 5FL**<br>**Rhif ffôn: 08442 640670 / 029 2044 5030**<br>**Ffacs: 08442 640680**<br>**E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru** |
| **Comisiynydd y Gymraeg** | **Rôl y Comisiynydd yw hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg; hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, a hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:**<br>**www.comisiynyddygymraeg.cymru**<br><br>**Cyswllt:**<br>**Comisiynydd y Gymraeg**<br>**Siambrau'r Farchnad**<br>**5/7 Heol Eglwys Fair**<br>**Caerdydd**<br>**CF10 1AT**<br>**Rhif ffôn: 029 2087 8000**<br>**Ffacs: 029 2087 8001**<br><br>**E-bost: post@welshlanguagecommissioner.org** |

| | |
|---|---|
| **Cyngor ar Bopeth** | **Mae gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn helpu pobl i ddatrys eu problemau cyfreithiol ac ariannol a phroblemau eraill drwy ddarparu cyngor annibynnol a chyfrinachol yn rhad ac am ddim, a thrwy ddylanwadu ar lunwyr polisi.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys swyddfeydd lleol, ar gael yn: www.citizensadvice.org.uk/** |
| **Galw Iechyd Cymru** | **Am gyngor iechyd 24 awr y dydd/7 diwrnod yr wythnos**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.nhsdirect.wales.nhs.uk**<br><br>**Cyswllt:**<br>**Galw Iechyd Cymru**<br>**Tŷ Thanet**<br>**10 Phoenix Way**<br>**Parc Anturiaeth**<br>**Abertawe**<br>**SA7 9EH**<br>**Rhif ffôn: 0845 46 47** |
| **Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol (AvMA)** | **Elusen annibynnol yw AvMA, sy'n hybu gwell diogelwch i gleifion a mwy o gyfiawnder i bobl y mae damwain feddygol wedi effeithio arnynt.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.avma.org.uk/**<br><br>**Cyswllt:**<br>**AvMA**<br>**44 High Street**<br>**Croydon**<br>**Surrey CRO 1YB**<br>**Rhif ffôn: 020 8688 9555**<br>**Ffacs: 020 8667 9065**<br>**Llinell Gymorth: 0845 123 23 52** |

| | |
|---|---|
| **Llais (Corff Llais y Dinesydd) (LLAISs)** | **Mae LLAISs yn gweithio i wella ansawdd gwasanaethau iechyd lleol.**<br>**Mae'n llais statudol ac annibynnol ym maes gwasanaethau iechyd, ac yn gallu darparu gwasanaethau eirioli ar gyfer pryderon.**<br><br>**Rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir, a sut i gysylltu â Llais (Corff Llais y Dinesydd) yng Nghymru**<br>**www.llais.org**<br><br>**Cyswllt:**<br>**Bwrdd Llais (Corff Llais y Dinesydd)**<br>**2il Lawr**<br>**33 - 35 Heol y Gadeirlan**<br>**Caerdydd**<br>**CF11 9HB**<br>**Rhif ffôn: 029 2023 5558**<br>**E-bost: ymholiadau@llaiscymru.org** |
| **Llais Ffoaduriaid Cymru** | **Mae Llais Ffoaduriaid Cymru yn sefydliad ambarél sy'n cynrychioli Mudiadau Cymunedol i Ffoaduriaid yng Nghymru. Cafodd ei sefydlu er mwyn grymuso ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan greu llwyfan i'w lleisiau.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:**<br>**www.refugeevoicewales.org/**<br><br>**Cyswllt:**<br>**Llais Ffoaduriaid Cymru**<br>**389 Heol Casnewydd**<br>**Caerdydd CF24 1TP**<br>**Rhif ffôn: 029 2043 2987 (uniongyrchol)**<br>**Rhif ffôn: 029 2048 9800 est 117 (anuniongyrchol)**<br>**Ffacs: 029 2043 2980**<br>**E-bost: info@refugeevoicewales.org** |

| | |
|---|---|
| **MIND** | **Mae MIND yn elusen sy'n darparu gwybodaeth a chyngor i ddiogelu a hybu iechyd meddwl da i bawb, ac mae'n sicrhau bod pobl sydd â phrofiad o drallod meddyliol yn cael eu trin yn deg, yn gadarnhaol a chyda pharch.**<br><br>**Mae'n bosibl dod o hyd i eiriolwyr iechyd meddwl drwy gysylltu â MIND (isod) neu drwy dîm lleol Llais (Corff Llais y Dinesydd) (uchod).**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.mind.org.uk**<br><br>**Cyswllt:**<br>**MIND Cymru**<br>**3ydd Llawr**<br>**Quebec House**<br>**Castlebridge,**<br>**5-19 Heol y Bont-faen**<br>**Caerdydd**<br>**CF11 9AB**<br>**Rhif ffôn: 029 2039 5123**<br>**Ffacs: 029 2034 6585 E-bost: contactwales@mind.org.uk** |

| | |
|---|---|
| **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** | **Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ceisio gweld a yw pobl wedi cael eu trin yn annheg neu'n anystyriol, neu wedi cael gwasanaeth gwael oherwydd rhyw fai ar ran y corff cyhoeddus a oedd yn darparu'r gwasanaeth hwnnw.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.ombwdsmon.cymru/**<br><br>**Cyswllt:**<br>**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**<br>**1 Ffordd yr Hen Gae**<br>**Pencoed**<br>**CF35 5LJ**<br>**Rhif ffôn: 01656 641 150**<br>**Ffacs: 01656 641 199**<br>**E-bost: holwch@ombwdsmon.cymru** |
| **Race Council Cymru** | **Race Council Cymru yw'r corff cyffredinol/ambarél a sefydlwyd yng Nghymru i ddwyn ynghyd sefydliadau allweddol sy'n gweithio i drechu rhagfarn, gwahaniaethu ar sail hil, aflonyddu, cam-drin a thrais.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.racecouncilcymru.org.uk**<br><br>**Cyswllt:**<br>**Race Council Cymru**<br>**2 Humphrey Street**<br>**Abertawe SA1 6BG**<br>**E-bost: info@racecouncilcymru.org.uk** |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB)** | **RNIB yw'r brif elusen yn y DU sy'n cynnig gwybodaeth, cefnogaeth a chyngor i bron i ddwy filiwn o bobl sydd wedi colli eu golwg.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.rnib.org.uk**<br><br>**Cyswllt:**<br>**RNIB Cymru**<br>**Llys Trident**<br>**Heol East Moors**<br>**Caerdydd**<br>**CF24 5TD**<br>**Rhif Ffôn: 029 2045 0440**<br>**Ffacs: 029 2044 9550**<br>**E-bost: cymruevents@rnib.org.uk** |
| **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru)** | **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw awdurdod annibynnol y DU a sefydlwyd i amddiffyn hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd, gan annog cyrff cyhoeddus i weithredu'n agored a hybu preifatrwydd data i unigolion.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.ico.gov.uk**<br><br>**Cyswllt:**<br>**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru)**<br>**2il Lawr Tŷ Churchill Ffordd Churchill Caerdydd**<br>**CF10 2HH**<br>**Rhif Ffôn: 029 2067 8400**<br>**Ffacs: 029 2067 8399**<br>**E-bost: wales@ico.gsi.gov.uk** |

| | |
|---|---|
| **Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** | **Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn darparu gwybodaeth ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â gwahaniaethu a hawliau dynol.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:: www.equalityhumanrights.com/wales/**<br><br>**Cyswllt:**<br>**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru**<br>**Rhadbost RRLR-UEYB-UYZL**<br>**3ydd Llawr**<br>**3 Sgwâr Callaghan**<br>**Caerdydd**<br>**CF10 5BT**<br>**Rhif ffôn: 029 20447710**<br>**Ffôn testun: 029 20447713**<br>**Ffacs: 029 20 447712**<br>**E-bost: wales@equalityhumanrights.com** |

| | |
|---|---|
| **Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol** | **Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn rheoleiddio gweithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig. Rhaid i bob deintydd, nyrs ddeintyddol, technegydd deintyddol, technegydd deintyddol clinigol, hylenydd deintyddol, therapydd deintyddol a therapydd orthodonteg fod wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i weithio yn y DU. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gwarchod y cyhoedd drwy gofrestru gweithwyr proffesiynol cymwysedig, gosod safonau ymddygiad ac ymarfer deintyddol, sicrhau ansawdd addysg ddeintyddol, sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol yr wybodaeth gyfredol, helpu cleifion gyda chwynion am ddeintydd neu weithiwr proffesiynol gofal deintyddol, a gweithio i gryfhau diogelwch cleifion.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.gdc-uk.org**<br><br>**Cyswllt:**<br>**General Dental Council**<br>**37 Wimpole Street**<br>**Llundain**<br>**W1G 8DQ**<br>**Rhif ffôn: 020 7887 3800**<br>**Ffacs: 020 7224 3294**<br>**E-bost: concerns@gdc-uk.org** |

| | |
|---|---|
| **Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol** | **Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol yw'r rheoleiddiwr ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a safleoedd fferyllfa ym Mhrydain Fawr. Mae'n gallu ymchwilio i gwynion a phryderon sy'n dangos y gallai cymhwyster gweithiwr fferyllol proffesiynol i ymarfer fod yn ddiffygiol.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys sut mae mynegi pryder am weithiwr fferyllol proffesiynol, ar gael yn: www.pharmacyregulation.org**<br><br>**Cyswllt:**<br>**The General Pharmaceutical Council**<br>**129 Lambeth Rd**<br>**Llundain**<br>**SE1 7BT**<br>**Rhif ffôn: 020 3365 3400**<br>**E-bost: info@pharmacyregulation.org** |
| **Y Cyngor Meddygol Cyffredinol** | **Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn cofrestru meddygon i ymarfer meddygaeth yn y DU. Pwrpas y Cyngor yw diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd a diogelwch y cyhoedd drwy sicrhau safonau priodol ym maes meddygaeth.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys sut i fynegi pryder am feddyg, ar gael yn: www.gmc-uk.org/**<br><br>**Dyma fanylion cyswllt swyddfa Ranbarthol y Cyngor Meddygol Cyffredinol yng Nghymru:**<br>**Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (Cymru)**<br>**Tŷ Regus**<br>**Rhodfa Falcon**<br>**Bae Caerdydd CF10 4RU**<br>**Rhif Ffôn: 029 2050 4060**<br>**E-bost: gmcwales@gmc-uk.org** |

| | |
|---|---|
| **Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth** | **Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn rheoleiddio nyrsys a bydwragedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r Ynysoedd.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys sut mae mynegi pryder am nyrs neu fydwraig, ar gael yn www.nmc-uk.org**<br><br>**Cyswllt:**<br>**23 Portland Place**<br>**Llundain**<br>**W1B 1PZ**<br>**Rhif ffôn: 020 7637 7181** |
| **Y Cyngor Optegol Cyffredinol** | **Y Cyngor Optegol Cyffredinol yw'r awdurdod rheoleiddio sy'n gyfrifol am gofrestru optometryddion ac optegwyr cyflenwi yn y DU, ac am oruchwylio addysg broffesiynol barhaus.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys sut i fynegi pryder am optegydd neu optometrydd, ar gael yn:**<br>**www.optical.org**<br><br>**Cyswllt:**<br>**General Optical Council**<br>**41 Harley Street**<br>**Llundain W1G 8DJ**<br>**Rhif ffôn: 020 7580 3898**<br>**Ffacs: 02743 63525**<br>**E-bost: goc@optical.org** |

| | |
|---|---|
| **Y Cyngor Proffesiynau Iechyd** | **Mae'r Cyngor Proffesiynau Iechyd yn gorff rheoleiddio annibynnol newydd sy'n gweithredu ar draws y DU ac yn gyfrifol am reoleiddio therapyddion, gwyddonwyr biofeddygol, ciropodyddion / podiatryddion, gwyddonwyr clinigol, deietegwyr, fferyllwyr cymhorthion clyw, therapyddion galwedigaethol, ymarferwyr adrannau llawdriniaeth, orthoptyddion, parafeddygon, ffisiotherapyddion, ymarferwyr seicoleg, prosthetyddion / orthotyddion, radiograffwyr, a therapyddion iaith a lleferydd.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys sut i fynegi pryder am unrhyw un o'r gweithwyr proffesiynol uchod, ar gael yn:**<br>**www.hpc-uk.org**<br><br>**Cyswllt:**<br>**Health & Care Professions Council**<br>**Park House**<br>**184 Kennington Park Road**<br>**Llundain SE11 4BU**<br>**Rhif ffôn: 08453 006184**<br>**Ffacs: 020 7820 9684** |
| **Y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg** | **Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn Gorff GIG sy'n gweithredu ar ran yr holl Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru. Eu gwaith craidd yw rhoi cyngor ynghylch esgeuluster clinigol.**<br><br>**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:**<br>**www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=255**<br><br>**Rhif ffôn: 029 2031 5500**<br>**Ffacs: 029 2031 5555**<br><br>**Mae'n bosibl cael cyngor gan sefydliadau GIG Cymru drwy anfon e-bost i:**<br>**redress@wales.nhs.uk** |

**Atodiad A – Templed cofnodi pryder a hysbyswyd ar lafar sydd wedi cael ei "ddatrys yn gynnar"** – Mae'n bosibl defnyddio'r ffurflen hon ar lefel ward i helpu staff y GIG i gofnodi pryder sydd wedi cael sylw'n syth.

Manylion y person sydd wedi mynegi'r pryder:

| | |
|---|---|
| **Teitl – Mr/Mrs/Miss/Ms/ Arall – nodwch:** | |
| **Enw llawn a dyddiad geni:** | |
| **Cyfeiriad a chod post:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | |
| **Rhif cyswllt yn ystod y dydd: Rhif ffôn symudol:** | |
| **Rhif GIG (os ydych chi'n ei wybod):** | |

Os nad y claf yw'r uchod, rhowch fanylion y claf:

| | |
|---|---|
| **Teitl – Mr/Mrs/Miss/Ms/ Arall – nodwch:** | |
| **Enw llawn a dyddiad geni:** | |
| **Cyfeiriad a chod post:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | |
| **Rhif cyswllt yn ystod y dydd: Rhif ffôn symudol:** | |
| **Rhif GIG (os ydych chi'n ei wybod):** | |

Manylion y pryder:

| | |
|---|---|
| **1.** | **Y dyddiad y daeth y pryder i'ch sylw** |
| | |
| **2.** | **Y dyddiad y digwyddodd y pryder os yw'n wahanol i'r uchod** |
| | |
| **3.** | **Os nad y claf yw'r person sydd wedi mynegi'r pryder, beth yw ei berthynas â'r claf** |
| | |
| **4.** | **Enw'r Ward/Adran/Ysbyty/unigolyn/Gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r pryder** |
| | |
| **5.** | **Pobl eraill sy'n ymwneud â'r pryder** |
| | |
| **6.** | **Amlinelliad o'r pryderon – beth aeth o'i le, disgrifiad o'r effaith, sut maen nhw wedi dioddef** |
| | |
| **7.** | **Beth mae'r claf/trydydd parti yn meddwl y dylid ei wneud i unioni pethau** |
| | |
| **8.** | **Camau a gymerwyd (gan gynnwys sut cafodd hyn ei gyfleu i'r claf/trydydd parti sydd wedi mynegi'r pryder)** |
| | |
| **9.** | **A yw'r person yn fodlon bod ei bryder wedi cael ei ddatrys erbyn hyn?** |
| | |

| Enw'r aelod o staff: | |
|---|---|
| **Llofnod:** | |
| **Dyddiad:** | |

## Atodiad B – Swydd-ddisgrifiad Uwch-reolwr Ymchwiliadau

**GIG Cymru**
**(Rhowch enw) Bwrdd Iechyd Lleol / Ymddiriedolaeth y GIG**

**SWYDD-DDISGRIFIAD**

**Teitl y Swydd:** Uwch-reolwr Ymchwiliadau
*(teitl dros dro – teitl y swydd i'w bennu gan y corff GIG)*

**Yn atebol i'r:** Swyddog Cyfrifol
*(rhowch deitl y Cyfarwyddwr Gweithredol perthnasol)*

**Yn gyfrifol am:** Y Tîm 'Ymdrin â Phryderon'

**Cysylltiadau Allweddol:**
Aelod Annibynnol Dynodedig o'r Bwrdd
Bwrdd Ymddiriedolaeth/Bwrdd Iechyd Lleol
Tîm Uwch-reolwyr
Timau Rheoli Ardal/Adrannol
Aelodau Cyd-bwyllgor/Is-bwyllgor/Pwyllgor Perthnasol
Clinigwyr, Staff, Contractwyr Annibynnol
Cleifion, Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Yr Heddlu a Chrwneriaid EF
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a rheoleiddwyr eraill
Llais (Corff Llais y Dinesydd)
Eiriolaeth a gwasanaethau cymorth eraill
Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg

Diogelwch Cleifion Cymru
Cronfa Risg Cymru
Cyrff Cyfrifol Eraill ac Awdurdodau Lleol
Llywodraeth Cymru

| | |
|---|---|
| **Cyflog a Thelerau ac Amodau Gwasanaeth:** | *i'w pennu'n lleol* |
| **Lleoliad:** | *i'w bennu'n lleol* |

## PWRPAS Y SWYDD / CRYNODEB

Bydd deiliad y swydd yn ysgwyddo cyfrifoldeb ac atebolrwydd drwy Swyddog Cyfrifol Gweithredol y Bwrdd am reoli a datblygu'n strategol drefniadau'r sefydliad ar gyfer ymateb i gwynion, hawliadau a digwyddiadau – sydd, gyda'i gilydd, yn cael eu galw'n 'bryderon' – yn unol â'r gofynion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu dull strategol hirdymor ar gyfer cyflwyno a chynnal systemau sy'n cydnabod yr angen i ddysgu o bryderon yn ogystal â cheisio camau unioni effeithiol i gleifion gan gynnwys, pan fydd hynny'n briodol, darparu Iawn i unrhyw un sydd wedi cael ei niweidio gan y gwasanaethau y mae'n eu darparu.

## DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

### 1. *Y Fframwaith Ymdrin â Phryderon*

- Cynllunio, datblygu a gweithredu polisïau a phrosesau i sicrhau bod y corff GIG yn bodloni gofynion y fframwaith *Gweithio i Wella*, gan gynnwys y trefniadau a'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli, ymchwilio, ceisio camau unioni, darparu Iawn a dysgu o bryderon y mae'r claf yn ganolog iddynt, ac ymdrin â nhw mewn ffordd agored a thryloyw.

- Sicrhau bod amrywiaeth o dechnegau'n cael eu defnyddio i helpu i ddatrys pryderon yn amserol, gan gynnwys cael cyngor clinigol annibynnol, cyngor cyfreithiol, hyrwyddo'r defnydd o eiriolaeth a hwyluso, bod yn agored, y Ddyletswydd Gonestrwydd, ymddiheuro a, lle bo'n briodol, cynnig digollediad, triniaeth bellach ac adsefydlu.

- Datblygu fframwaith ymchwilio integredig ar gyfer y sefydliad mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol i ystyried arferion gorau o ran technegau ymchwilio, er mwyn cynnal ymchwiliad llawn ac ystyrlon sy'n gymesur ag ystod a difrifoldeb y materion dan sylw.

- Datblygu proses lle mae'r ymchwiliadau a gynhelir yn nodi'r ffactorau cyfrannol a gwraidd y broblem a, phan fydd yn briodol, unrhyw atebolrwydd cymwys, ac mae'r camau gweithredu angenrheidiol yn cael eu nodi, gweithredu, monitro a'u gwerthuso er mwyn pennu effeithiolrwydd.  Dylai systemau fod ar waith i sicrhau, pan fydd yn briodol, bod yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu ar draws y sefydliad cyfan a thu hwnt.

- Sicrhau bod systemau ar waith i werthuso ansawdd ac amseroldeb yr ymchwiliad, a bod y camau unioni angenrheidiol i atal hyn rhag digwydd eto yn cael eu gweithredu, eu monitro a'u gwerthuso'n briodol.

- Datblygu, ar y cyd â sefydliadau eraill a thrwy rwydweithiau o ddeiliaid swyddi tebyg, fethodolegau cyson ar gyfer gweithredu arferion gorau wrth ymdrin â phryderon.

- Datblygu trefniadau cadarn ar gyfer cynnal ymchwiliadau ar y cyd â chyrff eraill fel y bo'n briodol.

- Rheoli'r adnoddau sy'n cael eu dyrannu i'r swyddogaeth 'ymdrin â phryderon'.

- Sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â gofynion monitro a rheoli perfformiad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phryderon.

**2. *Cyfathrebu a Pherthnasoedd***

- Rhoi arweiniad a chyngor i Swyddogion Gweithredol Byrddau ac Aelodau Annibynnol, clinigwyr a rheolwyr ar ddiogelwch cleifion ac ar drin a delio â phryderon.

- Gweithio gyda staff cyfathrebu i ddelio â'r cyfryngau ac unrhyw faterion sy'n deillio o bryderon.

- Sicrhau bod cyrff allanol neu reoleiddwyr yn cael gwybod yn briodol ac yn brydlon am unrhyw bryderon, gan gynnwys unrhyw ddigwyddiadau diogelwch cleifion neu anffafriol difrifol, a bod y pryderon yn cael eu trin yn effeithiol wedi hynny.

- Datblygu perthynas ragweithiol gyda'r holl randdeiliaid allweddol a phartïon sydd â diddordeb, fel y rhestrwyd uchod.

- Chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddiogelu a gwella enw da'r sefydliad a GIG Cymru.

**3. *Rheoli a Datblygu Tîm***

- Datblygu strwythur tîm sy'n bodloni'r gofynion a nodwyd yng nghanllawiau interim diweddar Llywodraeth Cymru ar drin pryderon (Medi 2009), ac unrhyw fersiynau neu ychwanegiadau dilynol i'r canllawiau hyn.

- Cyflwyno strwythur adrannol i sicrhau bod rolau'n cael eu diffinio a bod llinellau awdurdod a chyfrifoldeb pendant. Sicrhau bod cymysgedd digonol o staff a sgiliau i gyflawni gofynion y canllawiau,

gan nodi'r profiad, y cymwyseddau a'r statws priodol sydd eu hangen i gynnal ymchwiliadau effeithiol, i feintoli unrhyw atebolrwydd cymwys, i gynnig datrysiad priodol pan fydd yn briodol, i roi digon o gefnogaeth i'r staff ac i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu.

- Datblygu'r tîm i ddarparu cymorth proffesiynol i dimau adrannol/cyfarwyddiaeth a gofal sylfaenol wrth iddyn nhw ymchwilio i bryderon, gan sicrhau bod yr ymchwiliadau'n cael eu cynnal yn amserol ac yn unol â lefel gyson o ansawdd.

**4. *Hyfforddiant, Addysg a Chefnogaeth***

- Sicrhau bod rhaglen hyfforddi sy'n seiliedig ar gymhwysedd ar waith ar draws y sefydliad mewn perthynas â delio â phryderon ac ymchwilio iddyn nhw, gan gynnwys *Bod yn Agored a'r Ddyletswydd Gonestrwydd*. Bydd y rôl hon yn cynnwys gwneud yn siŵr bod systemau ar waith i sicrhau bod yr hyfforddiant a ddarperir yn bodloni'r safonau gofynnol a bod staff yn gallu cynnal cymhwysedd.

- Gweithio gyda chydweithwyr Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad i arwain a helpu staff i ddatblygu diwylliant agored a theg fel bod staff yn cael eu cefnogi a'u rheoli'n deg, a bod staff yn teimlo eu bod yn gallu bod yn agored pan fydd pethau'n mynd o'i le.

- Sicrhau bod gan y sefydliad systemau effeithiol ar waith i gefnogi staff. Pan fydd aelod o staff yn gysylltiedig â digwyddiad, sicrhau bod systemau cymorth ar gael drwy'r Rheolwr Ymchwiliadau ac adran Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad.

- Gweithio'n agos gydag arweinwyr *Bod yn Agored* i hyrwyddo diwylliant o fod yn agored gyda chleifion a'u gofalwyr.

**5. *Gwella a Sicrhau Ansawdd***

- Sicrhau bod y gwaith o ddelio â phryderon ac unrhyw gamau sy'n deillio ohonynt yn bodloni gofynion *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru*.

- Sicrhau bod y gwersi a ddysgir o bryderon yn cyd-fynd â blaenoriaethau, prosesau a gweithgareddau gwella ansawdd y sefydliad.

- Cyfrannu at fframwaith sicrwydd y bwrdd a gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol i ddatblygu a chytuno ar y lefel ofynnol o wybodaeth i'w hadrodd i'r Bwrdd ac unrhyw bwyllgor dynodedig. Dylai sicrwydd ymestyn i gynnwys ymchwilio i faterion a'r gwersi a ddysgwyd i leihau'r risg y bydd hyn yn digwydd eto, er mwyn gwella safonau ym maes diogelwch a gofal cleifion.

- Datblygu fframwaith gwerthuso ac asesu i sicrhau bod ymchwiliadau a’r broses o bennu camau unioni yn cael eu cyflawni yn unol â'r safon ofynnol.

6. ***Cyffredinol** – fel sy’n ofynnol gan y sefydliad, ee iechyd a diogelwch, arfarnu ac ati.*

**MANYLEB Y PERSON**

**Cymwysterau**

- Addysg hyd at lefel gradd Meistr (neu lefel ôl-radd gyfatebol)
- Cymhwyster rheoli
- Profiad o reoli prosiectau
- Tystiolaeth o ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus

**Profiad a Gwybodaeth**

- Profiad sylweddol o weithio gydag uwch reolwyr ac aelodau bwrdd
- Profiad o weithio ac ymgysylltu ag uwch staff clinigol
- Profiad o arwain/rheoli gwasanaethau a thimau
- Tystiolaeth amlwg o weithio’n llwyddiannus mewn tîm amlddisgyblaethol
- Profiad helaeth o ddelio â chleifion a’r cyhoedd
- Profiad amlwg o weithio mewn partneriaeth yn fewnol ac yn allanol
- Wedi cael hyfforddiant ar dechnegau ymchwilio a delio â phryderon ynghylch diogelwch cleifion a rheoli risg a risg, ac wedi cael profiad o hynny, gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau ategol – ee Bod yn Agored, Dyletswydd Gonestrwydd, Dadansoddi Gwraidd y Broblem, a Choed Penderfyniad ar Ddigwyddiad
- Tystiolaeth amlwg o ddelio’n effeithiol ag ymchwiliad mewnol / allanol i bryderon
- Tystiolaeth amlwg a chyson o ddysgu ar lefel sefydliadol a phersonol ac o newid yn sgil pryderon ynghylch diogelwch cleifion, pryderon ynghylch profiad cleifion neu raglenni gwella
- Tystiolaeth amlwg o sgiliau hwyluso wrth drin/delio â materion anodd, dadleuol neu sensitif yn ogystal â delio â gwrthdaro
- Profiad o Hwyluso/Cyfryngu
- Gwybodaeth am yr agenda ansawdd a diogelwch ar gyfer cleifion a chyfeiriad polisi’r GIG

**Galluoedd a Rhinweddau Personol**

- Sgiliau arwain, hyfforddi a rheoli amlwg
- Gallu cymell ei hun, bod yn rhagweithiol a thorri tir newydd
- Gallu ysgogi eraill a gweithio ar ei liwt ei hun
- Sgiliau rhyngbersonol, dylanwadu a thrafod effeithiol
- Cryf a hyblyg

- Gallu delio â gwahanol ofynion a disgwyliadau
- Cyfathrebwr da
- Sgiliau cyflwyno effeithiol ar lafar ac ar bapur
- Sgiliau dadansoddi – gallu gwneud penderfyniadau am ffeithiau neu sefyllfaoedd cymhleth iawn
- Gallu dadansoddi gwybodaeth, paratoi adroddiadau a defnyddio gwybodaeth i lywio penderfyniadau
- Gallu dysgu o brofiad ac addasu i newidiadau a heriau newydd
- Ymrwymedig i'w ddatblygiad parhaus ei hun a'r staff
- Sgiliau cyfrifiadurol sylfaenol

# Atodiad D – Cysylltiadau eiriolaeth

## Llais (Corff Llais y Dinesydd) yng Nghymru

I gael gafael ar wasanaethau eirioli er mwyn bwrw ymlaen â phryder am GIG Cymru, cysylltwch â Llais (Corff Llais y Dinesydd) yng Nghymru

Gwefan: www.llaiscymru.org
E-bost: ymholiadau@llaiscymru.org

## Plant a Phobl Ifanc

Cysylltwch â Meic ar **080880 23456** neu ewch i'r wefan www.meiccymru.org. Bydd Meic yn gwrando, yn cynnig cymorth ac yn cyfeirio'r achos at rywun a all helpu i ddatrys y gŵyn. Er mai llinell gymorth i blant a phobl ifanc yw Meic, rydym yn sylweddoli y bydd plant a phobl ifanc weithiau'n gofyn i oedolyn y maen nhw'n ymddiried ynddo i'w helpu neu i chwilio am wybodaeth ar eu rhan. Mae'r adran gweithwyr proffesiynol ar wefan Meic yn cynnwys erthyglau newyddion perthnasol a chronfa ddata gynhwysfawr o wasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc, hyd at 25 oed, yng Nghymru.

## Atodiad E – Templed cofnodi pryderon a hysbyswyd ar lafar y dylid defnyddio'r Rheoliadau i ddelio â nhw

**Dylai staff y GIG lenwi'r ffurflen hon ar ran person sy'n dymuno mynegi ei bryderon ar lafar, a phan ddefnyddir y Rheoliadau i ddelio â'r pryder. Dylid rhoi copi o'r ffurflen orffenedig i'r person sydd wedi mynegi'r pryder – gellir addasu'r ffurflen hon hefyd a'i chynnwys pan ofynnir yn benodol am y daflen, er mwyn helpu'r person sydd wedi mynegi pryder i wybod pa wybodaeth y mae angen ei rhannu â'r sefydliad GIG**

### ADRAN A: Manylion y person sydd wedi mynegi'r pryder

| | |
|---|---|
| **Teitl – Mr/Mrs/Miss/Ms/ Arall – nodwch:** | |
| **Enw llawn a dyddiad geni:** | |
| **Cyfeiriad a chod post:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | |
| **Rhif cyswllt yn ystod y dydd:<br>Rhif ffôn symudol:** | |
| **Rhif GIG:** | |

Dywedwch pa ddull cyswllt y byddech chi'n ei ffafrio:

Cymraeg [ ] neu Saesneg [ ]

[ ] Ysgrifenedig: Post [ ]
E-bost [ ]

Neu

[ ] Ar Lafar: Dros y Ffôn [ ]
Wyneb yn wyneb [ ]

Os oes gennych chi unrhyw ofynion arbennig, er enghraifft os nad Cymraeg/Saesneg yw eich iaith gyntaf neu os oes gennych nam ar y synhwyrau, rhowch wybod i ni:

## ADRAN B: Manylion y person sy’n ymwneud â'r pryder os yw’n wahanol i adran A

| | |
|---|---|
| **Enw llawn a dyddiad geni’r claf:** | |
| **Cyfeiriad a chod post y claf:** | |
| **Beth yw'ch perthynas â’r claf yma? Hynny yw, ffrind/perthynas/perthynas agosaf/eiriolwr/gofalwr ac ati** | |

## ADRAN C: Manylion y pryder

**(Dylai staff y GIG geisio cael atebion i’r cwestiynau canlynol – gallwch barhau ar ddalen(nau) ar wahân os oes angen).**

| | |
|---|---|
| **1.** | **Enw'r ysbyty/practis meddyg teulu/adran/gwasanaeth y mae gennych chi bryderon yn ei gylch.** |
| | |
| **2.** | **Yn eich barn chi, beth oedd wedi'i wneud o'i le, neu beth oedd wedi methu ei wneud?** |
| | |
| **3.** | **Disgrifiwch sut mae hyn wedi effeithio arnoch chi'n bersonol a/neu'r claf, neu sut rydych chi a/neu'r claf wedi dioddef.** |
| | |
| **4.** | **Beth ydych chi'n meddwl ddylid ei wneud i wneud iawn am hyn?** |
| | |
| **5.** | **Y dyddiad y digwyddodd y pryder neu y daethoch chi'n ymwybodol gyntaf o'r pryder.** |
| | |
| **6.** | **Os oes mwy na 12 mis wedi mynd heibio ers i chi ddod yn ymwybodol o'r pryder, rhowch y rheswm pam nad ydych chi wedi mynegi'r pryder hwn cyn hyn.** |
| | |
| **7.** | **Cofiwch atodi unrhyw ddogfennau i gefnogi eich pryder.** |
| | |

**ADRAN D: Os mai'r claf yw'r person sy'n mynegi'r pryder, gofynnwch i'r claf ddarllen y datganiad a llofnodi isod.**

Drwy hyn, rwy'n cytuno bod fy nghofnodion iechyd (ee, Ysbyty, Meddyg Teulu ac ati) ac unrhyw wybodaeth bersonol yn gallu cael eu defnyddio wrth ymchwilio i fy mhryder. Rwy'n deall y bydd mynediad at fy nghofnodion a fy ngwybodaeth bersonol yn cael ei gyfyngu i'r hyn sy'n berthnasol i'r ymchwiliad i'r pryder, ac mai dim ond pobl sydd angen gweld fy nghofnodion a fy ngwybodaeth bersonol er mwyn ymchwilio i fy mhryder fydd yn cael gweld yr wybodaeth honno.

| | |
|---|---|
| **Llofnod y claf:** | |
| **Dyddiad:** | |

**ADRAN E: Os nad y claf yw'r person sy'n mynegi'r pryder, llenwch yr adran hon:**

Drwy hyn, rwy'n awdurdodi

| | |
|---|---|
| **Manylion y person sydd wedi mynegi'r pryder:** | |
| **Cyfeiriad (os yw'n wahanol i'r uchod):** | |

i weithredu ar fy rhan, ac i dderbyn unrhyw a phob darn o wybodaeth a fyddai'n gallu bod yn berthnasol i'r pryder.

Drwy hyn, rwy'n cytuno bod fy nghofnodion iechyd (ee, Ysbyty, Meddyg Teulu ac ati) ac unrhyw wybodaeth bersonol yn gallu cael eu defnyddio wrth ymchwilio i fy mhryder.  Rwy'n deall y bydd mynediad at fy nghofnodion a fy ngwybodaeth bersonol yn cael ei gyfyngu i'r hyn sy'n berthnasol i'r ymchwiliad i'r pryder, ac mai dim ond pobl sydd angen gweld fy nghofnodion a fy ngwybodaeth bersonol er mwyn ymchwilio i fy mhryder fydd yn cael gweld yr wybodaeth honno.

| | |
|---|---|
| **Llofnod y claf:** | |
| **Dyddiad:** | |

# Atodiad F – Templed i'w ddefnyddio pan fydd mwy nag un corff cyfrifol

**Rheoliadau 17 ac 19**
**Llythyr Cydnabod (dylid ei anfon o fewn 2 ddiwrnod gwaith) at y claf/trydydd parti sydd naill ai:**

- **yn mynegi pryder sy'n ymwneud â mwy nag un corff cyfrifol neu**
- **yn mynegi pryder wrth Fwrdd Iechyd Lleol ynghylch ymarferydd gofal sylfaenol**

Annwyl *[enw'r claf neu drydydd parti]*

Ynghylch: *[enw'r claf yn achos trydydd parti a chrynodeb o'ch dealltwriaeth o'r pryder]*

Diolch i chi am eich ymholiad ar ffurf *llythyr/e-bost/ffacs/galwad ffôn* ar *[00.00.00]* a dderbyniwyd ar *[00.00.00],* ac am roi o'ch amser i gysylltu â ni gyda'ch pryder(on) ynghylch *[rhowch enw'r cyrff cyfrifol neu'r ymarferydd gofal sylfaenol/practis].* Hoffem ymddiheuro'n ddiffuant am y trallod a'r anhwylustod y mae hyn yn amlwg wedi'i achosi *i chi,* neu y mae hyn yn amlwg wedi'i achosi i *[rhowch enw'r claf]* yn ogystal ag i chi a gweddill y teulu *[i'w ddefnyddio fel y bo'n briodol].*

**Yna, ar gyfer pryderon sy'n ymwneud â mwy nag un corff cyfrifol, defnyddiwch naill ai'r canlynol:**

<u>Ar gyfer cleifion:</u> Mae'n ymddangos bod eich pryder yn ymwneud â gwasanaethau a gafodd eu darparu gennym ni a *[rhowch enw'r corff cyfrifol arall].* Gyda'ch caniatâd, hoffwn gysylltu â'r sefydliad arall er mwyn i ni allu cytuno i ymchwilio i'r mater hwn ar y cyd, a rhoi un ymateb i chi sy'n rhoi sylw i'ch holl bryderon. I ymchwilio i'r materion yn effeithlon, mae'n bosibl y bydd angen i ni rannu gwybodaeth â *[y sefydliad arall]*, a byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn cysylltu â mi cyn gynted â phosibl i roi gwybod a ydych chi'n fodlon i mi fwrw ymlaen.

<u>Ar gyfer trydydd partïon:</u> Mae'n ymddangos bod eich pryder ynghylch *[rhowch enw'r claf]* yn cynnwys gwasanaethau a gafodd eu darparu gennym ni a *[rhowch enw'r corff cyfrifol arall].* Gyda chaniatâd *[Rhowch enw'r claf]*, hoffwn gysylltu â'r sefydliad arall er mwyn i ni allu cytuno i ymchwilio i'r mater hwn ar y cyd, a rhoi un ymateb i chi sy'n rhoi sylw i'ch holl bryderon. I ymchwilio i'r materion yn effeithlon, mae'n bosibl y bydd angen i ni rannu gwybodaeth â *[y sefydliad arall]*. Gan nad chi yw'r claf, bydd angen i mi gael caniatâd ysgrifenedig y claf ei fod yn fodlon i mi fwrw ymlaen.

**Neu, ar gyfer pryderon sydd wedi cael eu mynegi wrth Fwrdd Iechyd Lleol am ymarferydd gofal sylfaenol, defnyddiwch y canlynol:**

Cyn penderfynu ar y ffordd orau o ymdrin â'ch pryder, mae angen i ni gael cadarnhad gennych chi ynghylch a ydych eisoes wedi mynegi'ch pryder yn uniongyrchol wrth *[enw'r darparwr gofal sylfaenol]*, ac a ydych wedi cael ateb. Os felly, ni allwn ymchwilio i'ch pryder eto. Os nad yw'r mater hwn wedi cael ei godi

o'r blaen gyda *[enw'r darparwr gofal sylfaenol]*, bydd angen i ni benderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i ymchwilio.

*Caniatâd i gael cofnodion meddygol gan bractis gofal sylfaenol*

<u>Addas ar gyfer y claf neu drydydd parti:</u> Mae cyfrinachedd yn bwysig iawn i ni, ac mae'n bwysig eich bod chi'n gwybod y bydd angen i ni/efallai y bydd angen i ni gael mynediad at eich cofnodion meddygol chi/at gofnodion meddygol *[rhowch enw'r claf]* (ee, Ysbyty, Meddyg Teulu ac ati) os byddwn yn penderfynu ymchwilio i'ch pryder, er mwyn i ni allu gweld beth maen nhw'n ei ddweud am y sefyllfa rydych chi wedi sôn wrthym ni amdani. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i ni gael y cofnodion hyn gan yr ymarferydd gofal sylfaenol dan sylw *[a/neu Sefydliad arall y GIG],* ac felly bydd angen i ni gael eich caniatâd chi/caniatâd *[enw'r claf]* ar gyfer hyn, a thrafod eich pryder â *[rhowch enw'r darparwr gofal sylfaenol]* ar eich rhan chi/ar ran *[enw'r claf]*. Mae angen i chi lenwi/trefnu bod *[rhowch enw'r claf]* yn llenwi'r ffurflen ganiatâd sydd wedi'i hamgáu a'i dychwelyd ataf fi cyn gynted â phosibl.

Cofiwch, os na fyddwn ni'n cael caniatâd i drafod eich pryder gyda *[enw'r darparwr gofal sylfaenol]* ac wrth wneud hynny gael copi o'ch cofnodion meddygol chi neu gofnodion meddygol *[rhowch enw'r claf]*, bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a allwn ni ymchwilio i'r pryder ein hunain.

<u>Ar gyfer trydydd partïon, ychwanegwch hefyd:</u> Gan nad chi yw'r claf, bydd angen caniatâd y claf arnom hefyd i ryddhau gwybodaeth i chi mewn unrhyw ateb. Mae hyn i gyd wedi'i gynnwys yn y ffurflen ganiatâd.

*Ymchwiliad i bryderon am ymarferwyr gofal sylfaenol gan Fyrddau Iechyd Lleol*

Ar ôl penderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i ymchwilio i'ch pryder, byddwn yn rhoi gwybod i chi o fewn 5 diwrnod gwaith. Os ydym ni'n mynd i ymchwilio, byddwn yn rhoi gwybod i chi bryd hynny beth allai'r ymchwiliad ei gynnwys. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am y llythyr hwn, am y broses ymchwilio neu am y pryder rydych wedi'i fynegi, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

*[Rhowch enw aelod staff y tîm pryderon]*

Amg Ffurflen ganiatâd i gysylltu ag ymarferydd gofal sylfaenol a chael mynediad at gofnodion meddygol
Taflen Gweithio i Wella

**Paragraffau ychwanegol yr awgrymir eu defnyddio mewn cydnabyddiaethau pan honnir bod niwed wedi cael ei achosi/pan fydd ymarferydd gofal**

**sylfaenol wedi torri'r ddyletswydd gofal, a phan fydd y Bwrdd Iechyd Lleol wedi cael cais i ymchwilio**

Yn gyntaf, byddaf yn egluro fy nealltwriaeth i o'ch pryder am *[rhowch enw'r claf]:*

- x
- x

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gallu ymchwilio i'r agweddau canlynol ar eich pryder:

- x
- x

Rwy'n nodi eich bod wedi honni bod y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd gan *[rhowch enw'r ymarferydd gofal sylfaenol]* wedi achosi niwed i chi. Fodd bynnag, dylem dynnu sylw at y ffaith nad ydym ni'n gallu gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch a oedd *[rhowch enw'r ymarferydd gofal sylfaenol]* ar fai yn gyfreithiol mewn perthynas â'ch gofal a'ch triniaeth – rydym yn galw hyn yn achos o dorri'r ddyletswydd gofal a allai fod wedi achosi niwed i chi. Y rheswm am hyn yw nad yw elfennau Iawn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 yn berthnasol i ddarparwyr gofal sylfaenol, ac felly, er bod y Bwrdd Iechyd yn gallu ymchwilio i'r hyn a ddigwyddodd, ni allwn lunio barn ynghylch a oedd *[rhowch enw'r darparwr gofal sylfaenol] ar fai yn gyfreithiol.* Mae hyn yn golygu na allwn ni ystyried rhoi unrhyw fath o ddigollediad ariannol i chi.

Os ydych chi'n fodlon rhoi caniatâd i mi gyfeirio eich pryder at *[rhowch enw'r ymarferydd gofal sylfaenol]*, byddaf yn anfon eich llythyr dyddiedig *[rhowch y dyddiad]* at *[rhowch enw'r ymarferydd gofal sylfaenol]* i'w hysbysu y byddwn ni'n ymchwilio i'r pryderon sydd wedi cael eu hamlinellu uchod. Gan eich bod hefyd wedi honni bod niwed wedi'i achosi i chi, byddaf hefyd yn *ei gynghori ef/ei chynghori hi/eu cynghori nhw* i roi gwybod i'w sefydliad amddiffyn meddygol am eich pryder.

Fel arall, yn sgil yr hyn rwyf wedi'i egluro uchod, os byddai'n well gennych i'r Bwrdd Iechyd beidio â chymryd rhan, efallai y byddwch chi am roi manylion eich pryder yn uniongyrchol i *[rhowch enw'r ymarferydd gofal sylfaenol]*, a gofyn iddyn nhw gysylltu â'u sefydliad amddiffyn meddygol gyda'r bwriad o ymchwilio i'r materion rydych chi wedi'u codi.

Efallai y byddwch am ystyried gofyn am gyngor cyfreithiol gan gynghorydd cyfreithiol annibynnol i'ch galluogi i fwrw ymlaen ymhellach â'ch pryder ynghylch *[rhowch enw'r ymarferydd gofal sylfaenol]*.

Gofynnaf yn garedig i chi gadarnhau'n ysgrifenedig neu gysylltu â mi dros y ffôn ar *[rhowch fanylion cyswllt]* i gadarnhau sut hoffech chi symud ymlaen.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynghylch cynnwys y llythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â mi.

# Ffurflen ganiatâd

## ADRAN A: Manylion y person sy'n ymwneud â'r pryder

| | |
|---|---|
| **Enw llawn y claf:** | |
| **Cyfeiriad:** | |
| **Dyddiad Geni:** | |
| **A yw'r ymarferydd gofal sylfaenol eisoes wedi ymateb i'r pryder:** | |
| **Perthynas â'r person sydd wedi mynegi'r pryder:** | |

## ADRAN B: Manylion y trydydd parti sydd wedi mynegi'r pryder – llenwch os yw'n berthnasol

Drwy hyn, rwy'n awdurdodi:

| | |
|---|---|
| **Manylion y person sydd wedi mynegi'r pryder:** | |
| **Cyfeiriad (os yw'n wahanol i'r uchod):** | |

I weithredu ar fy rhan, ac i dderbyn unrhyw a phob darn o wybodaeth a allai fod yn berthnasol i'r pryder.

## ADRAN C: I'w llenwi gan y claf

Drwy hyn, rwy’n cytuno bod fy mhryder yn gallu cael ei drafod â’r ymarferydd gofal sylfaenol dan sylw, a bod modd defnyddio fy nghofnodion iechyd (ee, Ysbyty, Meddyg Teulu ac ati) ac unrhyw wybodaeth bersonol wrth ymchwilio i’m pryder.  Rwy’n deall mai dim ond y bobl hynny sydd angen gweld fy nghofnodion a fy ngwybodaeth bersonol er mwyn ymchwilio i fy mhryder fydd yn cael mynediad atyn nhw, ac mai dim ond yr adrannau hynny yn fy nghofnodion iechyd sy’n berthnasol i’r ymchwiliad i’r pryder fydd yn cael eu defnyddio.

| | |
|---|---|
| **Llofnod y claf:** | |
| **Dyddiad:** | |

# Atodiad G – Templed o Lythyrau cydnabod

**Rheoliad 22 – Templed Llythyr 1**
**Llythyr Cydnabod at Glaf sydd wedi mynegi Pryder (dylid ei anfon o fewn 2 ddiwrnod gwaith)**

Annwyl *[Rhowch enw'r claf]*

Ynghylch: *[Crynodeb o'ch dealltwriaeth o'r pryder]*

Diolch i chi am eich ymholiad ar ffurf *llythyr/e-bost/ffacs/galwad ffôn* ar *[00.00.00]* a dderbyniwyd ar *[00.00.00],* ac am roi o'ch amser i gysylltu â ni gyda'ch pryder(on). Hoffem ymddiheuro'n ddiffuant am y trallod a'r anhwylustod y mae hyn yn amlwg wedi'i achosi i chi.

*Pwynt cyswllt*

Fi fydd eich cyswllt yn y *Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth* tra bydd eich pryder yn cael ei ystyried. Rwyf ar gael i drafod â chi unrhyw elfen o'r broses o fwrw ymlaen â'ch pryder. Hefyd, os oes gennych chi unrhyw ofynion arbennig, fel anghenion iaith, clyw neu olwg, cofiwch roi gwybod i mi. Mae fy rhif ffôn a'm manylion e-bost i'w gweld isod. Mae'r wybodaeth ganlynol yn egluro'r gefnogaeth ychwanegol sydd ar gael i chi, a'r broses ymchwilio gyffredinol.

*Help a chymorth*

Os oes angen help annibynnol arnoch chi i fwrw ymlaen â'ch pryder, mae gwasanaethau eirioli a chymorth ar gael i chi drwy eich tîm Llais lleol (Corff Llais y Dinesydd), fel y mae'r daflen sydd wedi'i hamgáu yn egluro.

*Cofnodion meddygol*

Mae cyfrinachedd yn bwysig iawn i ni, ac mae'n bwysig eich bod chi'n gwybod y bydd angen i ni/efallai y bydd angen i ni gael mynediad at eich cofnodion meddygol chi (ee, Ysbyty, Meddyg Teulu ac ati) i ymchwilio i'ch pryder, er mwyn i ni allu gweld beth maen nhw'n ei ddweud am y sefyllfa rydych chi wedi sôn wrthym ni amdani. Os nad ydych chi'n fodlon â hynny, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith. Os na fyddwn yn clywed gennych chi o fewn y dyddiau nesaf, byddwn yn cymryd eich bod yn fodlon i'r ymchwiliad barhau ac yn caniatáu mynediad at eich nodiadau. Gallwch fod yn dawel eich meddwl mai dim ond pobl sy'n delio'n uniongyrchol â'r ymchwiliad fydd yn gallu edrych ar eich nodiadau.

*Ymchwiliad*

Byddwn ni'n awr yn edrych ar eich pryder, a allai gynnwys edrych ar ddogfennau perthnasol, siarad â staff a gofyn am farn glinigol. Mae'n bosibl y bydd angen i ni hefyd siarad â chi yn ystod yr ymchwiliad, neu ofyn i chi ddod i

gyfarfod.  Ar ôl hynny, byddwn yn ymateb i chi i egluro ein canfyddiadau a'r camau a gymerwyd.

Fel arfer, byddwn yn eich ateb o fewn 30 diwrnod gwaith i'ch pryder ddod i law.  Mae hyn yn golygu y dylech ddisgwyl ateb gennym erbyn *[00.00.00].*  Os na fyddwn yn gallu ymateb o fewn y cyfnod hwn neu os bydd angen ymchwilio ymhellach, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

Gobeithio bod hyn wedi bod yn ddefnyddiol i chi, ac mae croeso i chi gysylltu os hoffech chi drafod unrhyw elfen o'r llythyr hwn.

Yn gywir

*[Rhowch enw aelod staff y tîm pryderon]*
Amg Taflen Gweithio i Wella

---

**Rheoliad 22 – Templed Llythyr 2**
**Llythyr Cydnabod at Drydydd Partner sydd wedi mynegi Pryder ar ran claf (dylid ei anfon o fewn 2 ddiwrnod gwaith)**

Annwyl *[Rhowch enw'r Trydydd Parti]*

Ynghylch: *[Rhowch enw'r claf a chrynodeb o'ch dealltwriaeth o'r pryder]*

Diolch i chi am eich ymholiad ar ffurf *llythyr/e-bost/ffacs/galwad ffôn* ar *[00.00.00]* a dderbyniwyd ar *[00.00.00],* ac am roi o'ch amser i gysylltu â ni ynghylch pryder(on) *[rhowch enw'r claf]*.  Hoffem ymddiheuro'n ddiffuant am y trallod a'r anhwylustod y mae hyn yn amlwg wedi'i achosi i *[rhowch enw'r claf],* yn ogystal ag i chi a gweddill y teulu *[i'w ddefnyddio fel y bo'n briodol].*

*Pwynt cyswllt*

Fi fydd eich cyswllt yn y *Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth* tra bydd eich pryder yn cael ei ystyried.  Rwyf ar gael i drafod â chi unrhyw elfen o'r broses o fwrw ymlaen â'ch pryder.  Hefyd, os oes gennych chi unrhyw ofynion arbennig, fel anghenion iaith, clyw neu olwg, cofiwch roi gwybod i mi.  Mae fy rhif ffôn a'm manylion e-bost i'w gweld isod.  Mae'r wybodaeth ganlynol yn egluro'r gefnogaeth ychwanegol sydd ar gael i chi, a'r broses ymchwilio gyffredinol.

*Help a chymorth*

Os oes angen help annibynnol arnoch chi i fwrw ymlaen â'ch pryder, mae gwasanaethau eirioli a chymorth ar gael i chi drwy eich tîm Llais lleol (Corff Llais y Dinesydd), fel y mae'r daflen sydd wedi'i hamgáu yn egluro.

*Cofnodion Meddygol*

Mae cyfrinachedd yn bwysig iawn i ni, ac mae'n bwysig eich bod chi'n gwybod y bydd angen i ni/efallai y bydd angen i ni gael mynediad at gofnodion meddygol *[rhowch enw'r claf]* (ee, Ysbyty, Meddyg Teulu ac ati) i ymchwilio i bryder, er mwyn i ni allu gweld beth maen nhw'n ei ddweud am y sefyllfa rydych chi wedi sôn wrthym ni amdani. Mae ffurflen ganiatâd wedi'i hamgáu gyda'r llythyr hwn. Mae'n rhaid i'r ffurflen gael ei llofnodi gan *[rhowch enw'r claf],* er mwyn dangos bod y claf yn deall y bydd angen i ni wneud hyn o bosibl, a bod y claf yn rhoi caniatâd i wybodaeth am ei driniaeth a'i ofal gael ei rhyddhau i chi.

*Ymchwiliad*

Ar ôl i ni gael caniatâd *[rhowch enw'r claf]*, byddwn yn edrych ar eich pryder, a allai gynnwys edrych ar ddogfennau perthnasol, siarad â staff a gofyn am farn glinigol. Mae'n bosibl y bydd angen i ni hefyd siarad â *[rhowch enw'r claf]*, neu ofyn i chi a'r claf ddod i gyfarfod. Ar ôl hynny, byddwn yn ymateb i chi i egluro ein canfyddiadau a'r camau a gymerwyd.

Fel arfer, byddwn yn eich ateb o fewn 30 diwrnod gwaith i'ch pryder ddod i law. Mae hyn yn golygu y dylech ddisgwyl ateb gennym erbyn *[00.00.00].* Os na fyddwn yn gallu ymateb o fewn y cyfnod hwn neu os bydd angen ymchwilio ymhellach, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

Gobeithio bod hyn wedi bod yn ddefnyddiol i chi, ac mae croeso i chi gysylltu os hoffech chi drafod unrhyw elfen o'r llythyr hwn.

Yn gywir

*[Rhowch enw aelod staff y tîm pryderon]*
Amg. Ffurflen ganiatâd
Taflen Gweithio i Wella

# Ffurflen ganiatâd
**I'w hanfon gyda Llythyr 2**

Rhowch y manylion canlynol:

| | |
|---|---|
| **Enw llawn y claf:** | |
| **Cyfeiriad:** | |
| **Dyddiad Geni:** | |
| **Perthynas â'r person sydd wedi mynegi'r pryder:** | |

Drwy hyn, rwy'n awdurdodi

| | |
|---|---|
| **Manylion y person sydd wedi mynegi'r pryder:** | |
| **Cyfeiriad (os yw'n wahanol i'r uchod):** | |

i weithredu ar fy rhan, ac i dderbyn unrhyw a phob darn o wybodaeth a fyddai'n gallu bod yn berthnasol i'r pryder.

Drwy hyn, rwy'n cytuno bod fy nghofnodion iechyd (ee, Ysbyty, Meddyg Teulu ac ati) ac unrhyw wybodaeth bersonol yn gallu cael eu defnyddio wrth ymchwilio i fy mhryder. Rwy'n deall mai dim ond y bobl hynny sydd angen gweld fy nghofnodion a fy ngwybodaeth bersonol er mwyn ymchwilio i fy mhryder fydd yn cael mynediad atyn nhw, ac mai dim ond yr adrannau hynny yn fy nghofnodion iechyd sy'n berthnasol i'r ymchwiliad i'r pryder fydd yn cael eu defnyddio.

| | |
|---|---|
| **Llofnod y claf:** | |
| **Dyddiad:** | |

# Atodiad H – Papur ar ganiatâd

## GWEITHIO I WELLA: CANIATÂD I YMCHWILIO I BRYDERON

Mae'r nodyn hwn yn egluro pryd y mae angen cael caniatâd penodol gan y claf neu, os yw wedi marw, y perthynas agosaf er mwyn ymchwilio i bryder.

## 1. Pryder a fynegwyd gan glaf neu ei gynrychiolydd personol

Os mai'r claf ei hun sydd wedi mynegi'r pryder, fel yn y rhan fwyaf o achosion, gellir tybio bod y claf wedi rhoi caniatâd ymhlyg i ymchwiliad wrth fynegi'r pryder. Bydd hyn yn berthnasol hefyd os oes gan y person gynrychiolydd sydd â hawl i weithredu ar ei ran yn gyfreithiol (ee, Atwrneiaeth) ac ar ran Aelodau Senedd San Steffan/Senedd Cymru nad oes angen iddynt roi caniatâd penodol. Ond, er mwyn i unigolion ddeall yn glir y gallai fod angen mynediad at eu cofnodion meddygol, dylid egluro hyn, yn ogystal â dweud pa gofnodion meddygol – ee, Ysbyty, Meddyg Teulu ac ati.

Mae'r senario hwn wedi'i amlinellu yn atodiad H – llythyr "1" o dan y pennawd *Cofnodion Meddygol* yn y llythyr.

Os bydd y claf/cynrychiolydd personol yn cysylltu â'r sefydliad GIG ar ôl mynegi'r pryder i ddweud nad yw'n fodlon â chaniatâd tybiedig ac nad yw eisiau rhoi mynediad at ei gofnodion, rhaid i'r sefydliad GIG ystyried a yw'r mater dan sylw yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ymchwiliad heb gael mynediad at y cofnodion meddygol. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu na fydd ymchwiliad i'r pryder. Dylai sefydliadau werthuso'r mater er mwyn penderfynu a fyddai parhau i ymchwilio i'r mater o fudd i'r gwasanaeth iechyd. Rhaid cofnodi'r penderfyniad hwn cyn bwrw ymlaen â'r mater neu ei gau.

## 2. Pryder a fynegwyd gan ofalwr/aelod o'r teulu/unigolyn arall (ee, person yn ymweld â rhywun arall)/arsylwr cyffredin

Pan fydd pryder yn cael ei fynegi ar ran claf, dylid cael caniatâd ysgrifenedig gan y claf i ymchwilio i'r mater, oni bai fod gan y person sydd wedi mynegi'r pryder eisoes hawl gyfreithiol i gynrychioli'r claf (ee, drwy Atwrneiaeth – edrychwch ar adran 1 uchod).

Mae'r senario hwn wedi'i amlinellu yn Atodiad H – llythyr "2" o dan y pennawd *Cofnodion Meddygol* yn y llythyr. Dylid amgáu ffurflen ganiatâd gyda'r llythyr hwn.

Eto, os nad yw'n bosibl cael caniatâd ysgrifenedig am ba bynnag reswm, rhaid i'r sefydliad GIG ystyried a yw'r mater dan sylw yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ymchwiliad heb gael mynediad at y cofnodion meddygol. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu na fydd ymchwiliad i'r pryder. Dylai sefydliadau werthuso'r mater er mwyn penderfynu a fyddai parhau i ymchwilio i'r mater o fudd i'r

gwasanaeth iechyd. Rhaid cofnodi'r penderfyniad hwn cyn bwrw ymlaen â'r mater neu ei gau.

## 3. Pryder a fynegwyd am berson sydd wedi marw gan ei berthynas agosaf/cynrychiolydd personol

Yn yr achos hwn, mae'r un sefyllfa'n berthnasol fel y nodwyd yn adran 1 uchod, lle tybir bod cydsyniad ymhlyg. Dylai'r swyddog ymchwilio fod yn fodlon bod gan y person hawl i weithredu ar ran y person sydd wedi marw. Os bydd y perthynas agosaf/cynrychiolydd personol yn dweud nad yw'n fodlon rhoi mynediad at y cofnodion, bydd angen yr un ystyriaeth o ran parhau â'r ymchwiliad ag yn adran 1 uchod.

## 4. Pryder a fynegwyd am berson sydd wedi marw gan rywun ar wahân i'w berthynas agosaf/cynrychiolydd personol

Yn yr achos hwn, mae'r un sefyllfa'n berthnasol ag yn adran 2 uchod, lle dylid cael caniatâd ysgrifenedig y perthynas agosaf neu'r cynrychiolydd personol. Os nad yw'n bosibl cael y caniatâd ysgrifenedig hwn, bydd angen yr un ystyriaeth o ran parhau â'r ymchwiliad ag yn adran 2.

## 5. Pryder a fynegwyd ar ran plentyn neu berson â diffyg galluedd meddyliol

Mae'n dderbyniol i bobl fynegi pryderon ar ran plentyn (ee, rhiant/gwarcheidwad) neu rywun sydd â diffyg galluedd meddyliol (ee, eiriolwr/gofalwr). Yn yr achosion hyn, nid oes angen caniatâd i gael mynediad at gofnodion meddygol, ond os yw'r claf yn blentyn, mae angen i'r corff GIG benderfynu a yw'n rhesymol i berson arall gynrychioli'r plentyn, neu a yw'n gallu bwrw ymlaen â'r pryder ei hun, gyda chymorth os oes angen. Y mater allweddol yw cynnwys y plentyn yn y gwaith o ddelio â'r mater.

Nid yw'r ffaith bod rhywun arall wedi mynegi pryder ar ran plentyn yn dileu hawl y plentyn i fwrw ymlaen â'r pryder ei hun, gyda chymorth. Dylai'r Corff Cyfrifol felly fodloni ei hun ynghylch a yw'r plentyn yn dymuno mynegi pryder ei hun ai peidio gyda chymorth, neu a yw'n fodlon i'r person a fynegodd y pryder ei gynrychioli. Os nad yw'r plentyn yn fodlon caniatáu ymchwiliad i'r pryder, bydd angen gwneud penderfyniad ynghylch bwrw ymlaen a gofyn am gyngor arbenigol os yw hynny'n briodol. Mae angen rhoi ystyriaeth arbennig i faterion diogelu, ac mae'n bosibl y bydd angen bwrw ymlaen ag ymchwiliad, hyd yn oed os yw'n ymddangos bod plentyn yn anfodlon gwneud hynny. Nid oes rheidrwydd ar y Corff Cyfrifol i ddarparu ymateb i'r person a fynegodd y pryder yn y lle cyntaf.

Ar gyfer plant a phobl sydd â diffyg galluedd meddyliol, rhaid i'r sefydliad GIG sicrhau ei hun bod y cynrychiolydd yn berson addas (hynny yw, bod gan y cynrychiolydd hawl i gynrychioli'r claf).

Os bydd anawsterau'n codi ac nad oes modd cadarnhau pwy sydd â hawl i gyflwyno pryder ar ran claf, mae angen yr un ystyriaeth ag a nodwyd yn adrannau 1 a 2 mewn perthynas â pharhau â'r ymchwiliad, a rhaid cofnodi hyn.

## 6. Pryder a fynegwyd gan aelod o staff

Gall aelodau o staff fynegi pryderon am rywbeth sydd wedi mynd o'i le yn ystod y driniaeth. Dylid mynd ati i gynnal ymchwiliad dechreuol i'r amgylchiadau ar unwaith er budd diogelwch cleifion, er mwyn pennu maint y niwed a allai fod wedi cael ei achosi. Nid oes angen caniatâd y claf i gynnal yr ymchwiliad dechreuol hwn.

Fodd bynnag, os bydd yr ymchwiliad dechreuol yn dangos bod niwed cymedrol neu ddifrifol neu farwolaeth wedi deillio o'r sefyllfa, bydd rhaid cysylltu â'r claf neu ei gynrychiolydd. Dylid rhoi gwybod i'r claf neu ei gynrychiolydd fod ymchwiliadau dechreuol wedi codi pryderon, a bod angen ymchwiliadau pellach, manylach. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae angen caniatâd ysgrifenedig yr unigolyn dan sylw.

Os na roddir caniatâd, unwaith eto, rhaid i'r sefydliad GIG ystyried a yw'r mater dan sylw yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ymchwiliad heb gael mynediad at y cofnodion meddygol. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu na fydd ymchwiliad i'r pryder. Dylai sefydliadau werthuso'r mater er mwyn penderfynu a fyddai parhau i ymchwilio i'r mater o fudd i'r gwasanaeth iechyd. Rhaid cofnodi'r penderfyniad hwn cyn bwrw ymlaen â'r mater neu ei gau.

# Atodiad I – Graddio Pryderon

## FFRAMWAITH GRADDIO I YMDRIN Â PHOB PRYDER

Mae Fframwaith Graddio Cymru Gyfan yn seiliedig ar fatrics risg a ddatblygwyd gan Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion [14], ac mae wedi cael ei ddefnyddio i asesu a rheoli risgiau a digwyddiadau. Mae'r dull gweithredu hwn wedi cael ei ddatblygu er mwyn creu fframwaith ar gyfer pennu lefel yr ymchwiliad sydd ei angen wrth ymdrin â phob math o bryderon, i hyrwyddo dull gweithredu cyson ar draws GIG Cymru. Yr effaith ar y claf neu'r niwed i'r claf yw'r ffactor pwysicaf bob amser wrth raddio pryderon. Mae'r broses graddio niwed yn ddeinamig ei natur, a rhaid ei hystyried drwy gydol yr ymchwiliad. Dylid ystyried yn briodol hefyd y posibilrwydd o ymgyfreitha, ni waeth beth yw'r radd niwed. Fodd bynnag, efallai y bydd sefyllfaoedd lle mae'r radd niwed yn isel – hynny yw, gradd 2 – ond bod arwyddion o fwrw ymlaen â hawliad. **Dim ond canllaw yw'r enghreifftiau sydd wedi'u rhestru, ac nid yw'r rhestr yn gyflawn.**

---

[14] Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (2008) A risk matrix for risk managers, NPSA, Llundain

| Gradd | Niwed | Enghreifftiau o bryderon | Ystyried y posibilrwydd o lawn / atebolrwydd cymwys |
|---|---|---|---|
| **1** | Dim | a) Pryderon sydd fel arfer yn ymwneud â materion y mae modd mynd i'r afael â nhw yn rhwydd / yn gyflym;<br>b) Posibilrwydd o achosi niwed, ond ni arweiniodd yr effaith at niwed;<br>c) Oedi gydag apwyntiad claf allanol, ond dim canlyniadau o ran iechyd;<br>d) Anhawster wrth barcio car;<br>e) Claf yn syrthio – dim niwed nac amser o'r gwaith;<br>f) Pryderon sydd wedi effeithio ar brofiad cadarnhaol i gleifion. | **Annhebygol iawn** |
| **2** | **Isel** | **a) Pryderon ynghylch gofal a thriniaeth sy'n rhychwantu nifer o wahanol agweddau/arbenigeddau;**<br>**b) Hyd yr arhosiad yn cynyddu 1 - 3 diwrnod;**<br>**c) Claf yn syrthio – angen triniaeth;**<br>**d) Angen amser i ffwrdd o'r gwaith – 3 diwrnod;**<br>**e) Mae pryder yn ymwneud ag un methiant i gwrdd â safonau mewnol ond â mân oblygiadau o ran diogelwch cleifion;**<br>**f) Dychwelyd am fân driniaeth, ee anesthetig lleol neu archwiliadau ychwanegol.** | **Annhebygol** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **3** | **Cymedrol** | **a) Materion clinigol / proses sydd wedi arwain at anaf neu nam iechyd rhannol barhaol y gellid fod wedi ei osgoi, neu niwed sy'n galw am ymyriad;**<br>**b) Angen ymyriadau ychwanegol neu orfod canslo triniaeth / apwyntiadau;**<br>**c) Aildderbyn neu ddychwelyd am lawdriniaeth, ee, anesthetig cyffredinol;**<br>**d) Angen trosglwyddo i ganolfan arall i gael triniaeth / gofal;**<br>**e) Hyd yr arhosiad yn cynyddu 4 - 15 diwrnod;**<br>**f) Digwyddiad Hysbysadwy RIDDOR;**<br>**g) Angen amser i ffwrdd o'r gwaith, 4 -14 diwrnod;**<br>**h) Pryderon sy'n amlinellu mwy nag un methiant i gwrdd â safonau mewnol;**<br>**i) Goblygiadau cymedrol o ran diogelwch cleifion;**<br>**j) Pryderon sy'n ymwneud â mwy nag un sefydliad;** | **Posibl mewn rhai achosion** |
| **4** | Difrifol | a) Materion proses glinigol sydd wedi arwain at anaf neu nam iechyd parhaol y gellid fod wedi ei osgoi, neu niwed yn arwain at analluogrwydd neu anabledd;<br>b) Angen ymyriadau ychwanegol neu orfod canslo triniaeth;<br>c) Aildderbyn yn annisgwyl neu ddychwelyd i gael llawdriniaeth heb ei chynllunio;<br>d) Hyd yr arhosiad yn cynyddu >15 diwrnod;<br>e) Angen trosglwyddo i ganolfan arall i gael triniaeth / gofal;<br>f) Angen amser i ffwrdd o'r gwaith >14 diwrnod;<br>g) Pryder, yn amlinellu diffyg cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol gyda risg sylweddol i ddiogelwch cleifion;<br>h) Digwyddiad Hysbysadwy RIDDOR; | **Yn debygol mewn llawer o achosion** |
| **5** | **Marwolaeth** | **a) Pryder sy'n arwain at farwolaeth annisgwyl, niwed lluosog neu effeithiau iechyd di-droi'n-ôl;**<br>**b) Pryder yn amlinellu methiant dybryd i gyrraedd safonau cenedlaethol;**<br>**c) Fel rheol materion clinigol/proses sydd wedi arwain at niwed neu nam iechyd anadferadwy y gellid fod wedi'i osgoi, sy'n cael effaith andwyol gydol oes ar ffordd o fyw, ansawdd bywyd, llesiant corfforol a meddyliol;**<br>**d) Materion clinigol neu faterion proses sydd wedi arwain at golli bywyd y gellid fod wedi'i osgoi;**<br>**e) Digwyddiad Hysbysadwy RIDDOR;** | **Tebygol iawn** |

## Atodiad J – Templed llythyr cyfarwyddyd i gynghorydd arbenigol

**DOGFEN SAFONOL – LLYTHYR CYFARWYDDYD AR Y CYD I GYNGHORYDD ARBENIGOL AR ACHOSIAD / IAWN**

*(Cyfeiriad)*

Annwyl *(Enw)* [ *dyddiad* ]

*(Enw'r claf)* ac *(Enw'r darparwr gofal iechyd)*

Diolch am gadarnhau eich bod yn fodlon paratoi adroddiad ar y mater hwn ynghylch achosiad.

Mae'ch cyfarwyddyd yn un ar y cyd rhwng *(rhowch enw'r darparwr gofal iechyd)* a *(rhowch enw'r claf)*, ac rydym yn ysgrifennu atoch i roi cyfarwyddiadau manwl i chi. Mae'r *Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth* a *(rhowch enw'r claf)* yn cytuno ar delerau'r llythyr hwn.

**Trefniadau Iawn y GIG yng Nghymru**

Mae'r *Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth* yn ymchwilio i bryder a fynegwyd gan *(rhowch enw'r claf) neu* ar ran *(rhowch enw'r claf)*, yn unol â Rheoliadau'r GIG (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011.

Cyflwynodd y Rheoliadau drefniadau newydd ar gyfer trin ac ymchwilio i 'bryderon' (gan gynnwys cwynion, hawliadau digolledu a digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch

cleifion) am Wasanaethau'r GIG yng Nghymru, o fewn y GIG yng Nghymru. Roedd y Rheoliadau hefyd wedi cyflwyno'r cysyniad o 'Iawn'. Maen nhw'n gosod rhwymedigaeth ar gorff GIG Cymru i ystyried, pan gaiff hysbysiad o bryder sy'n honni bod, neu y gallai fod, niwed wedi'i achosi, a oes **atebolrwydd cymwys** ai peidio.

Diffinnir 'atebolrwydd cymwys' yn y Rheoliadau fel atebolrwydd mewn camwedd sy'n ddyledus o ran neu o ganlyniad i niwed personol neu golled sy'n deillio o dorri'r ddyletswydd gofal, neu sy'n gysylltiedig â thorri'r ddyletswydd gofal, a'r ddyletswydd gofal honno yn ddyledus i unrhyw berson mewn cysylltiad â diagnosis o salwch, neu wrth ofalu am unrhyw glaf neu ei drin, o ganlyniad i unrhyw weithred neu anwaith gan broffesiynolyn gofal iechyd; ac sy'n codi mewn cysylltiad â gwasanaethau sy'n cael eu darparu fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

## Y Gyfraith

Er mwyn cadarnhau bod atebolrwydd cymwys yn bodoli, rhaid i'r claf brofi y bu esgeuluster yn y driniaeth a gafodd a'i fod wedi dioddef niwed o ganlyniad i'r esgeuluster hwnnw.

Er mwyn profi y bu esgeuluster yn y driniaeth a gafodd y claf, rhaid i'r claf brofi bod safon y driniaeth honno yn is na safon ymarferydd meddygol rhesymol gymwys yn y maes perthnasol ar yr adeg berthnasol.

Yn bwysig iawn, os gall y darparwr gofal iechyd brofi y byddai casgliad rhesymol a chyfrifol o ymarferwyr sydd ag enw da yn y maes perthnasol wedi cynnal yr ymchwiliadau a'r driniaeth fel y gwnaeth y darparwr gofal iechyd dan sylw, mae hynny'n amddiffyniad rhag honiad o esgeuluster.  Dyna yw amddiffyniad Bolam, fel y mae'n cael ei alw.

Rhaid i'r claf hefyd brofi bod y driniaeth feddygol y mae'n honni a fu'n esgeulus wedi achosi neu gyfrannu'n sylweddol at y niwed y mae wedi'i ddioddef.

Os bydd y claf yn profi bod safon y driniaeth a gafodd yn is na'r safon dderbyniol o ofal, mae gan y claf hawl i gael ei ddigolledu er mwyn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng (i) y

cyflwr y byddai wedi bod ynddo pe bai safon y driniaeth a gafodd wedi bod o safon dderbyniol a (ii) cyflwr gwirioneddol y claf.

Y prawf ar gyfer asesu unrhyw feirniadaeth o'r driniaeth dan sylw ac achosiad yw a oes modd profi achos y claf 'yn ôl yr hyn sy'n debygol', fel y mae'n cael ei alw (hynny yw, 51% o debygolrwydd neu "mwy tebygol na pheidio").

**Eich Adroddiad**

Amgaeir y dogfennau canlynol i chi eu hystyried:

1. Cofnodion ysbyty – (enw'r ysbyty/ymddiriedolaeth).
2. Cofnodion meddyg teulu.

(Gallai dogfennau ychwanegol gynnwys dogfennau cwynion, adroddiadau am ddigwyddiadau andwyol, ffilmiau pelydr-x/sgan ac ati)

Rhowch wybod i ni os oes angen rhagor o wybodaeth neu ddogfennau arnoch chi gan y *Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth* neu gan *(rhowch enw'r claf)* cyn paratoi eich adroddiad.

Er nad oes angen adroddiad arnom ar ffurf a manylion adroddiad a baratowyd at ddibenion datgelu yn ystod achos ymgyfreitha, mae'n bwysig bod eich adroddiad yn ddigon manwl i alluogi'r sawl sy'n ei dderbyn i ddeall y materion meddygol sy'n codi yn yr achos hwn, a'r rhesymau sydd wrth wraidd eich barn am safon y driniaeth feddygol dan sylw.

O ran achosiad, dadansoddwch ganlyniadau'r diffygion (os oes rhai) yn y driniaeth a gafodd y claf. Dywedwch pa driniaeth y byddai wedi bod ei hangen ar y claf, a beth fyddai cyflwr a phrognosis tebygol y claf pe bai'r driniaeth a gafodd wedi bod o safon dderbyniol.

Yn ogystal â'r cwestiynau eang hyn, ystyriwch y materion canlynol, mwy penodol yn eich adroddiad:

(Rhowch y rhestr o faterion penodol a gytunwyd)

Peidiwch â chyfyngu eich hun i'r materion penodol hyn, oherwydd rydym yn sicr y bydd materion eraill perthnasol ac arwyddocaol y byddwch am eu hystyried yn eich adroddiad.

Anfonwch eich adroddiad a'r holl ohebiaeth at sylw *(rhowch enw'r sawl sy'n delio â'r achos)* yn *(rhowch y cyfeiriad)*, a *(rhowch enw'r claf)* yn *(rhowch gyfeiriad y claf)*.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn sicrhau bod eich adroddiad wedi cael ei ysgrifennu mewn iaith syml, a bod unrhyw gyfeiriadau at dermau meddygol yn cael eu hegluro'n glir.

**Ffioedd**

Y swm y mae gan arbenigwr hawl i'w godi am baratoi adroddiad yw *[rhowch y ffi a gytunwyd yn flaenorol]*.

Rydym yn cadarnhau mai'r *Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth* fydd yn gyfrifol am eich ffi. Byddem yn ddiolchgar pe baech yn darparu copi o'ch anfoneb i'r *Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth* gyda'ch adroddiad.

**Terfyn amser**

Rydym yn edrych ymlaen at gael eich adroddiad ar neu cyn *(rhowch y dyddiad) neu*

Rydym yn edrych ymlaen at gael eich adroddiad cyn gynted ag y bo modd.

Yn gywir

*(Enw'r Swyddog Ymchwilio)*

# Atodiad K – Telerau ac amodau cyffredinol ar gyfer cynghorwyr arbenigol annibynnol y dylai Cyrff Cyfrifol yng Nghymru eu defnyddio

## Cyflwyniad

Yn unol â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 (y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon fel "y Rheoliadau"), ar adegau mae'n bosibl y bydd angen cael barn annibynnol ar fater sy'n ymwneud â phryder, gyda'r bwriad o'i ddatrys. Gall hyn gynnwys:

- cael ail farn i helpu claf i ddeall ei ofal ei hun, neu i weld a oes unrhyw faterion eraill y mae angen eu harchwilio o ran y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd, fel rhan o ymchwiliad gan Gorff Cyfrifol[15] o dan Ran 5 y Rheoliadau;
- mewn achosion pan fydd y claf wedi gwneud honiad o niwed, a phan nad yw corff GIG Cymru[16] yn gallu dod i benderfyniad ei hun ynghylch a oes atebolrwydd cymwys mewn camwedd, cael barn arbenigol i ateb cwestiynau ynghylch y profion sy'n ymwneud â thorri dyletswydd gofal a/neu achosiad, fel rhan o ymchwiliad o dan Ran 5 o'r Rheoliadau;
- pan fydd atebolrwydd cymwys mewn camwedd yn cael ei dderbyn neu, yn amodol ar ymchwiliad pellach o dan Ran 6 o'r Rheoliadau, yn cael ei gydnabod o bosibl, mynd ati i gael barn arbenigol ar y cyd rhwng y corff GIG Cymru a'r claf/cynghorydd cyfreithiol y claf i benderfynu ar faterion sy'n ymwneud â thorri dyletswydd, achosiad, cyflwr a phrognosis a/neu gwantwm.

Yn dilyn ymarfer diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi creu cronfa ddata sy'n cynnwys enwau a manylion cynghorwyr arbenigol annibynnol posibl y gall Cyrff Cyfrifol yng Nghymru eu comisiynu i roi cyngor yn yr amgylchiadau uchod. Mae'r gronfa ddata'n cynnwys arbenigwyr o'r gwahanol broffesiynau iechyd, disgyblaethau ac arbenigeddau/is-arbenigeddau. Bydd yn dal i gael ei hadolygu a'i diweddaru fel rhan o'r broses Gweithio i Wella.

---

[15] Mae corff cyfrifol yn golygu corff GIG Cymru, darparwr gofal sylfaenol neu ddarparwr annibynnol
[16] Mae corff GIG Cymru yn Fwrdd Iechyd Lleol neu'n Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru

Mae'r telerau ac amodau cyffredinol canlynol yn berthnasol i bob cynghorydd arbenigol annibynnol sy'n cytuno i roi cyngor i'r GIG yng Nghymru yn unol â'r Rheoliadau. Er y bydd y telerau ac amodau cyffredinol hyn yn berthnasol ym mhob achos, pan fydd cynghorydd arbenigol yn cael ei benodi gan Gorff Cyfrifol yng Nghymru, gofynnir iddo gytuno hefyd ar unrhyw delerau ac amodau sy'n ymwneud â'r achos penodol, mewn perthynas â therfynau amser ar gyfer paratoi adroddiadau, eu fformat, trefniadau talu, neu unrhyw ofynion eraill y gellir eu pennu'n lleol.

**Telerau ac Amodau Cyffredinol**

Ni ddylai person weithredu fel cynghorydd arbenigol annibynnol os byddai hynny'n arwain at wrthdaro rhwng buddiannau, neu os gallai ymddangos bod hynny'n arwain at wrthdaro rhwng buddiannau, wrth gynghori ar achos penodol.

Yn benodol, ni ddylai person chwaith weithredu fel cynghorydd arbenigol annibynnol:

- Os yw wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol â'r materion sy'n destun ymchwiliad;
- Os yw'n cael ei gyflogi gan y Corff Cyfrifol sy'n destun y pryder, yn darparu gwasanaethau ar ei gyfer, neu os oes gan y person unrhyw gysylltiad proffesiynol arall â'r Corff Cyfrifol hwnnw;
- Os oes ganddo unrhyw wybodaeth bersonol agos am y person a fynegodd y pryder, neu am unrhyw berson y mae ei weithredoedd yn destun y pryder, neu os oes ganddo gysylltiad â'r person hwnnw;
- Os nad yw ar gofrestr y corff proffesiynol statudol perthnasol ar hyn o bryd;
- Os yw, ar hyn o bryd, yn destun unrhyw ymchwiliad i'w waith proffesiynol (ee, o dan weithdrefn gwynion berthnasol, drwy ymchwiliad yr Ombwdsmon mewn unrhyw ran o'r DU) gan gorff proffesiynol neu reoleiddiol neu gan y llysoedd neu os yw, yn y gorffennol, wedi cael ei feirniadu'n ddifrifol o ganlyniad i ymchwiliad o'r fath;

- Os yw'n teimlo bod yr achos dan sylw y tu hwnt i'w faes arbenigedd neu brofiad, neu na fydd yn gallu rhoi cyngor mewn modd amserol rhesymol;

- Os yw'n gwybod am unrhyw reswm arall pam nad yw'n gallu rhoi cyngor arbenigol annibynnol ar gyfer achos penodol.

Os oes unrhyw un o'r uchod yn berthnasol neu os oes unrhyw amheuaeth ynghylch eich addasrwydd i weithredu fel cynghorydd arbenigol annibynnol mewn achos penodol, dylech roi gwybod ar unwaith i'r person yn y Corff Cyfrifol sydd wedi gofyn am gyngor gennych chi, gan roi'r rhesymau pam na allwch gydymffurfio.

## Indemniad

Dylai'r holl gynghorwyr arbenigol annibynnol posibl sicrhau eu bod wedi'u hindemnio'n ddigonol i roi cyngor i'r cyrff sy'n gofyn am gyngor yn unol â'r Rheoliadau. Os oes gennych chi unrhyw broblemau yn hyn o beth, mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â'r Corff Cyfrifol sydd wedi gofyn am gyngor gennych chi.

## Taliad Cydnabyddiaeth

Bydd cynghorwyr arbenigol sy'n ymgymryd â'r rôl hon yn derbyn ffi, y bydd y Corff Cyfrifol yn cytuno arni.

## Diogelu Data/Cyfrinachedd

Ar ôl gweithio ar achos bydd cynghorwyr arbenigol yn derbyn, drwy wasanaeth danfon a gofnodwyd, gopïau o ohebiaeth berthnasol a nodiadau clinigol sy'n ymwneud â'r pryder penodol. Mae'r gofynion canlynol yn berthnasol i bob cynghorydd arbenigol:

- Rhaid i'r holl wybodaeth gael ei storio'n ddiogel;

- Ni ddylai gwybodaeth a anfonir ar Gryno Ddisg (CD) neu Gof Bach gael ei chadw ar unrhyw rwydweithiau nac ar yriant caled unrhyw gyfrifiadur;
- Rhaid i gopïau o'r holl wybodaeth a dderbynnir, oni bai fod y Corff Cyfrifol yn dweud yn wahanol, gael ei dinistrio o dan amodau cyfrinachol o fewn mis ar ôl cael gwybod bod yr achos wedi cael ei ddatrys; a

- Dylai unrhyw wybodaeth gael ei dychwelyd i'r Corff Cyfrifol drwy ddull danfon diogel.

Bydd adroddiad y cynghorydd arbenigol yn cael ei anfon at y person sydd wedi mynegi'r pryder, a'r person neu'r bobl sy'n destun y pryder. Rhagwelir y bydd enw a chymwysterau proffesiynol y cynghorydd arbenigol yn aros yn yr adroddiad, er mwyn rhoi sicrwydd i'r person sydd wedi mynegi'r pryder. Ond bydd manylion personol eraill, fel cyfeiriad a rhif ffôn y cynghorydd arbenigol, yn cael eu dileu cyn i'r adroddiad gael ei ddosbarthu.

Ni chaiff cynghorwyr arbenigol annibynnol ddatgelu i unrhyw ffynhonnell arall gynnwys unrhyw adroddiad maen nhw'n ei baratoi ar gyfer Corff Cyfrifol yng Nghymru.

## Atodiad L – Delio â phobl sy'n gwneud ceisiadau afresymol

Nod yr adran hon yw crynhoi sut mae delio â phryder pan fydd y person sydd wedi mynegi'r pryder yn dechrau ymddwyn yn afresymol, yn ddifrïol, yn fygythiol neu'n dreisgar tuag at staff y GIG.

Rhaid darllen y crynodeb hwn ar y cyd â'ch polisïau a'ch gweithdrefnau Dim Goddefgarwch lleol, ac yn unol â'r hyfforddiant gorfodol a ddarperir gan eich sefydliad GIG

Mae gan bobl sy'n mynegi pryderon yr hawl i gael eu clywed, eu deall a'u parchu. Fodd bynnag, ar adegau mae'n bosibl y bydd trallod y sefyllfa yn arwain at y person yn mynegi pryder ac y bydd yn ymddwyn yn groes i'w gymeriad , yn bod yn benderfynol, yn ymwthiol, yn ddig, ac y bydd yn gwneud ceisiadau afresymol i'r staff neu (yn anaml) yn troi at drais.

Mae pobl sy'n anfodlon â chanlyniad yr ymchwiliad i'w pryder, er eu bod wedi cael cyngor ar yr opsiynau eraill sydd ar gael, hefyd yn gallu ymddwyn yn ymosodol tuag at staff neu barhau i fwrw ymlaen â'u pryder yn ddi-baid dros y ffôn, yn ysgrifenedig neu wyneb yn wyneb.

Er bod staff y GIG yn deall mai'r trallod a achoswyd iddyn nhw neu eu hanwyliaid sydd wrth wraidd dicter ac ymddygiad ymosodol pobl o bosibl, mae'n annerbyniol pan fydd hynny'n troi'n ymddygiad ymosodol gwirioneddol neu bosibl tuag at staff y GIG.

Mae enghreifftiau o ymddygiad difrïol neu ymosodol annerbyniol yn cynnwys:

- Bygythiadau ar lafar – ee, sylwadau difrïol personol, ymddygiad digywilydd neu sylwadau bychanol. Mae honiadau di-sail neu ddatganiadau sarhaus yn gallu cael eu galw'n ymddygiad difrïol hefyd;

- Ymddygiad corfforol dreisgar;

- Sylwadau bygythiol – ee yn ysgrifenedig ac ar lafar sy'n gwneud i staff deimlo'n ofnus neu eu bod wedi cael eu sarhau;

- Gofynion afresymol – ee, mynnu ymateb o fewn amserlen afrealistig, ffonio, ysgrifennu neu fynnu siarad ag aelodau penodol o staff dro ar ôl tro.

## Delio ag ymddygiad neu weithredoedd annerbyniol

Pan fydd pobl yn ymddwyn yn annerbyniol tuag at staff, dylid cymryd camau priodol yn unol â’ch gweithdrefnau a’ch polisi sefydliadol ar gyfer y GIG.

Pan fydd person sydd wedi mynegi pryder yn dechrau ymddwyn yn ymosodol neu’n ddifrïol, dylech ystyried y canlynol:

- Os oes bygythiadau neu ddefnydd o drais corfforol, dylid rhoi gwybod i’r heddlu am y digwyddiad;

- Os yw gohebiaeth (ar ffurf llythyr neu ffacs neu’n electronig) yn ddifrïol ac yn cynnwys bygythiadau tuag at staff neu’r sefydliad, rhaid rhoi gwybod i’r Uwch Reolwyr/heddlu am hynny;

- Os daw honiadau ysgrifenedig di-sail i law, dylid dweud wrth y person ei fod yn defnyddio iaith ddiangen a di-fudd. Dylid dweud yn glir y daw’r cyfathrebu i ben ar bob ffurf os bydd yr ymddygiad a’r iaith a ddefnyddiwyd yn parhau;

- Os yw person yn bod yn ymosodol, yn ddifrïol neu’n sarhaus ar y ffôn, dylid dweud wrth y person fod ei ymddygiad yn annerbyniol ac y bydd yr alwad yn dod i ben os bydd yn parhau i ymddwyn felly.

## Delio ag ymddygiad di-baid

Os bydd rhywun yn ffonio, yn ymweld neu’n ysgrifennu dro ar ôl tro i fynegi pryder sydd eisoes wedi cael ei ymchwilio a bod ymateb wedi cael ei anfon, dylech ystyried:

- Gofyn am gymorth gan reolwr llinell neu uwchgyfeirio’r mater i uwch staff yn unol â’ch polisïau a’ch gweithdrefnau Dim Goddefgarwch lleol;

- Rhoi trefniant ar waith lle mai dim ond ar adegau penodol ar ddiwrnodau penodol y gellir derbyn galwadau gan y person dan sylw;

- Pennu un aelod o staff i fod yn bwynt cyswllt ar gyfer gohebiaeth ysgrifenedig neu lafar;

- Cyfyngu'r cyswllt i ohebiaeth ysgrifenedig yn unig;

- Dim ond gwneud apwyntiadau i gwrdd â'r person os nad oes ffordd arall o gyfathrebu â'r person – **Peidiwch byth â chwrdd â'r person ar eich pen eich hun**;

- Cyfleu penderfyniad na fydd unrhyw ohebiaeth bellach na galwadau ffôn yn cael eu derbyn oni bai fod mater newydd yn cael ei godi, ac mai dim ond cydnabyddiaeth a roddir i unrhyw ohebiaeth;

- Mewn amgylchiadau eithriadol, ystyried gofyn am gyngor cyfreithiol er mwyn penderfynu a oes angen cymryd camau mwy ffurfiol;

Ar bob cam, dylid dangos yn glir i'r person pa gamau sy'n cael eu cymryd a pham.

**Rhoi Gwybod am Ymddygiad Treisgar neu Ymosodol**

Rhaid rhoi gwybod am ddigwyddiadau lle bu trais a/neu ymddygiad ymosodol, a'u cofnodi drwy systemau adrodd lleol.

Wrth gofnodi digwyddiadau lle mae rhywun sy'n mynegi pryder wedi ymddwyn yn dreisgar neu'n ymosodol, bydd tueddiadau a 'mannau problemus' lle gwelir achosion o ymddygiad ymosodol yn dod i'r amlwg. Gall y sefydliad wedyn ddysgu gwersi i amddiffyn staff ac atal achosion tebyg o ymddygiad ymosodol.

**Staff Cymorth**

Os byddwch chi mewn sefyllfa fygythiol neu dreisgar, cofiwch wneud y canlynol:
- **Camu'n ôl**
- **Tynnu sylw at y perygl**
- **Ailasesu**

Ddylech chi byth roi'ch hun mewn sefyllfa beryglus. Os bydd hynny'n digwydd, eich dyletswydd gyntaf yw gwarchod eich hun drwy adael y sefyllfa, cadw draw o'r sefyllfa, a chael cymorth.

Mae gan lawer o sefydliadau'r GIG "dimau atal trais ac ymddygiad ymosodol" pwrpasol, sy'n gallu rhoi cyngor ac arweiniad ychwanegol i staff ar adnabod a delio ag ymddygiad ymosodol.

## Atodiad M – Templed ymateb terfynol o dan Reoliad 24

**Ymateb ysgrifenedig i glaf/trydydd parti sy'n ymateb i bryder lle nad oes atebolrwydd mewn camwedd (dylid ei gyhoeddi o fewn 30 diwrnod gwaith)**

Annwyl *[Rhowch enw'r claf neu enw'r trydydd parti]*

Ynghylch: *[Rhowch enw'r claf yn achos trydydd parti a chrynodeb o'ch dealltwriaeth o'r pryder fel y nodwyd yn y llythyr cydnabod]*

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn fy llythyr ar *[00.00.00]* i roi ymateb llawn i'ch pryder.

*Rhowch fanylion yr ymchwiliad, y canlyniad a'r camau a gymerwyd, er enghraifft:*

- *Crynhoi natur a sylwedd y pryder/pryderon*
- *Disgrifio'r ymchwiliad a gynhaliwyd*
- *Cynnwys copïau o farn arbenigwyr (os yw'r farn wedi dod i law yn ystod yr ymchwiliad)*
- *Cynnwys copïau o unrhyw gofnodion meddygol perthnasol pan fydd hynny'n briodol* (ee, Ysbyty, Meddyg Teulu ac ati)
- *Pan fydd yn briodol, cynnwys ymddiheuriad*
- *Dweud pa gamau fydd yn cael eu cymryd, os bydd rhai o gwbl, gan gynnwys ym mhle mae gwasanaethau wedi gwella yn sgil y pryder*
- *Cynnig cyfle i drafod cynnwys yr ymateb*
- *Os nad oes atebolrwydd, rhoi rhesymau dros y penderfyniad i egluro pam*

Diolch am fynegi'ch pryder wrthym ni. Gobeithio bod yr ymateb hwn wedi ateb pob cwestiwn oedd gennych, ac wedi rhoi rhywfaint o sicrwydd y bydd gwersi'n cael eu dysgu o'ch profiadau.

Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad ein hymchwiliad, gallwch fynd â'ch pryderon at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Dyma'r manylion cyswllt: 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ, rhif ffôn: 0845 601 0987 neu e-bost: holwch@ombwdsmon.cymru.

Rwyf hefyd wedi amgáu ffurflen werthuso fer y dylid ei dychwelyd i Lywodraeth Cymru os byddwch yn dewis ei llenwi, er mwyn ei helpu i weld sut mae'r trefniadau Gweithio i Wella yn gweithio, ac a oes angen gwneud unrhyw welliannau pellach.

Yn gywir

*Llofnodwyd gan y swyddog cyfrifol neu berson sy'n gweithredu ar ei ran*

Amg
Ffurflen Werthuso

## Atodiad N – Templed ymateb interim o dan Reoliad 26

Os oes, neu os gallai fod, atebolrwydd cymwys yn bodoli, i'w gyhoeddi o fewn 30 diwrnod gwaith i ba bynnag un yw'r hwyraf, naill ai

- y diwrnod y cafwyd yr hysbysiad o'r pryder; neu
- pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei sbarduno, y diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad 'uniongyrchol' o dan Reoliad 4(1) o Reoliadau'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

[Rhowch enw Sefydliad y GIG]

[Rhowch enw'r person sydd wedi mynegi'r pryder – ac enw'r person sy'n ymwneud â'r pryder os yw'n berson gwahanol]

[Rhowch ddyddiad yr adroddiad]

*Rhaid i Adroddiad Interim gynnwys y canlynol:*

- Crynodeb o natur a sylwedd y pryder
- Disgrifiad o'r ymchwiliad a gynhaliwyd
- Disgrifiad o'r rheswm pam mae, neu pam y gallai fod, atebolrwydd cymwys
- Copïau o gofnodion meddygol perthnasol (ee, Ysbyty, Meddyg Teulu ac ati)
- Eglurhad o'r cyngor cyfreithiol di-dâl sydd ar gael
- Eglurhad o'r gwasanaethau eirioli a chymorth sydd ar gael
- Eglurhad o'r weithdrefn a ddilynir i benderfynu a oes atebolrwydd cymwys ai peidio, a'r weithdrefn ar gyfer cynnig iawn os gwelir bod atebolrwydd cymwys o'r fath yn bodoli
- Cadarnhad y bydd copi o adroddiad terfynol yr ymchwiliad yn cael ei ddarparu
- Manylion yr hawl i hysbysu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y pryder
- Cyfle i drafod cynnwys yr ymateb interim gyda'r swyddog cyfrifol neu'r person sy'n gweithredu ar ei ran

[Llofnodwyd gan swyddog cyfrifol neu berson sy'n gweithredu ar ei ran]

Wedi amgáu:
Copïau o farn arbenigwyr
Copïau o gofnodion meddygol

## Atodiad O – Fframwaith ffioedd cyfreithiol

Ymwadiad: Mae'r blychau isod yn annibynnol ar ei gilydd, ac ni ddylid eu hychwanegu at ei gilydd ar bob cam o broses y mater. Fodd bynnag, byddai'r ffioedd a ganiateir ar gyfer setliad Cymeradwyaeth Plentyn yn rhai ar wahân. Sylwer bod y ffigurau hyn yn gywir fel yr oeddent ym mis Ebrill 2012. Rhaid talu TAW ar yr holl ffioedd sy'n ddyledus, a bydd y ffioedd yn newid yn flynyddol – cysylltwch â'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg i gael y ffigurau diweddaraf.

| CAM Y BROSES | MATH O FFI I'W THALU I'R CYNGHORYDD CYFREITHIOL |
|---|---|
| **Os bydd y Bwrdd Iechyd Lleol/Ymddiriedolaeth, mewn adroddiad interim sy'n cael ei lunio o dan Reoliad 26, yn cyfaddef i achosiad ac iddo dorri dyletswydd ac yn cynnig setliad i'r claf, bydd cyngor cyfreithiol ar gael i:**<br><br>• **adolygu priodoldeb y cynnig**<br>• **comisiynu adroddiad ar y cyd ar gyflwr a phrognosis os credir bod angen hynny er mwyn rhoi cyngor ar gwantwm** | **Costau sefydlog o £1,600**<br><br>**Ffi sefydlog o £430 pan fydd y Bwrdd Iechyd Lleol/Ymddiriedolaeth a chynghorydd cyfreithiol y claf yn cytuno ar hynny** |

| | |
|---|---|
| **Os bydd y Bwrdd Iechyd Lleol/Ymddiriedolaeth, mewn adroddiad interim sy'n cael ei lunio o dan Reoliad 26, yn dweud y gallai fod atebolrwydd cymwys ond bod angen ymchwilio ymhellach i hyn er mwyn penderfynu, bydd cyngor cyfreithiol ar gael i:**<br><br>• **ystyried a yw'r ddyletswydd wedi cael ei thorri ac i ymchwilio i achosiad, gan ganiatáu ar gyfer hyd at 2 adroddiad arbenigol**<br>• **rhoi cyfarwyddyd i arbenigwyr ychwanegol os oes angen, a phan fydd y Bwrdd Iechyd Lleol/Ymddiriedolaeth a chynghorydd cyfreithiol y claf yn cytuno ar hynny** | **Ffi sefydlog o £1,600**<br><br>**Ffi sefydlog o £434 pan fydd y Bwrdd Iechyd Lleol/Ymddiriedolaeth a chynghorydd cyfreithiol y claf yn cytuno ar hynny** |
| **Os cyfaddefir bod atebolrwydd cymwys, bydd cyngor cyfreithiol ar gael i:**<br><br>• **gomisiynu adroddiad ar y cyd ar gyflwr a phrognosis os credir bod angen hynny er mwyn rhoi cyngor ar gwantwm, gan ganiatáu ar gyfer 2 adroddiad arbenigol**<br>• **rhoi cyfarwyddyd i arbenigwyr ychwanegol ynghylch y cwantwm os oes angen, a phan fydd y Bwrdd Iechyd Lleol/Ymddiriedolaeth a chynghorydd cyfreithiol y claf yn cytuno ar hynny** | **Ffi sefydlog o £1,600**<br><br>**Ffi sefydlog o £430 pan fydd y Bwrdd Iechyd Lleol/Ymddiriedolaeth a chynghorydd cyfreithiol y claf yn cytuno ar hynny** |
| **Os cyfaddefir bod atebolrwydd cymwys ond na wneir cynnig ariannol, bydd cyngor cyfreithiol ar gael:**<br><br>• **Mewn perthynas â gwrthod cynnig iawn** | **Ffi sefydlog o £868** |

| | |
|---|---|
| **Pan fydd angen cynrychiolaeth mewn gwrandawiad cymeradwyo Setliad Plentyn, bydd y cynghorydd cyfreithiol yn cael ei dalu am y canlynol:**<br><br>• **Gwaith paratoi a bod yn bresennol mewn gwrandawiad Llys**<br><br>**Byddai'r Bwrdd Iechyd Lleol/Ymddiriedolaeth hefyd yn talu:**<br><br>• **Ffi'r llys**<br>• **Ffi'r cwnsler** | **Ffi sefydlog o £1085**<br><br>**Ddim yn gwybod**<br>**Ffi sefydlog o £450** |

## Atodiad P – Rhestr wirio'r ymchwiliad

1. Adolygwch y System PAS. Nodwch unrhyw radioleg sy'n berthnasol i'r driniaeth sy'n destun y pryder.

2. Gwiriwch gofnodion meddygol y claf (ee, Ysbyty, Meddyg Teulu ac ati), a chopïo dim ond y cofnodion hynny sy'n berthnasol i'r pryder, gan gynnwys nodiadau clinigol, gohebiaeth, nodyn neu nodiadau llawdriniaeth, ffurflen(ni) caniatâd, cofnodion anesthetig, rhestr(au) gwirio cyn llawdriniaeth, nodiadau ar ôl llawdriniaeth, adroddiad rhyddhau'r claf, canlyniadau profion, siart(iau) pwysedd gwaed a thymheredd, siartiau meddyginiaeth (os oes rhai) a chynlluniau gofal nyrsio/Kardex.

3. Cadarnhewch a oes unrhyw ffurflenni digwyddiadau a/neu bolisïau/protocolau yn bodoli sy'n berthnasol i'r pryder.

4. Nodwch y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymwneud â darparu'r gofal a/neu'r driniaeth i'r claf sy'n destun y pryder, a'r Meddyg Ymgynghorol a oedd yn gyfrifol am ofal y claf ar yr adeg berthnasol.

5. Rhowch fanylion y pryder a godwyd i'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r Meddyg(on) Ymgynghorol perthnasol, a gofyn iddyn nhw roi adroddiad ffeithiol manwl i chi am eu cysylltiad â'r claf, a'u sylwadau ar y pryder(on) a godwyd. Gofynnwch i'r Meddyg(on) Ymgynghorol a oedd yn gyfrifol am ofal y claf ar yr adeg berthnasol a ydyn nhw'n gallu gwneud sylwadau ynghylch a ydyn nhw'n credu bod unrhyw agwedd ar ofal a/neu driniaeth y claf wedi bod yn is na'r safon resymol o ofal (prawf Bolam) ac os felly, a ydyn nhw'n teimlo eu bod yn gallu gwneud sylwadau ar unrhyw effaith y mae unrhyw fethiannau wedi'i chael ar driniaeth y claf a/neu'r canlyniad (achosiad). Efallai y bydd angen i chi gysylltu â Meddyg Ymgynghorol mewn arbenigedd arall i gael sylwadau ar achosiad. D.S. Os bydd achos cyfreithiol yn cael ei ddwyn yn erbyn y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â phwnc y pryder, byddai'n rhaid datgelu unrhyw sylwadau.

6. Ystyriwch a fyddai gwerth gofyn am gyfarfod wyneb yn wyneb ag unrhyw un o'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol dan sylw os nad yw'r sylwadau rydych chi wedi'u cael yn mynd i'r afael â phryder(on) y claf neu'n eich helpu gyda'ch ymchwiliadau.

7. Ystyriwch a fyddai gwerth cael adroddiad ar dorri dyletswydd a/neu achosiad ac ar gyflwr a phrognosis (canlyniad hirdymor y claf) gan arbenigwr clinigol annibynnol, a maes yr arbenigwr y bydd angen rhoi cyfarwyddyd iddo.

   D.S. Bydd unrhyw dystiolaeth arbenigol yn cael ei chasglu ar y cyd rhwng y darparwr gofal iechyd a'r person sydd wedi mynegi'r pryder.

8. Rhowch gopi o unrhyw adroddiadau clinigol annibynnol i'r Meddyg(on) Ymgynghorol perthnasol, a gofyn iddyn nhw roi unrhyw sylwadau i chi ar gynnwys yr adroddiad(au).

9. Dylech adolygu sylwadau'r clinigwyr a/neu adroddiadau clinigwyr annibynnol ac ystyried a oes atebolrwydd cymwys, yn ôl yr hyn sy'n debygol.

10. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ar unrhyw gam o'r broses ymchwilio, cysylltwch â'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg.

# Atodiad Q – Templed adroddiad yr ymchwiliad Iawn

### Rheoliad 31 a 33 – Templed Adroddiad yr Ymchwiliad

[Rhowch enw Sefydliad y GIG]

[Rhowch enw'r person sydd wedi mynegi'r pryder – ac enw'r person sy'n ymwneud â'r pryder os yw'n berson gwahanol]

[Rhowch ddyddiad yr adroddiad]

*Rhaid i adroddiad yr ymchwiliad gynnwys y canlynol:*

- Copïau o unrhyw dystiolaeth feddygol a gomisiynwyd
- Cadarnhad a oes atebolrwydd cymwys ai peidio
- Eglurhad o'r penderfyniad ynghylch a oes atebolrwydd cymwys ai peidio

Os cynigir Iawn

- Rhowch wybod i'r person sydd wedi mynegi'r pryder bod ganddo 6 mis i ymateb i'r cynnig a wnaed, ac os nad yw'n gallu ymateb i'r cynnig – mewn amgylchiadau eithriadol yn unig – mae angen i'r person roi gwybod i'r corff GIG Cymru beth yw'r rheswm dros yr oedi a phryd bydd yr ymateb yn cael ei gyflwyno
- Dywedwch y bydd rhaid i'r person ildio unrhyw hawl i ddwyn achos sifil os bydd yn derbyn y setliad a gynigiwyd
- Dywedwch y bydd angen i gytundeb y setliad gael ei gymeradwyo gan y llys mewn rhai amgylchiadau, ac os oes angen cymeradwyaeth y bydd rhaid i'r corff GIG Cymru dalu'r costau cyfreithiol rhesymol sy'n gysylltiedig â chael cymeradwyaeth o'r fath.

Rwyf hefyd wedi amgáu ffurflen werthuso fer y dylid ei dychwelyd i Lywodraeth Cymru os byddwch yn dewis ei llenwi, er mwyn ei helpu i weld sut mae'r trefniadau Gweithio i Wella yn gweithio, ac a oes angen gwneud unrhyw welliannau pellach.

Wedi amgáu:
Copïau o dystiolaeth feddygol
Ffurflen werthuso

# Atodiad R – Rhestr wirio ar gyfer ad-daliad ar ôl talu digolledion ariannol sy'n fwy na £25,000

I'W LLENWI GAN GYRFF CYFRIFOL SY'N GWNEUD HAWLIAD

**Rhestr wirio i'w defnyddio wrth lunio crynodeb o achos – achosion o esgeuluster clinigol a niwed personol, boed yr achosion wedi'u setlo drwy daliadau ex-gratia neu drwy orchymyn llys.**

| |
|---|
| **Enw'r Corff Cyfrifol:**<br><br>**Cod y Corff Cyfrifol:**<br><br>**Cyfeirnod yr Achos:**<br><br>**Cyf. Laspar:**<br><br>**Os yw'n ymwneud â Digwyddiad Difrifol – Cyfeirnod Digwyddiad Difrifol Llywodraeth Cymru:** |
| RHAN (1) YMCHWILIO, RHEOLI A DATRYS |
| **1.1 Beth oedd amgylchiadau'r digwyddiad gwreiddiol?**<br><br>**1.2 Pa honiadau oedd â sylwedd iddynt?** |
| **2.1 Gan gyfeirio at yr honiadau uchod, rhowch fanylion neu grynodeb o dystiolaeth tyst y staff/tystion perthnasol** |
| **3.1 Pa safbwyntiau (os o gwbl) a gafwyd gan unrhyw arbenigwyr 'mewnol' neu glinigwyr**<br>**nad oeddent yn ymwneud â'r gofal? Rhowch grynodeb**<br><br>**3.2 Pa dystiolaeth arbenigol annibynnol allanol sydd wedi cael ei sicrhau? Rhowch grynodeb** |
| **4.1 Beth oedd y methiannau neu'r ffactorau a oedd wrth wraidd y broblem?**<br><br>**4.2 Beth oedd y rheswm dros benderfyniad y Corff Cyfrifol i ddyfarnu ar yr hawliad ar y cam hwn?** |
| **5.1 Beth oedd y dyddiad cydnabod a/neu'r dull o gydnabod bod atebolrwydd cymwys mewn camwedd?** |
| **6.1 A gafwyd cyngor cyfreithiol priodol? Do/Na**<br><br>**6.2 Os do, gan bwy?**<br><br>**6.3 Os na, pam?**<br><br>**6.4 Os cafwyd cyngor, pa argymhellion gafodd eu gwneud?** |

| |
|---|
| **6.5 Sut cafodd yr argymhellion hyn eu dilyn?** |
| **7.1 Sut daeth y Corff Cyfrifol yn ymwybodol o'r pryder/hawliad a/neu sut ac ar ba ddyddiad y daeth y digwyddiad i sylw'r Corff Cyfrifol am y tro cyntaf, a pha gamau a gymerwyd?**<br><br>**7.2 A roddwyd gwybod am y digwyddiad i'r sefydliad cenedlaethol priodol ar y pryd (er enghraifft y System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu neu'r Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus)**<br><br>**7.3 Ar ba ddyddiad y daeth y pryder i law?**<br><br>**7.4 Cadarnhewch sut aethpwyd ati i ddelio â'r pryder ac i ymchwilio iddo yn unol â Rheoliadau'r GIG (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011. Dylech egluro sut aeth y Corff Cyfrifol ati i gynnal ei ymchwiliad, gan grynhoi'r honiadau a wnaed o dan Gweithio i Wella a chynnwys copi o'r dadansoddiad o wraidd y broblem a gynhaliwyd o dan y Rheoliadau**<br><br>**7.5 Beth oedd dyddiad yr Adroddiad Interim a oedd yn cydnabod bod atebolrwydd cymwys?**<br><br>**7.6 Beth oedd dyddiad yr Adroddiad Terfynol?** |
| **8.1 Sut penderfynwyd ar werth yr hawliad am iawndal?**<br><br>**8.2 A oes unrhyw ffactorau sy'n ymwneud â'r ffordd y deliwyd â'r hawliad neu hynt yr hawliad wedi cael unrhyw effaith ar naill ai'r iawndal neu'r costau cyfreithiol a ddyfarnwyd yn yr hawliad hwn?**<br><br>**8.3 A oes unrhyw yswiriwr, trydydd parti neu gyfrannwr arall wedi bod yn gysylltiedig â'r broses o wneud unrhyw daliadau i setlo'r achos hwn? Oes/Na**<br><br>**8.4 Os oes, rhowch fanylion gan gynnwys unrhyw argymhellion a wnaed, neu ddosraniadau a gytunwyd neu unrhyw amodau arbennig a osodwyd gan unrhyw drydydd parti.**<br><br>**8.5 A yw'r opsiwn o daliadau cyfnodol wedi cael ei ystyried, neu a roddwyd gorchymyn i wneud taliadau cyfnodol? Do/Na**<br><br>**8.6 Os na, pam?**<br><br>**8.7 Yn achos y naill neu'r llall, beth oedd y canlyniad a pham?**<br><br>**8.8 Pryd wnaeth Adran GIG Cymru Llywodraeth Cymru gymeradwyo'r setliad taliadau cyfnodol?** |

| |
|---|
| **9.1 Ar ba lefel yn y Corff Cyfrifol y cafodd y setliad arfaethedig ei gymeradwyo?**<br><br>**9.2 Pryd cafodd ei gymeradwyo?**<br><br>**9.3 A yw hyn o fewn terfynau dirprwyedig sydd wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd? Ydy/Na**<br><br>**9.4 Os na, a gafwyd cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru? Do/Na**<br><br>**9.5 Os do, ar ba ddyddiad y cafwyd cymeradwyaeth?** |
| **10.1 A yw'r achos yn ymwneud ag unrhyw faterion newydd, dadleuol neu ôl-weithredol (ee, a allai osod cynsail i achos ymgyfreitha arall ar gyfer y GIG, neu fel rhan o gyd-achos)? Ydy/Na**<br><br>**10.2 Os ydyw, pryd cafodd Adran GIG Cymru yn Llywodraeth Cymru wybod?**<br><br>**10.3 Os yw'n berthnasol, rhowch fanylion enw a swydd y sawl a anfonodd yr achos hwn i gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.** |
| **DATGANIAD YR ARBENIGWR HAWLIADAU** |
| **Rwyf wedi llwyr ystyried pwyntiau 1 – 10 ar y rhestr wirio hon, ac mae fy nghanfyddiadau wedi cael eu cofnodi. Rwy'n cadarnhau bod y manylion a gofnodwyd ym mhob adran berthnasol yn gyflawn ac yn gywir, a bod yr agweddau hyn ar y rhestr wirio wedi cael eu hystyried a'u gweithredu'n briodol.**<br><br>**Llofnodwyd gan –**<br><br>**Enw mewn Llythrennau Bras –**<br><br>**Swydd –**<br><br>**Dyddiad –** |
| |
| **RHAN (2) MATERION RISG A DYSGU O DDIGWYDDIADAU** |
| **11 Rhowch fanylion y camau a gymerwyd gan y Corff Cyfrifol i ddysgu gwersi o unrhyw fethiannau a nodwyd (methiannau Clinigol, Iechyd a Diogelwch, Gweinyddol neu rai eraill), gyda golwg ar leihau neu liniaru'r risg neu atal y math hwn o ddigwyddiad rhag digwydd** |
| **12 Pa fesurau monitro neu archwilio sydd wedi cael eu cyflwyno i sicrhau bod unrhyw welliannau sydd wedi cael eu rhoi ar waith yn gweithio'n effeithiol?**<br>**Cofiwch y gallech chi gael cais i anfon ymlaen adroddiadau monitro manwl ynghylch yr hawliad hwn yn nes ymlaen, er mwyn sicrhau bod yr holl welliannau arfaethedig wedi cael eu rhoi ar waith yn llwyr ac yn effeithiol a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.** |

| |
|---|
| |
| **13 Pa wersi y gellir eu dysgu o'r digwyddiad hwn a fyddai o werth i Gyrff Cyfrifol eraill neu i'r GIG yn gyffredinol?** |
| **DATGANIAD LLYWODRAETHU** |
| **Rwyf wedi llwyr ystyried pwyntiau 11 – 13 uchod sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr wirio hon, ac mae fy nghanfyddiadau wedi cael eu cofnodi. Rwy'n cadarnhau bod y manylion a gofnodwyd uchod yn ymatebion cyflawn, cywir a rhesymol i'r methiannau a nodwyd. Mae'r agweddau hyn ar y rhestr wirio wedi cael eu hystyried a'u gweithredu'n briodol.**<br><br>**Llofnodwyd gan –**<br><br>**Enw mewn Llythrennau Bras –**<br><br>**Swydd –**<br><br>**Dyddiad –** |
| |
| **RHAN (3) – DATGANIAD AC AWDURDODIAD Y CORFF CYFRIFOL** |
| **Rwy'n cadarnhau bod y manylion uchod yn gyflawn ac yn gywir, a bod yr holl agweddau hyn ar y rhestr wirio wedi cael eu hystyried a'u gweithredu'n briodol. Rwy'n cytuno bod y taliad hwn yn cynnig y gwerth gorau am arian. Rwyf hefyd yn cadarnhau'r canlynol:**<br>**Dylech ddileu fel y bo'n briodol**<br><br>• **Mae'r achos hwn o fewn awdurdod dirprwyedig y Corff Cyfrifol hwn ac nid yw'n newydd, yn ddadleuol nac yn ôl-weithredol. Rwyf fi, felly, yn cytuno â'r taliad arbennig hwn.**<br><br>• **Mae'r Corff Cyfrifol wedi cydymffurfio â'i rwymedigaethau a'r amodau a nodwyd yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru i'w alluogi i arfer ei awdurdod dirprwyedig i setlo hawliadau sydd werth llai na £1 miliwn**<br><br>• **Mae'r Corff Cyfrifol yn cadarnhau na fu unrhyw newidiadau sylweddol sy'n berthnasol i arfer yr awdurdod dirprwyedig ers dyddiad Asesiad diwethaf Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru**<br><br>• **Mae'r achos hwn y tu hwnt i awdurdod dirprwyedig y Corff Cyfrifol hwn/yn newydd, yn ddadleuol neu'n ôl-weithredol (*dylech ddileu fel y bo'n briodol*), ac rydym wedi cael cymeradwyaeth ffurfiol ymlaen llaw i wneud y taliad arbennig hwn gan Lywodraeth Cymru**<br><br>**Llofnodwyd gan –**<br><br>**Enw mewn Llythrennau Bras –**<br><br>**Swydd – PRIF WEITHREDWR**<br><br>**Dyddiad –**<br><br>**Cydlofnodwyd gan –**<br><br>**Enw mewn Llythrennau Bras –** |

| |
|---|
| **Swydd –**<br><br>**Dyddiad –**<br><br>**Cofiwch fod rhaid i'r adran hon gael ei llofnodi gan 2 uwch swyddog y Corff Cyfrifol. Rhaid i'r naill a'r llall fod yn llofnodwyr awdurdodedig, a rhaid i un ohonynt fod yn Brif Weithredwr yn unol â'r terfynau dirprwyedig a osodwyd gan y Bwrdd** |

Anfonwch at: Pennaeth Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru, Tŷ Alder, Cwrt Alder, Parc Busnes Llanelwy, Sir Ddinbych, LL17 0JL

# Atodiad S – Rhestr wirio pan nad yw cyfanswm y gwariant yn fwy na £25,000

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw a chyfeiriad y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth | | | |
| Cyfeirnod y Bwrdd Iechyd | | | |
| Cyfeirnod LASPAR | | | |
| Os yw'n ymwneud â Digwyddiad Difrifol – Cyfeirnod Digwyddiad Difrifol Llywodraeth Cymru: | | | |
| Enw a rhif cyswllt y person sy'n ymdrin â'r pryder | | | |
| Enw'r Claf | | | |
| | | | |
| Dyddiad mynegai'r digwyddiad | | | |
| Math o ddigwyddiad | Clinigol | | |
| | Niwed Personol | | |
| Disgrifiad byr o'r digwyddiad | | | |
| Setliad o dan drefniadau Iawn | Ie/Na<br>Os ie, nodwch y manylion canlynol: | | |
| | Y dyddiad y daeth y pryder i law | | |
| | Dyddiad yr adroddiad interim sy'n cydnabod atebolrwydd cymwys | | |
| | Dyddiad yr adroddiad terfynol | | |
| Yr achos o dorri dyletswydd a nodwyd | | | |
| Disgrifiad o'r niwed a gafwyd | | | |
| Iawndal/Digollediad a dalwyd £ | Iawndal Cyffredinol | | |
| | Iawndal Arbennig | Swm | |
| | | Math | |
| | Uned Adfer Digollediad | | |
| Manylion y broses adsefydlu a gytunwyd | | | |
| | | | |
| Costau Hawlwyr/Cyngor Cyfreithiol Annibynnol | Ffynhonnell Hawliad Costau | | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cyfanswm a dalwyd £** | |
| | **Cytundeb Ffi Amodol** | **Ie/Na** |
| | **Premiwm Yswiriant a Dalwyd** | |
| **Costau'r Amddiffyniad/Ffioedd Arbenigwyr a dalwyd** | **Swm** | |
| | **Math** | |
| **Gwersi a Ddysgwyd, gan gynnwys monitro mesurau archwilio** | | |
| **Gwersi sydd o werth i Gyrff Cyfrifol eraill neu'r GIG** | | |
| **Rwy'n cadarnhau bod yr wybodaeth uchod yn wir ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.** | | |
| **Llofnod…………………….. Dyddiad.......................................** | | |
| **Llofnodwr awdurdodedig** | | |
| | | |

**I'w lenwi gan Wasanaethau Cronfa Risg Cymru**

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru** | |
| **Dyddiad mewnbynnu ar Gronfa Ddata** | |
| **Gweithredwyd gan** | |

Llenwch y ffurflen a'i dychwelyd o fewn 70 diwrnod i gwblhau'r broses, at:

Pennaeth Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru, Tŷ Alder, Cwrt Alder, Parc Busnes Llanelwy, Sir Ddinbych, LL17 0JL, ac anfonwch gopi i redress@wales.nhs.uk

Nodiadau Cyfarwyddyd

Fel taliad o dan Golledion a Thaliadau Arbennig, mae'n rhaid i bob Corff Cyfrifol roi gwybod i Wasanaethau Cronfa Risg Cymru am yr holl daliadau digolledu a wneir sy'n llai na £25,000 neu dâl-dros-ben.

(1) Dylid llenwi'r ffurflen hon a'i hanfon i Wasanaethau Cronfa Risg Cymru o fewn 70 diwrnod i gwblhau'r pryder/hawliad perthnasol

(2) Dylid defnyddio'r ffurflen hon i hysbysu Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru am unrhyw iawndal digolledu a wneir sy'n llai na £25,000 neu dâl-dros-ben yn dilyn honiad o esgeuluster. Bydd hyn yn cynnwys yr holl bryderon ynghylch iawn o dan Reoliad 6 o Reoliadau'r GIG (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011, ac unrhyw hawliadau sy'n cael eu setlo o dan y Rheolau Trefniadaeth Sifil, boed yn rhai o natur glinigol, niwed personol neu o natur arall

(3) Yn yr adran 'Torri Dyletswydd', nodwch natur yr achos o dorri dyletswydd a nodwyd a arweiniodd at gytuno ar y setliad

(4) Yn yr adran 'Disgrifiad o'r niwed a gafwyd', nodwch pa niwed a achoswyd i'r unigolyn dan sylw ac a oedd yn sail i werth y digollediad a dalwyd

(5) Yn yr adran 'Iawndal/Digollediad a dalwyd', rhannwch y setliad yn iawndal cyffredinol ac iawndal arbennig/Uned Adfer Digollediad. Mae hyn yn eithriadol o bwysig er mwyn hysbysu'r gronfa ddata ar brisio iawndal cyffredinol. Nodwch hefyd y math o iawndal arbennig a dalwyd – colli enillion, gofal, triniaeth breifat, ac ati

(6) Yn yr adran 'Manylion y broses adsefydlu a gytunwyd', nodwch pa fesurau adsefydlu y cytunwyd arnynt, os o gwbl

(7) Yn yr adran ‘Costau Hawlwyr/Cyngor Cyfreithiol Annibynnol a dalwyd’, esboniwch ar ba sail y talwyd y ffioedd – hynny yw, ffioedd sefydlog dan drefniadau Iawn/ffioedd sefydlog o dan Weithdrefnau Datrys yn Gyflym/Trefn Costau Rhagweladwy/Rheolau Trefniadaeth Sifil. Nodwch y taliadau a wnaed ar gyfer premiymau yswiriant o dan gytundebau ffi amodol

(8) Yn yr adran ‘Costau’r Amddiffyniad/Ffioedd Arbenigwyr a dalwyd’, esboniwch ar ba sail y talwyd y ffioedd – hynny yw, ffioedd sefydlog o dan drefniadau Iawn, Rheolau Trefniadaeth Sifil ac ati

(9) Yn yr adran ‘Gwersi a Ddysgwyd’, nodwch yn gryno y camau a gymerwyd i leihau neu i atal y sefyllfa rhag digwydd eto

(10) Nodwch fanylion unrhyw wersi cyffredinol a ddysgwyd i’w lledaenu ar draws GIG Cymru

# Atodiad T – Rhestr wirio pan fydd cyfanswm y gwariant yn fwy na £25,000

| **Adran A** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Lleol/Ymddiriedolaeth | | | Rheolwr Hawliadau | Enw: |
| | | | | Ffôn: |
| Lleoliad y digwyddiad, (ysbyty, clinig ac ati) | | | Enw'r clinigydd arweiniol | |
| Cyfenw'r Claf | | | Cyfreithiwr yr hawlydd | |
| Enw Cyntaf y Claf | | | Cyfreithiwr yr Amddiffyniad | |
| Dyddiad Geni'r Claf | | | Cyfeirnodau | WHLS: |
| | | | | LASPAR: |
| Setliad o dan drefniadau Iawn | Ie/Na | | | |

| **Adran B – Manylion y taliadau a wnaed, HEB GYNNWYS TAW, WEDI'U HADDASU AR GYFER LLOG A GAFWYD AR DALIADAU LLYS A'R COSTAU A DDYFARNWYD** | | | **Adran C – Dyddiadau Allweddol** | |
|---|---|---|---|---|
| Iawndal Cyffredinol | £ | | Dyddiad y digwyddiad | / / |
| Iawndal Arbennig | £ | | Dyddiad yr hawliad | / / |
| Uned Adfer Digolledidad | £ | | Dyddiad setlo'r hawliad | / / |
| Costau'r hawlydd | £ | | Dyddiad setlo'r costau | / / |
| Costau amddiffyn | £ | | Strwythurwyd | **Yn unol â chyngor/Do/Na** |
| **Cyfanswm y taliadau** | **£** | | | |

| **Adran D – Ad-daliadau Blaenorol** | | | **Adran E – Ad-daliad** | |
|---|---|---|---|---|
| Dyddiad ad-dalu | Swm | | **Math o Ad-daliad (dylech ddileu fel y bo'n briodol)** | Interim/Terfynol |
| / / | £ | | Cyfanswm y Taliadau (adran B) | £ |
| / / | £ | | **Llai** cyfanswm y taliadau blaenorol (adran D) | **-** £ |
| / / | £ | | **Llai** atebolrwydd ymddiriedolaeth/Bwrdd Iechyd Lleol | **-** £ |
| **Cyfanswm yr ad-daliadau blaenorol** | **£** | | Hawliad Cronfa Risg Cymru | **£** |

| **Adran F – Rhestr Wirio a Datganiad** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffurflen hawlio Cronfa Risg Cymru | | (ticiwch) | Rhestr o'r costau | | (ticiwch) | Rhestr Wirio Atodiad B | | (ticiwch) |

| Rwy’n datgan bod yr wybodaeth i gefnogi’r hawliad hwn yn gywir ac yn cydymffurfio â gweithdrefnau Cronfa Risg Cymru | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod<br><br>*(Llofnodwr awdurdodedig)* | Enw mewn Llythrennau Bras | Teitl | Dyddiad |

| **At Ddefnydd Swyddogol yn Unig** | | | **Cyfeirnod Cronfa Risg Cymru:** | |
|---|---|---|---|---|
| Ffurflen wreiddiol wedi’i hawdurdodi | | (ticiwch) | | |
| Rhestr Wirio Atodiad B | | (ticiwch) | Stamp Dyddiad: | |
| Wedi rhoi’r tâl-dros-ben cywir | | (ticiwch) | | |
| Rhestr o'r costau | | (ticiwch) | | |
| Gwirio’r taliad blaenorol | | (ticiwch) | | |
| | | | | |
| Cadarnhad Rheolwr Cronfa Risg Cymru | | | | |

| Cymeradwyaeth Swyddog Dirprwyedig | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod | Enw/Teitl | Rhif Cofnod | Dyddiad trosglwyddo i Adran Gyllid C&D<br>/ / |

Anfon at: Pennaeth Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru, Tŷ Alder, Cwrt Alder, Parc Busnes Llanelwy, Sir Ddinbych, LL17 0JL, ac anfonwch gopi i redress@wales.nhs.uk

# Atodiad U – Ffurflen Rhoi Gwybod am Ddigwyddiad Difrifol IR(ME)R

**Llenwch bob maes (* pan fydd yn berthnasol)** – Mae canllawiau ar lenwi a chyflwyno ffurflen rhoi gwybod am ddigwyddiad IR(ME)R ar gael ar Wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Gwefan Gweithio i Wella Llywodraeth Cymru.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eich Cyfeirnod: | | Ein Cyf: | Ein Gradd: |
| Sefydliad Gofal Iechyd: | | | |
| *Enw’r Ysbyty: | | | |
| *Adran: | | | |
| Dull:<br>*(Mae angen amlygu’r opsiwn priodol)* | Delweddu Diagnostig | Radiotherapi | Meddygaeth Niwclear |
| Arbenigedd: | | | |
| Dyddiad y Digwyddiad: | | | |
| Disgrifiad Byr o’r Digwyddiad: | | | |
| Dyddiad rhoi gwybod i’r tîm Rheoli Risg am y digwyddiad | | | |
| Ar faint o ddigwyddiadau ‘MGTI[17]’ y bu effaith?<br>*(Mae angen anonymeiddio; defnyddiwch Claf A, Claf B)* | | | |

[17] ‘Much Greater Than Intended’

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran y Claf/Cleifion 'MGTI' | | Rhywedd y Claf/Cleifion 'MGTI' | |
| *Lleoliad Bwriadedig y Driniaeth<br>ee, Brest, Abdomen ac ati | | *Lleoliad Gwirioneddol y Driniaeth | |
| *Dos Bwriadedig | | *Dos Gwirioneddol | |
| Disgrifiad byr o'r camau a gymerwyd ar unwaith | | | |
| Diddordeb y Cyfryngau<br>*(Go Iawn neu Bosibl)* | | | |
| Pa asiantaethau allanol eraill sydd wedi cael gwybod am y digwyddiad hwn?[18] | | | |
| Unrhyw wybodaeth berthnasol arall | | | |
| Ffurflen wedi'i llenwi gan:<br>*(Enw, Teitl ac e-bost)* | | | |
| Swyddog Digwyddiadau a manylion cyswllt | | | |
| Dyddiad: | | | |
| Cyflogwr:[19]<br>*(Enw, Teitl, e-bost ac Awdurdodi'r Ffurflen)* | | | |
| Dyddiad: | | | |

Cofiwch y bydd yr wybodaeth sy'n cael ei chasglu drwy'r ffurflenni hyn yn cael ei defnyddio i alluogi Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i werthuso sefydliadau gofal iechyd yn unol â gofynion rheoleiddiol IR(ME)R.  Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn rhannu'r set hon o ddata (wedi'u hanonymeiddio) pan fyddwn o'r farn bod angen gwneud hynny i sicrhau diogelwch cleifion neu i wella gwasanaethau IR(ME)R.

[18] Er enghraifft, Byrddau Iechyd eraill, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu
[19] Prif Weithredwr

Dylid **anfon** y ffurflenni i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru **yn ogystal â'r** Tîm Gwella Diogelwch Cleifion.

**Anfonwch ffurflenni i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru:**

**a) dros e-bost;**
**IRMERIncidents@llyw.cymru**

**b) drwy'r post; neu**
Digwyddiadau IR(ME)R
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

**c) drwy'r porth;**
Mae'r Porth Diogel ar gyfer Rhannu Ffeiliau, a ddarperir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, yn wefan lle gellir cyfnewid dogfennau'n ddiogel. I ymuno â'r porth, rhaid i'r person cofrestredig roi rhestr i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o enwau a chyfeiriadau e-bost unigolion sydd â'r awdurdod i ddefnyddio'r porth.
Canllaw i Ddefnyddwyr ar y Porth Diogel ar gyfer Rhannu Ffeiliau

**Anfonwch ffurflenni i Lywodraeth Cymru:**

**a) dros e-bost**
PatientSafety.Wales@wales.nhs.uk

# Atodiad V – Ffurflen Rhoi Gwybod am Ddigwyddiad Difrifol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYFYNGEDIG PAN FYDD WEDI’I CHWBLHAU

RHOI GWYBOD AM DDIGWYDDIAD DIFRIFOL
(FFURFLEN DIGWYDDIAD DIFRIFOL 1)

| **Cyfeirnod LlC** | | **Gradd LlC** | |
|---|---|---|---|
| Cyf Mewnol neu Rif Datix | | Dyddiad rhoi gwybod i’r tîm Rheoli Risg | |
| Sefydliad | | | |
| Enw, Teitl Swydd a Manylion Cyswllt y sawl sy'n rhoi gwybod am y digwyddiad | Enw:<br><br>Teitl swydd:<br><br>Manylion cyswllt:<br><br>E-bost: | | |
| Dyddiad gwneud yr adroddiad hwn | | | |
| Pryd ddigwyddodd y digwyddiad? | Dyddiad: | Amser (24 awr): | |
| Categori’r Digwyddiad (yn unol â Rhestr Codau Math o Ddigwyddiad y System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu) | | | |
| A yw’n *ddigwyddiad “byth”*? | | | |
| Lleoliad y digwyddiad, gan gynnwys y safle a’r arbenigedd pan fydd hynny’n berthnasol | | Ardal Awdurdod Lleol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ar bwy wnaeth hyn effeithio, ac ar faint? ***(peidiwch â chynnwys manylion personol)*** | | Oedran y claf/cleifion os ydych chi'n gwybod ***(Peidiwch â rhoi dyddiad geni)*** | |
| Disgrifiad byr o'r hyn ddigwyddodd | | | |
| Disgrifiad byr o'r camau a gymerwyd ar unwaith | | | |
| Disgrifiad byr o'r camau a gymerwyd os yw'r Digwyddiad Difrifol hwn yn cynnwys Bwrdd Iechyd/Ymddiried olaeth arall neu Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru? | | | |
| Manylion Diddordeb y Cyfryngau | | | |
| A yw'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu wedi cael gwybod am y Digwyddiad Difrifol hwn? | | | |

| | |
|---|---|
| Pa asiantaethau allanol eraill sydd wedi cael gwybod am y digwyddiad hwn, er enghraifft Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru/Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru? | |
| Unrhyw wybodaeth berthnasol arall (gan gynnwys cyfeirnod Dim Syrpréis neu gyfeirnod Digwyddiad Difrifol os yw'n berthnasol) | |
| Llofnod y Prif Weithredwr / Swyddog Gweithredol<br>**(Rhaid llenwi'r adran hon)** | Llofnod: Enw mewn Llythrennau Bras:<br>Teitl:<br>Dyddiad: |
| **At ddefnydd LIC yn unig:** | |

# Atodiad W – Ffurflen Mater Sensitif / Dim Syrpréis

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**CYFYNGEDIG PAN FYDD WEDI'I CHWBLHAU**

**RHOI GWYBOD AM FATER SENSITIF/DIM SYRPRÉIS (FFURFLEN DIGWYDDIAD DIFRIFOL 2)**

| **Cyfeirnod LIC** | | | |
|---|---|---|---|
| Sefydliad | | | |
| Enw, Teitl Swydd a Manylion Cyswllt y sawl sy'n rhoi gwybod am y digwyddiad | Enw:<br>Teitl y swydd:<br>Manylion cyswllt:<br>E-bost: | | |
| Dyddiad gwneud yr adroddiad hwn | | | |
| Disgrifiad byr o'r mater | | | |
| Disgrifiad byr o unrhyw gamau gweithredu a delio â'r cyfryngau | | | |
| Unrhyw wybodaeth berthnasol arall (gan gynnwys cyfeirnod y Digwyddiad Difrifol os yw'n berthnasol / oedran y claf/cleifion os ydych chi'n gwybod, atodlen 5) | | | |

| | |
|---|---|
| Llofnod y Prif Weithredwr / Swyddog Gweithredol<br><br>**(Rhaid llenwi'r adran hon)** | Llofnod: Enw mewn Llythrennau Bras:<br><br>Teitl:<br><br>Dyddiad: |
| **At ddefnydd LlC yn unig:** | |

# Atodiad X – Crynodeb Terfynu ar gyfer Digwyddiadau Difrifol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**CYFYNGEDIG PAN FYDD WEDI'I CHWBLHAU**

**CRYNODEB TERFYNU**
**(FFURFLEN DIGWYDDIAD DIFRIFOL 3)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyf. Llywodraeth Cymru**<br><br>**Cyf. y GIG** | | Gradd y GIG | |
| Sefydliad | | Dyddiad y digwyddiad | |
| Crynodeb o'r digwyddiad (i'w lenwi dim ond os oes gwybodaeth ychwanegol i'r ffurflen wreiddiol ar gyfer rhoi gwybod) | | | |
| Rhowch y canlynol:<br>Materion/problemau a nodwyd<br>Ffactorau cyfrannol<br>Gwraidd y broblem | | | |
| Achos y farwolaeth (os yw'n berthnasol) | | | |
| Cadarnhau'r camau gweithredu a roddwyd ar waith a'r trefniadau i gwblhau'r camau gweithredu sy'n weddill | | Terfyn(au) amser | |

<table>
<tr><td>A yw’r digwyddiad yn gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â hysbysiad diogelwch cleifion, digwyddiad byth neu atodlen 5?</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Trefniadau ar gyfer lledaenu camau gweithredu / gwersi a ddysgwyd ar y cyd yn fewnol, ac a ydynt wedi cael eu rhannu ag unrhyw asiantaeth / Sefydliad GIG arall yn allanol</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>A oes Pryder / Thema / Ffactor wrth Wraidd y Broblem sy’n codi dro ar ôl tro</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Unrhyw wybodaeth ychwanegol wedi’i hatodi</td><td colspan="3">Oes: [ ] Nac oes: [ ]</td></tr>
<tr><td>Ymwadiad</td><td colspan="3">Rwy’n cadarnhau bod ymchwiliad trylwyr wedi cael ei gynnal ar y digwyddiad hwn, a bod y pwyllgor priodol wedi cytuno ar y canfyddiadau a’r argymhellion a’u bod naill ai wedi cael eu gweithredu neu fod cynlluniau ar waith i roi’r camau gweithredu ar waith o fewn terfyn amser a gytunwyd</td></tr>
<tr><td>Llofnod y Prif Weithredwr / Swyddog Gweithredol<br><br>(Rhaid llenwi’r adran hon)</td><td colspan="3">Llofnod: Enw mewn Llythrennau Bras:<br><br>Teitl:<br><br>Dyddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="4">AT DDEFNYDD LIC YN UNIG:</td></tr>
<tr><td>Digwyddiad wedi’i Derfynu</td><td>Ydy: [ ]<br>Nac Ydy: [ ]<br>Llofnod:<br>Dyddiad:</td><td>Camau pellach i’w cymryd</td><td></td></tr>
</table>

## Atodiad Y – Templed Adroddiad Blynyddol

### TEITL YR ADRODDIAD

### Diben

Darparu gwybodaeth am gynnydd a pherfformiad *(enw'r corff cyfrifol)* wrth ymdrin â phryderon.

Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn egluro sut mae *(enw'r corff cyfrifol)* wedi ymdrin â phryderon ar gyfer y cyfnod xxxxx – xxxxxx.

Crynodeb Gweithredol

1. **Trosolwg o'r trefniadau sydd ar waith i ymdrin â phryderon**

   *Disgrifiwch y dull presennol o ymdrin â phryderon ac unrhyw ddatblygiadau sydd ar y gweill. Dylech gyfeirio at weithio gyda chyrff cyfrifol eraill. Pa mor effeithiol fu'r trefniadau newydd, y dull 'ymchwilio unwaith ac ymchwilio'n dda', a sut mae hyn wedi effeithio ar brofiad y staff yn ogystal â'r cleifion. Rhowch syniad o'r gwasanaethau a ddefnyddiwyd, er enghraifft, cyngor arbenigol, cyngor cyfreithiol, dull amgen o ddatrys anghydfod a gwasanaethau eirioli.*

2. **Ystadegau Pryderon (yn unol â'r ffurflen casglu data)**

   Hefyd, dylai cyrff cyfrifol geisio rhoi syniad o nifer y pryderon nad oedd sail dda iddynt.

3. **Themâu, tueddiadau ac unrhyw faterion allweddol sy'n dod i'r amlwg o Bryderon**

4. **Gwersi a Ddysgwyd**

5. **Casgliad a blaenoriaethau ar gyfer gwella**

# Atodiad X – Llythyr templed ynghylch: cais gan gyfreithiwr am fynediad at gofnodion iechyd

**Templed llythyr 7**

**Llythyr gan dimau pryderon at gyfreithiwr sydd wedi gwneud cais am gael gweld cofnodion meddygol**

**DS Mewn rhai achosion, bydd Cyfreithwyr yn cysylltu â'r sefydliad GIG yn uniongyrchol i ofyn am gopi o gofnod meddygol claf, ac mewn rhai achosion gall y rheswm dros hynny fod yn arwydd cynnar o hawliad, ond mae'n bosibl na fydd y rheswm dros y cais yn gwbl glir bob amser**

Annwyl *[enw]*

Ynghylch: *[enwau'r claf]*

Diolch i chi am eich *llythyr/e-bost/ffacs* ar *[00.00.00]*, a dderbyniwyd ar *[00.00.00] yn gofyn am gael copi o* gofnodion meddygol *[enw'r claf]*.

Gan eich bod wedi amgáu ffurflen ganiatâd gan y claf/atwrneiaeth, byddwn yn delio â'r cais, ac fe ddylech chi gael copi erbyn *[rhowch y dyddiad]*. ***Neu*** Er mwyn delio â'r cais, mae angen i ni gael *[caniatâd y claf/atwrneiaeth]*, a byddwn yn ddiolchgar pe bai modd llenwi'r ffurflen amgaeedig a'i dychwelyd.

Gan eich bod yn cysylltu â ni, rydym yn cymryd bod gan eich cleient bryder am y gofal a'r driniaeth y mae wedi'u derbyn gan y *Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth y GIG*.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn cadarnhau a ydych wedi trafod hawl eich cleient i gael ymchwiliad i'w bryderon o dan Reoliadau'r GIG (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 sydd bellach ar waith yn y GIG yng Nghymru i ddelio â phryderon am ofal a thriniaeth. Rwyf felly wedi amgáu taflen ynghylch hynny, ac efallai y byddwch am ystyried ei hanfon ymlaen. Byddem hefyd yn gwerthfawrogi cael cadarnhad a yw'ch cleient yn dymuno i'r Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth y GIG ymchwilio i'w bryder neu bryderon yn unol â'r Rheoliadau ar *[rhowch y dyddiad]* neu cyn hynny.

Fel arall, os bydd eich cleient yn dymuno bwrw ymlaen â'r mater hwn y tu hwnt i'r rheoliadau drwoch chi, byddwn yn rhoi manylion y mater hwn i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Yn gywir

*[Rhowch enw aelod staff y tîm pryderon]*
Amg. Ffurflen ganiatâd os yw'n berthnasol
Taflen Gweithio i Wella

Hawlfraint y Goron 2011
F4921011
WAG11- 10803
ISBN 978 1 4734 0087 0